Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon: 2024-25

Gorffennaf 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2024-25

Gorffennaf 2025

senedd.cymru

# Cynnwys

**Trosolwg** ..... **7**

Rhagair ..... 8

Cyflwyniad ..... 10

Datganiad o Ddiben ..... 12

Comisiynwyr ..... 14

Cynghorwyr Annibynnol ..... 16

Uwch-arweinyddiaeth y Comisiwn ..... 18

Strwythur Llywodraethiant ..... 21

Trefniadau Rheoli’r Comisiwn ..... 22

Crynodeb o’r gweithgareddau ..... 26

**Dadansoddi Perfformiad** ..... **31**

Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol ..... 32

Proffil risg ..... 44

Adolygiad Ariannol ..... 49

Darparu cymorth seneddol o’r radd flaenaf ..... 55

Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn ..... 75

Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy ..... 93

**Atebolrwydd ........ 119**

Llywodraethu Corfforaethol ........ 120

Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ........ 123

Datganiad Llywodraethu ........ 125

Staff a thaliadau ........ 145

Atebolrwydd ac archwilio ........ 165

Y Dystysgrif ac adroddiad yr archwilydd annibynnol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd ........ 172

**Datganiadau Ariannol ........ 181**

Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon ........ 189

Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra ........ 219

**Dydd Gŵyl Dewi 2025**
Cafwyd diwrnod llawn hwyl i'r teulu, perfformiadau, a gweithgareddau yn y Senedd



# Trosolwg

Mae'r adran Trosolwg hon yn darparu gwybodaeth am ddiben, strwythur a nodau strategol y Comisiwn a rhai gweithgareddau allweddol sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf.



# Rhagair



**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd,
Senedd Cymru

## Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hwn sy'n ymdrin â fy nawfed flwyddyn fel Llywydd; pedwerydd adroddiad y Chweched Senedd.

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae ein sefydliad wedi symud ar gyflymder digynsail at y cyfnod o osod ei raglenni newid trawsnewidiol ar waith – Ffyrdd o Weithio a Diwygio'r Senedd.

Testun balchder imi yw'r modd y mae'r Chweched Senedd – Aelodau a swyddogion fel ei gilydd – wedi cofleidio'r ddyletswydd a osodwyd arnom i baratoi ar gyfer Senedd wahanol iawn ar ôl Etholiad Cyffredinol Cymru ym mis Mai 2026, pan fydd 96 Aeloda o'r Senedd yn cael eu hethol.

Sefydlwyd Pwyllgor Senedd y Dyfodol ym mis Hydref 2024 gyda'r cylch gorchwyl o ystyried trefniadaeth busnes yn y Seithfed Senedd, atebion i rwystrau (go iawn, a chanfyddedig) er mwyn sicrhau Senedd wirioneddol gynrychioliadol, a'r trothwyon sydd wedi'u pennu ar hyn o bryd yn y Rheolau Sefydlog.

Dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Lywydd, David Rees, gosododd y Pwyllgor ei adroddiad ar 9 Mai, gydag amrywiaeth o argymhellion i'w hystyried.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Llawn olaf yn y Siambr ar 2 Ebrill. Mae busnes yn cael ei gynnal yn Siambr Hywel tra bod y brif siambr yn cael ei hailweithio i ddarparu ar gyfer 96 o Aelodau. Mae pwyllgorau a chyfarfodydd llawn yn parhau i gyfarfod mewn fformat hybrid, gan ddangos ein hymrwymiad i fod yn sefydliad hyblyg, cynhwysol a modern.

Mae'r Senedd yn parhau i fanteisio ar arferion gwaith sy'n esblygu i gryfhau perthnasoedd, a dysgu ar y cyd â seneddau ledled y byd. Edrychaf ymlaen at gynnal Cynhadledd Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir (neu BIMR), Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, ym mis Mehefin.

Mae pwyllgorau wedi cyflawni eu dyletswydd o ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn sgil gwaith craffu trylwyr, gydag adroddiadau effeithiol yn ffrwyth llafur. At hynny, mae Senedd Ieuenctid Cymru yn parhau i fynd o nerth i nerth yn ei thrydydd tymor, gan roi llais i'r genhedlaeth nesaf wrth wraidd eu democratiaeth genedlaethol.

Wrth imi ddatgan fy mwriad i beidio â cheisio cael fy ail-ethol yn Llywydd Senedd Cymru, caf fy atgoffa o daith nodedig y Cynulliad Cenedlaethol – fel yr oedd, ar y pryd – ers fy ethol gyntaf ym 1999.

Y cyfeillion cyson ar hyd y llwybr a fu, weithiau, yn anrhagweladwy, oedd swyddogion talentog ac ymroddedig y Comisiwn. Heb eu harbenigedd a'u profiad, ni fyddai ein swyddi fel Aelodau yn bosibl.

Wrth inni baratoi i ysgrifennu pennod nesaf stori'r Senedd, hoffwn dalu teyrnged, i gloi, i'r diweddar Arglwydd Dafydd Elis-Thomas a fu farw ym mis Chwefror.

Ef oedd sefydlwr ein senedd genedlaethol, a gwn y daw Aelodau a swyddogion fel ei gilydd ynghyd i adeiladu ar ei waddol, drwy weithio i gyflwyno Seithfed Senedd sy'n fodern, yn gynhwysol, yn eangfrydig ac yn addas i bobl Cymru.

# Cyflwyniad



**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

## Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o edrych yn ôl ar chwarter canrif o ddatganoli, o barhau i wneud y Senedd bresennol yn agored i bawb, ac o fynd a'r maen i'r wal wrth baratoi at y Seithfed Senedd.

Gyda Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn derbyn Cydsyniad Brenhinol ym Mehefin 2024, rydym yn awr yn gwybod y bydd 36 o Aelodau ychwanegol yn cael eu hethol i'r Seithfed Senedd yn 2026.

Ac mae'r gwaith o baratoi at hynny eisoes yn ei anterth – o addasiadau i'r adeilad, i gynnal ymarferion cynllunio senarios fel bod ein staff yn paratoi ar gyfer yr holl bosibiliadau.

Rydym wedi sefydlu Bwrdd Newid i sicrhau bod Comisiwn y Senedd yn diwallu anghenion Senedd ddiwygiedig a bod y gweithgarwch gofynnol i baratoi am y newid yn cael ei gyflawni yn unol â'r amserlen a'r gyllideb.

Rydym hefyd wedi bod yn paratoi at y dyfodol drwy edych ar anghenion llety hirdymor y Senedd, gydag ymrwymiad i ddarparu gwerth am arian ar gyfer arian cyhoeddus, a thrwy archwilio'n weithredol y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, gan edrych yn fanwl ar gyfleoedd yn ogystal â risgiau i weithgareddau seneddol.

Bu hefyd yn flwyddyn o barhau i chwalu rhai o'r rhwystrau canfyddedig i bobl gymryd rhan a dylanwadu ar waith y Senedd bresennol.

Fe wnaethom gynyddu ein hymdrechion i gyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol trwy ymestyn allan at gymunedau a chydweithio gyda nhw, er enghraifft trwy gefnogi aelodau o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr i rannu eu barn i ddylanwadu ar waith y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.  Fe wnaeth ein timau hefyd wahodd cymunedau i'r Senedd i ddangos ei bod yn Senedd fodern i bawb, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth gydag Anabledd Cymru i gynnal rhaglen o weithdai a sgyrsiau ar Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl.

Ar gyfer trydydd etholiad y Senedd Ieuenctid yn 2024, fe gawsom gymorth ein cyn-Aelodau o'r Senedd Ieuenctid i rannu eu profiadau ac ysbrydoli eu cyfoedion.  O ganlyniad, gwelwyd y nifer uchaf erioed o bobl ifanc yn pleidleisio yn yr etholiad Senedd Ieuenctid.

Fe wnaethom barhau gyda'n hymrwymiad i wneud Comisiwn y Senedd yn weithle cefnogol a chynhyrchiol lle gall pawb ffynnu, er enghraifft drwy lansio ein Hymrwymiad Llesiant.

Buom hefyd yn dathlu tair blynedd o strategaeth Cyfnewid Gwybodaeth y Comisiwn, sydd wedi cryfhau cysylltiadau gyda staff academaidd a phrifysgolion, gan sicrhau mynediad at dystiolaeth ac arbenigedd ymchwil arloesol.

A bu hefyd yn flwyddyn o edrych yn ôl.

Wrth nodi 25 mlynedd o ddatganoli yng Nghymru, fe wnaethom guradu arddangosfa i ddathlu hanesion pobl sydd wedi defnyddio eu llais i ymgyrchu dros newid - boed hynny drwy roi tystiolaeth i bwyllgor, gyflwyno deiseb i'r Senedd, neu ddod yn Aelod o'r Senedd Ieuenctid. Ar y cyfryngau cymdeithasol, buom yn rhannu hanes y Senedd yn ogystal â gobeithion pobl ifanc am ei dyfodol, gan groesawu Eu Mawrhydi'r Brenin a'r Frenhines i'r Senedd i gyfarfod pobl a oedd wedi cyfrannu at ei gwaith dros y chwarter canrif diwethaf.

Yn ogystal â hyn, cyhoeddwyd cyfres o erthyglau ar '25 mlynedd o Gyfraith Cymru' gan Ymchwil y Senedd, a oedd yn amlinellu sut mae ein sefydliad wedi ymdrechu i ddod o hyd i ffyrdd o gynrychioli pobl Cymru yn well dros y blynyddoedd.

A dyma y byddwn ni'n parhau i wneud wrth i ni baratoi i gymryd y cam mawr nesaf yn ein hanes.

# Datganiad o Ddiben

## Senedd Cymru


Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.  Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.


## Comisiwn y Senedd

Mae Comisiwn y Senedd yn gwasanaethu'r Senedd i helpu i hwyluso ei lwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd cryf, hygyrch, cynhwysol a blaengar a deddfwrfa sy'n cyflawni'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

## Nodau Strategol Comisiwn y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd

- Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf
- Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn
- Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy





## Blaenoriaethau i Gomisiwn y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd

- Darparu cymorth i Aelodau ar draws yr ystod o fusnes ac addasu i anghenion yr Aelodau.
- Ymateb i, a hwyluso newid cyfansoddiadol, gan gynnwys cryfhau rhwydweithiau rhyng-sefydliadol a dysgu.
- Cynnal enw da a datblygu gwasanaethau cynaliadwy.
- Gwrando ar ddinasyddion a dangos sut rydym yn gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym; mai ni yw eu llais.
- Annog ac ysbrydoli dinasyddion i gymryd rhan yn ein trafodaethau ar-lein ac yn bersonol.
- Sefydlu'r Senedd fel canolbwynt bywyd cyhoeddus Cymru, sy'n arwain y ffordd fel sefydliad dwyieithog.
- Sicrhau bod dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn
- Adeiladu a datblygu gweithlu medrus, ymroddedig ac amrywiol, gyda'r dechnoleg a'r cyfleusterau i gyflawni eu rolau.
- Cynllunio a rheoli ariannol a phrosiectau effeithiol, fel y gallwn ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i ddiwallu anghenion y Senedd.
- Rhoi sicrwydd trwy lywodraethu priodol, a dangos gwerth am arian.
- Darparu amgylchedd diogel ac iach i weithio ac ymgysylltu.

# Comisiynwyr

Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn rhagnodi bod Senedd Cymru (y Senedd) yn penodi Comisiynwyr sy'n gyfrifol am ddarparu'r staff a'r adnoddau sydd eu hangen ar y Senedd i gyflawni ei rôl yn effeithiol.

Y Comisiynwyr sy'n gyfrifol am drefniadau llywodraethiant sefydliad ac maent yn atebol i'r Senedd.  Ymhlith cyfrifoldebau'r Comisiynwyr fel 'bwrdd llywodraethu' mae gosod nodau strategol y sefydliad, darparu'r arweinyddiaeth i'w rhoi ar waith, goruchwylio'r ffordd y caiff y nodau strategol hynny eu cyflawni a chyflwyno adroddiadau a bod yn atebol i'r Senedd o ran eu stiwardiaeth.

Y Llywydd sy'n cadeirio'r Comisiwn, ac mae'n cynnwys pedwar Aelod o'r Senedd sydd wedi'u penodi gan y Senedd.  Mae gan y Comisiynwyr gyfrifoldeb ar y cyd dros benderfyniadau ac mae ganddynt statws cyfartal mewn trafodaethau, ac mae pob aelod o'r Comisiwn yn cael ei gynnwys yn llawn yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae gan bob Comisiynydd bortffolio penodol o gyfrifoldebau.



**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS, Plaid Cymru**
Y Llywydd yw Cadeirydd y Comisiwn ac mae'n gyfrifol, hefyd, fel y Comisiynydd cyfathrebu.

Mynychodd y Gwir Anrh. Elin Jones 9 allan o 9 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Hefin David AS, Llafur Cymru**
***Penodwyd ar 17 Ebrill 2024***
Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am y gyllideb a llywodraethiant (gan gynnwys bod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg).

Mynychodd Hefin David 9 allan o 9 o gyfarfodydd y Comisiwn, a 4 allan o 4 o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Janet Finch-Saunders AS, Y Ceidwadwyr Cymreig**
Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am ddatblygu cynaliadwy.

Mynychodd Janet Finch-Saunders 9 allan o 9 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Adam Price AS, Plaid Cymru**
Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am ieithoedd swyddogol.

Mynychodd Adam Price 9 allan o 9 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Ken Skates AS, Llafur Cymru**
***Ymddiswyddodd ar 15 Ebrill 2024***
Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am y gyllideb a llywodraethiant (gan gynnwys bod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg).

Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd yn y cyfnod hyd at 15 Ebrill 2024.



**Joyce Watson AS, Llafur Cymru**
Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am gydraddoldeb.

Mynychodd Joyce Watson 9 allan o 9 o gyfarfodydd y Comisiwn.

# Cynghorwyr Annibynnol

Mae'r Comisiwn yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau bod Comisiynwyr a thîm gweithredol y Comisiwn yn cael her adeiladol a sicrwydd bod trefniadau llywodraethu yn gywir, yn effeithiol ac yn briodol.

Mae'r Cynghorwyr Annibynnol yn gweithredu mewn capasiti cynghorol, anwleidyddol. Maent yn unigolion sydd â chyfoeth o brofiad o ystafell fwrdd, llywodraeth, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, sy'n cyflwyno arbenigedd, sgiliau a dealltwriaeth amrywiol, er mwyn helpu'r Comisiwn i gyrraedd ei safonau uchel ei hun o lywodraethu da a defnydd effeithiol o arian cyhoeddus. Gallant ddarparu mewnwelediad gwrthrychol a her adeiladol a rhoi sicrwydd.

Mae'r Cynghorwyr Annibynnol yn ymwneud â nifer o weithgareddau'r Comisiwn, gan weithredu fel cyfeillion beirniadol ar brosiectau, drwy ryngweithio â meysydd gwasanaeth y Comisiwn, yn eu rolau ar bwyllgorau cynghorol i'r Comisiwn a thrwy gyfrannu safbwynt allanol ac annibyniaeth i'n llywodraethu corfforaethol.

## Tâl

Mae Cynghorwyr Annibynnol yn cael tâl amhensiynadwy o £5,000 y flwyddyn, gyda £7,000 y flwyddyn i'r Cadeiryddion.



**Robert (Bob) Evans (Tachwedd 2018 – Heddiw)**
Dechreuodd Bob ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ac yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Tachwedd 2018. Ym mis Chwefror 2019, cafodd ei benodi yn Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw.

Mynychodd Bob Evans 4 o 4 o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Dr Aled Eirug (Ebrill 2019 – Heddiw)**
Dechreuodd Aled ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Ebrill 2019 ac roedd yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hyd at fis Gorffennaf 2023. Fe'i benodwyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau ym mis Tachwedd 2023.

Mynychodd Aled Eirug 1 allan o 1 o gyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau. Mae Aled yn un o wahoddedigion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac mae wedi mynychu 2 allan o 4 o gyfarfodydd y pwyllgor hwnnw.



**Dr Mark Egan (Tachwedd 2022 – Heddiw)**
Dechreuodd Mark ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2022 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae Mark Egan wedi mynychu 4 allan o 4 o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Yr Athro Uzo Iwobi (Tachwedd 2022 – Heddiw)**
Dechreuodd Uzo ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2022 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Taliadau. At hynny, mae Uzo n aelod o'r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac yn un o wahoddedigion sefydlog y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae Uzo Iwobi wedi mynychu 1 allan o 1 o gyfarfodydd y o'r Pwyllgor Taliadau, a 2 allan o 3 gyfarfodydd y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant.



**Menai Owen-Jones (Tachwedd 2022 – Presennol)**
Dechreuodd Menai ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2022 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau. At hynny, mae Menai yn aelod o Grŵp Llywio'r Gweithlu.

Mae Menai Owen-Jones wedi mynychu 4 allan o 4 o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, 1 allan o 1 o gyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau, a 3 allan o 3 o gyfarfodydd Grŵp Llywio'r Gweithlu.

# Uwch-arweinyddiaeth y Comisiwn



**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**

Yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, mae Comisiwn y Senedd yn dirprwyo ei swyddogaethau, gan gynnwys cyfrifoldeb dros reoli staff, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, yn amodol ar nifer o eithriadau ac amodau.

At hynny, y Prif Weithredwr yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.

Er mwyn ei chefnogi, mae gan y Prif Weithredwr dîm o Gyfarwyddwyr sy'n rhannu'r cyfrifoldeb dros reolaeth gorfforaethol strategol, yn ychwanegol at y cyfrifoldebau penodol a amlinellir.



**Arwyn Jones**
**Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Darparu gwasanaethau cymorth y Comisiwn a'r Aelodau, gan gynnwys cymorth i swyddfa'r Llywydd a'r uwch-dîm rheoli, gwasanaethau ysgrifenyddiaeth i'r byrddau corfforaethol a'r Comisiwn.

Darparu cyfieithu a chofnodi, gan gynnwys y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, a darparu TGCh a'r Swyddfa Rhaglenni.

Mae'n sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu corfforaethol, ymgysylltu ag ymwelwyr a gwybodaeth gyhoeddus yn cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol.



**Matthew Richards**
**Cyfarwyddwr Dros Dro Busnes y Senedd**
**(18 Tachwedd 2024 – Heddiw)**

Darparu gwasanaethau seneddol, cyfreithiol, llywodraethu gwybodaeth, cyfansoddiadol ac ymchwil arbenigol i'r Senedd, gan sicrhau bod busnes y Senedd yn cael ei ddarparu'n effeithlon ac yn effeithiol, gan gynnwys pasio deddfwriaeth drwy'r Senedd a darparu cyngor arbenigol diduedd i Aelodau o'r Senedd.[1]



**Edward (Ed) Williams**
**Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd**

Darparu swyddogaethau Ystadau a Chyfleusterau, Adnoddau Dynol, Diogelwch, Caffael, yr Uned Cynllunio Strategol a Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd.

Mae'r Prif Swyddog Ariannol, sy'n gyfrifol am y strategaeth ariannol gorfforaethol, cynllunio, rheoli'r gyllideb, taliadau a phensiynau yn adrodd i Ed Williams.




**Huw Williams**
**Prif Gynghorydd Cyfreithiol**

Darparu cyngor cyfreithiol arbenigol a diduedd i'r Llywydd, y Comisiynwyr, Aelodau o'r Senedd, y Prif Weithredwr ac adrannau eraill Comisiwn y Senedd.

[1] Gadawodd Siwan Davies, a oedd yn Ddirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd, y Comisiwn yn ystod y flwyddyn hon.



# Strwythur Llywodraethu




## Cyrff Cynghori Annibynnol

**Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**
Adolygu a monitro effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheolaethau mewnol a rheoli risg.

**Y Pwyllgor Taliadau**
Yn rhoi sicrwydd mewn perthynas â thaliadau'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr.

# Trefniadau Rheoli'r Comisiwn

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol ac adnoddau staffio'r Comisiwn wedi'u cynllunio i fodloni gofynion hysbys. Yn benodol, yn unol â nodau strategol y Comisiwn, mae'n gyfrifol am gynllunio a blaenoriaethu cronfa prosiectau'r Comisiwn sy'n canolbwyntio ar gynnal a chadw'r ystad, darparu gwasanaethau TGCh effeithiol a darparu prosiectau newydd i wella perfformiad ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac mae'n cynnwys y Cyfarwyddwyr, y Prif Swyddog Cyllid, y Prif Swyddog Pobl, a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol. Dyma'r corff gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer pob mater a ddirprwyir gan y Comisiwn. At hynny, mae'n gorff ymgynghorol i'r Comisiwn, wrth osod strategaeth, nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, y gyllideb, a rheoli risgiau corfforaethol.

Elfen sylweddol o gyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol fu darparu goruchwyliaeth strategol ac arweinyddiaeth rhaglen newid y Comisiwn.[2]. Er mwyn goruchwylio ac arwain y newidiadau sylweddol sy'n ofynnol ar gyfer pontio i'r Seithfed Senedd, mae Bwrdd Newid Senedd 26 wedi'i sefydlu'n ddiweddar o fewn Comisiwn y Senedd. Mae'r Bwrdd Newid yn gyfrifol am ddarparu cyfeiriad strategol, awdurdod i wneud penderfyniadau a goruchwyliaeth i gefnogi cyflawniad amrywiol ffrydiau gwaith. Dan Gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr, mae'n cynnwys aelodaeth graidd o'r Bwrdd Gweithredol, wedi'i hategu gan uwch swyddogion perthnasol eraill. Mae hyn wedi'i nodi'n fanylach yn yr adran Cynllunio Strategol isod.

Mae'r Tîm Arwain yn cynnwys aelodau'r Bwrdd Gweithredol a phob un o'r Penaethiaid Gwasanaeth. Prif gyfrifoldeb y Tîm Arwain yw sicrhau bod cynlluniau a blaenoriaethau gweithredol yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

## Cyfathrebu rhwng y Comisiwn ac Aelodau o'r Senedd

Mae cyfathrebu effeithiol rhwng y Comisiwn ac Aelodau o'r Senedd yn bwysig er mwyn llywio'r ddarpariaeth o'r safonau uchaf posibl o wasanaeth. Mae'r Prif Weithredwr a'r Llywydd yn chwarae rhan allweddol wrth hwyluso'r cyfathrebu

[2] Mae Rhaglen Newid y Comisiwn yn cynnwys nifer o brosiectau a mentrau, a reolir gan dimau amrywiol yn y Senedd. Yr Uned Cynllunio Strategol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros gyflwyno adroddiad ar gynnydd, eithriadau, risgiau a materion i'r Bwrdd Gweithredol yn rheolaidd.

hwn, gyda'r Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn a'r Aelodau yn darparu cymorth wrth ymdrin â phryderon a materion a godwyd gan yr Aelodau.

Mae amrywiol ddulliau ar waith ar gyfer cyfathrebu rhwng y Comisiwn ac Aelodau, gan gynnwys adborth rheolaidd gan y Comisiynwyr i aelodau eu grŵp am waith y Comisiwn, a darparu gwybodaeth drwy Fewnrwyd yr Aelodau, sydd wedi cael ei adnewyddu i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a rhwyddineb llywio. Yn ystod y cyfnod, darparodd Grŵp Cyswllt ar gyfer pleidiau'r Senedd cyfarfodydd strwythuredig, wedi'u cynllunio gyda grwpiau'r pleidiau i lywio meddwl a phenderfyniadau'r Comisiwn. Mae ymgysylltiad anffurfiol yn cael ei drefnu trwy sesiynau galw heibio i annog deialog ac adborth gan Aelodau ar faterion o bwys amserol.

Darperir arolygon sy'n cynnwys yr holl Aelodau er ystyriaeth y Comisiwn, gan gynnwys yr Arolwg Aelodau (a gynhelir deirgwaith y tymor yn y Senedd), yr Arolwg Urddas a Pharch (blynyddol) a'r arolwg Amrywiaeth a Chynhwysiant (blynyddol).

Mae templed papurau'r Comisiwn, a gafodd ei adnewyddu'n ddiweddar, yn cynnwys adran benodol ar gyfer gwybodaeth am ymarferion ymgynghori a gynhaliwyd ag Aelodau, ac yn gofyn am wybodaeth ynghylch goblygiadau i Aelodau, a ddylai gael eu llunio gan farn yr Aelodau.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi dwyn mentrau yn eu blaenau er mwyn sicrhau bod barn ac anghenion yr Aelodau yn flaenoriaeth wrth ystyried newid; a'r bwriad yw cefnogi'r ddarpariaeth o wybodaeth briodol i'r Comisiwn am farn yr Aelodau fel rhan o'r wybodaeth ategol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae'r fenter hon – sef 'Cofiwch Aelodau' – yn ceisio ymgorffori ethos 'Aelodau yn gyntaf' yng ngwaith y Comisiwn.

Mae'r Llywydd yn rhoi adborth uniongyrchol i'r Comisiwn am gyfarfodydd dwyochrog a chyfarfodydd eraill y mae wedi'u cynnal gydag Aelodau ar bynciau sy'n ymwneud ag ystyriaethau'r Comisiwn.

## Cynllunio Strategol

Mae strwythur cynllunio strategol cyffredinol y Comisiwn wedi'i nodi'n fanwl yn y Datganiad Llywodraethu. Mae'r adran isod yn esbonio'r  Bwrdd Newid Senedd 26, sydd newydd ei sefydlu ac sy'n rhan o'r strwythur cynllunio cyffredinol hwnnw.

### Bwrdd Newid Senedd 26

Mae Bwrdd Newid Senedd 26 (y 'Bwrdd Newid') yn endid sydd newydd ei sefydlu o fewn Comisiwn y Senedd, ac a gynlluniwyd i oruchwylio ac arwain y newidiadau sylweddol sy'n ofynnol ar gyfer pontio i'r Seithfed Senedd. Mae'r Bwrdd hwn yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod Comisiwn y Senedd yn diwallu anghenion esblygol Senedd Cymru.

Mae'r Bwrdd Newid yn gyfrifol am ddarparu cyfeiriad strategol, awdurdod i wneud penderfyniadau a goruchwyliaeth i gefnogi cyflawniad amrywiol ffrydiau gwaith. Rheolir y ffrydiau gwaith hyn gan ddau fwrdd gweithredol:

- **Bwrdd y rhaglen Ffyrdd o Weithio –** sy'n canolbwyntio ar gyflawni gwaith mawr o ran yr ystadau, gydag elfennau allweddol ohono wedi'u cynllunio i gefnogi Senedd fwy o faint; a
- **Bwrdd rhaglen y Seithfed Senedd** – sydd â'r dasg o gefnogi'r newid sefydliadol ehangach i'r Seithfed Senedd.

Un o brif swyddogaethau'r Bwrdd Newid fu cytuno ar strategaeth newid a chynllun cyflawni Senedd 26. Mae'r Strategaeth hon wedi'i gosod o amgylch saith maes canlyniad, gyda chynllun cyflawni manwl yn gwasanaethu fel adnodd monitro a sicrwydd. At hynny, mae'r Bwrdd Newid yn gosod fframwaith ar gyfer arferion adrodd ac uwchgyfeirio rheolaidd, agored a thryloyw gan y byrddau gweithredol, yn monitro cynnydd a risg yn erbyn y Cynllun Cyflawni, ac yn dwyn y rhaglenni cyfansoddol i gyfrif o ran eu cyflawniad.

Mae sefydlu'r Bwrdd Newid yn rhan o ymateb strategol y Comisiwn yn fwy eang i wella ei ddiwylliant cydweithredol, a hybu amgylchedd cadarnhaol ac egnïol. Cafodd gwelliannau eu gwneud i sicrhau bod mewnbwn y Tîm Arwain yn cael ei nodi mewn materion strategol allweddol, a bod y tîm yn chwarae rhan lawn yn yr ystod o weithgareddau sy'n cael eu cyflawni gan fyrddau Ffyrdd o Weithio a'r Seithfed Senedd.

Y Prif Weithredwr sy'n cadeirio'r Bwrdd Newid ac mae'n cynnwys aelodaeth greiddiol o'r Bwrdd Gweithredol, wedi'i hategu gan uwch swyddogion perthnasol

eraill. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Bwrdd Newid yr awdurdod a'r arbenigedd angenrheidiol i arwain Comisiwn drwy'r cyfnod pontio. Mae aelodau'r Bwrdd Newid yn gyfrifol am adolygu a phennu cylchoedd gwaith y ddau fwrdd gweithredol, er mwyn sicrhau rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer cam nesaf y broses gyflawni.

Mae sefydlu Bwrdd Newid Senedd 26 yn nodi cam arwyddocaol yn ymdrechion y Comisiwn i arloesi, ailddychmygu a diogelu ei wasanaethau ar gyfer y dyfodol. Drwy gyfuno ei gryfderau fel un tîm, nod y Comisiwn yw cefnogi Seithfed Senedd gryfach, hygyrch, cynhwysol a blaengar, sy'n cyflawni dros bobl Cymru.

# Crynodeb o'r gweithgareddau

| **Nod strategol y Comisiwn**<br>**(a risgiau corfforaethol a nodwyd)** | **Blaenoriaethau'r Comisiwn**<br>**(a dangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig)** | **Cynnydd yn 2024-25** |
|---|---|---|
| **Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf**<br>**A B C D E** | Rhoi cymorth i'r Aelodau ar draws yr ystod o fusnes, ac addasu i anghenion yr Aelodau<br>❶ ❷ ❸ ❹ | Gellir dod o hyd i wybodaeth am ein cynnydd yn y meysydd hyn ar dudalennau 55 i 73 |
| | Ymateb i newid cyfansoddiadol a hwyluso'r newid hwnnw, gan gynnwys cryfhau rhwydweithiau rhyngsefydliadol a dysgu | |
| | Cynnal enw da a datblygu gwasanaethau cynaliadwy | |
| **Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn** | Gwrando ar ddinasyddion a dangos sut rydym yn gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym; mai ni yw eu llais<br>❼ | Gellir dod o hyd i wybodaeth am ein cynnydd yn y meysydd hyn ar dudalennau 75 i 91 |
| | Annog ac ysbrydoli dinasyddion i gymryd rhan yn ein trafodaethau ar-lein ac yn bersonol<br>❺ ❻ | |
| | Sefydlu'r Senedd fel canolbwynt bywyd cyhoeddus Cymru, sy'n arwain y ffordd fel sefydliad dwyieithog | |

| **Nod strategol y Comisiwn (a risgiau corfforaethol a nodwyd)** | **Blaenoriaethau'r Comisiwn (a dangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig)** | **Cynnydd yn 2024-25** |
|---|---|---|
| **Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy** B E F G H I J | Sicrhau bod cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn<br>⑭ | Gellir dod o hyd i wybodaeth am ein cynnydd yn y meysydd hyn ar dudalennau 93 i 117 |
| | Adeiladu a datblygu gweithlu medrus, ymroddedig ac amrywiol, gyda'r dechnoleg a'r cyfleusterau i gyflawni eu rolau<br>⑩ ⑪ ⑫ | |
| | Cynllunio a rheoli ariannol a phrosiectau effeithiol, fel y gallwn ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i ddiwallu anghenion y Senedd<br>⑧ | |
| | Rhoi sicrwydd trwy lywodraethu priodol a dangos gwerth am arian<br>⑨ ⑮ | |
| | Darparu amgylchedd diogel ac iach i weithio ac ymgysylltu<br>⑬ | |

**Ein dangosyddion perfformiad allweddol** – Mae rhagor o wybodaeth am ein dangosyddion perfformiad allweddol i'w gweld yn yr adran nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| ❶ Cynnal busnes seneddol fel y trefnwyd<br>❷ Cyhoeddi'r Cofnod mewn pryd<br>❸ Cyhoeddi trawsgrifiadau pwyllgorau mewn pryd<br>❹ Darparu papurau dwyieithog<br>❺ Ymgysylltu â dinasyddion | ❻ Dilynwyr sianeli cyfryngau corfforaethol y Senedd<br>❼ Ymgysylltu â llwyfannau dosbarthu cyfryngau<br>❽ Cyllideb weithredol<br>❾ Cyfrifon anghymwys<br>❿ Arolwg staff | ⓫ Dysgwyr Cymraeg<br>⓬ Ceisiadau am swyddi gan unigolion o leiafrifoedd ethnig<br>⓭ Cyfradd salwch staff<br>⓮ Ôl-troed carbon blynyddol<br>⓯ Gwariant gyda chyflenwyr o Gymru |

**Ein risgiau corfforaethol** – Mae rhagor o fanylion am sut mae'r proffil risg wedi newid yn ystod y flwyddyn wedi'u cynnwys yn yr adran Dadansoddi Perfformiad. Mae rhagor o wybodaeth am y broses, ac am liniaru'r risgiau hyn a'r cynnydd a wnaed yn y meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2024-25, ar gael yn y Datganiad Llywodraethiant yn ddiweddarach yn yr Adroddiad.

| | | |
|---|---|---|
| A Diwygio'r Senedd<br>B Prosiectau Ystadau wedi'u llywio gan Ddiwygio'r Senedd<br>C Prosiect Bae Caerdydd 2032<br>D Ymateb y Comisiwn i adolygiad y Bwrdd Taliadau o gyflogau a graddio<br>E Capasiti a gallu corfforaethol | F Ymosodiad seiber<br>G Deallusrwydd Artiffisial (AI)<br>H System Adnoddau Dynol/Cyflogres<br>I Diogelu Data (Comisiwn y Senedd)<br>J Urddas a Pharch (Comisiwn y Senedd) | |



**Dydd Gŵyl Dewi 2025**
Cafwyd diwrnod llawn hwyl i'r teulu, perfformiadau, a gweithgareddau yn y Senedd



# Dadansoddi Perfformiad

Mae’r adran Dadansoddi Perfformiad hon yn darparu manylion am y modd rydym wedi datblygu gwaith ar flaenoriaethau’r Comisiwn o dan ein nodau strategol.



# Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol

## Mae ein Hadroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol yn ystyried perfformiad Comisiwn y Senedd yn erbyn ei nodau strategol yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025.

Mae rhai o'n dangosyddion yn statig ac yn adrodd flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac mae rhai dangosyddion yn darparu 'ymestyniad' i wella perfformiad mewn nifer o feysydd a nodwyd. Caiff y dangosyddion hyn eu hadolygu'n flynyddol.

Yn ystod y pandemig COVID-19, gwnaeth Comisiwn y Senedd addasu i'r sefyllfa a oedd yn newid a bu i rai o'n ffyrdd o weithio addasu o ganlyniad i hynny. Mae cyfnod Covid yn dal i gael ei gynrychioli yn y data tueddiadau ac felly dylid cofio hyn wrth wneud cymariaethau uniongyrchol o flwyddyn i flwyddyn.

Er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r newidiadau hyn i'n harferion gwaith yn ddigonol, ac i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, cynhaliwyd adolygiad o'n dangosyddion perfformiad allweddol ar ddechrau'r Chweched Senedd. Hon yw'r drydedd flwyddyn o adrodd ar y dangosyddion perfformiad allweddol ers yr adolygiad, ac felly nid yw data'r flwyddyn flaenorol ar gael ar gyfer pob dangosydd.


Dyma'r nodau strategol Comisiwn y Senedd y mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn canolbwyntio arnynt:

- Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf
- Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn
- Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy


# Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

## Cynnydd yn ystod y flwyddyn:


❶ Parhaodd y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau i gyfarfod ar ffurf hybrid.




❷ Cyrhaeddwyd yr holl dargedau mewn perthynas â Chofnod y Trafodion 100 y cant drwy gydol y flwyddyn.




❸ Dangosydd Perfformiad Allweddol yn ei drydedd flwyddyn adrodd yw cyhoeddi trawsgrifiadau pwyllgor ar-lein (gyda chyfraniadau Cymraeg yn cael eu cyfieithu i'r Saesneg) o fewn tri diwrnod gwaith Cyrhaeddwyd cyfanswm o 271 o ddyddiadau cau ar gyfer trawsgrifiadau pwyllgor yn unol â'r targed. Methwyd dau ddyddiad cau ar gyfer trawsgrifiadau pwyllgor oherwydd llwythi gwaith hynod o drwm, amser-sensitif.




## Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf


❹ O fewn pwyllgorau unigol, gall y Cadeirydd a'r Aelodau benderfynu peidio â chynhyrchu pob papur a gaiff ei baratoi'n fewnol yn ddwyieithog. O'r 1,189 o bapurau pwyllgor a baratowyd yn fewnol, cynhyrchwyd 1,154 yn ddwyieithog.




# Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

❺ Rydym wedi parhau i gryfhau ein dulliau casglu data ac wedi ychwanegu mwy o setiau data o wahanol dimau at ein model adrodd. Y set ddata fwyaf rydym wedi'i chynnwys eleni yw'r un o'n teithiau, sy'n ymgysylltu ag amrywiaeth ehangach o ymwelwyr (roedd 49% o'r ymwelwyr y gwnaethom ymgysylltu â nhw ar ein teithiau wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, sydd yn debygol o fod yn rheswm dros y gostyngiad yn y tebygolrwydd o gymryd rhan yng ngwaith y Senedd yn y dyfodol, ond mae ymwybyddiaeth o rôl y Senedd a dealltwriaeth o waith y Senedd yn parhau'n gyson uchel. Erbyn diwedd y Chweched Senedd, yn unol â'n Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, byddwn wedi cwblhau ein prosesau cyson o gasglu data a'n hadroddiadau cyson ar draws pob tîm o fewn y Gwasanaethau Ymgysylltu, er mwyn pennu llinell sylfaen fwy pendant ar ein cyfer, wrth inni symud i'r Seithfed Senedd.



# Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn





❻ At ei gilydd, fe arafodd y twf o ran ein cyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn bennaf oherwydd newidiadau ar blatfform X, lle collon ni 1,921 o ddilynwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae ein strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu yn canolbwyntio ar gynulleidfaoedd newydd, ac felly roedd hi ar bob adeg yn fwriad gennym i dyfu cynulleidfaoedd y tu allan i X. Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi profi'r twf mwyaf mewn cynulleidfaoedd ar Instagram, a dyfodd 29.3%. Mewn cymhariaeth mae X wedi gostwng 2.3%. Gydag algorithmau rhwydwaith yn canolbwyntio mwy ar ymgysylltu â chynulleidfa, na nifer y dilynwyr, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar ymgysylltu. Ein cyfradd ymgysylltu gyffredinol eleni yw 3%, a LinkedIn (5.4%) a Facebook (4.9%) yw'r sianeli mwyaf ymgysylltiedig. Eleni, fe ddechreuon ni dreialu cynnwys ar Bluesky mewn ymateb i newidiadau X, ac rydym wedi tyfu ein cynulleidfa ar Threads – byddwn yn parhau i dreialu cynnwys ar y sianeli hyn yn y flwyddyn nesaf.

# Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn

### Cynnydd yn ystod y flwyddyn:

7 Fel ar bob adeg, gwaith y Pwyllgorau, i raddau helaeth, sy'n pennu hyd a lled ein hamlygrwydd. Y rheswm dros y cynnydd sydyn mewn amlygrwydd ym mis Gorffennaf yw'r nifer o adroddiadau diwedd tymor, tra bod amlygrwydd isel ym mis Awst a mis Medi oherwydd ei bod hi'n gyfnod tawel ar gyfer adrodd i bwyllgorau. Ar ddiwedd y flwyddyn, cafwyd cyfres o adroddiadau cryf a olygai bod gan y tîm newyddion gynnwys cryf i'w gynnig, gan arwain at sylw rhagorol yng Nghymru a thu hwnt. Cafodd adroddiad y Pwyllgor Safonau ar adalw ei gyhoeddi gan PA, tra bod yr adroddiad ynghylch dichell wedi cael sylw gan y cyfryngau ledled y byd, yn enwedig ar lwyfannau newyddion ar y cyfryngau cymdeithasol.



## Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

8 Sicrhau bod lefel yr amrywiad rhwng gwariant gweithredol net y Comisiwn a'i gyllideb gweithredol blynyddol o fewn 1.5 y cant.


Mae'r alldro gweithredol (ac eithrio cyllidebau nad ydynt yn arian parod a chyllidebau a neilltuwyd) ar gyfer 2024-25 yn 0.96 y cant yn is na'r gyllideb.

*Nid oes tabl yn gysylltiedig â'r Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn*

9 Mae ein cyfrifon yn ddiamod ac wedi'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.


*Nid oes tabl yn gysylltiedig â'r Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn*

10 Cyflwynwyd ein Harolwg Pobl gan arbenigwr arolwg annibynnol am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, gan ddefnyddio'r dull Chwe Cham at Ymgysylltu yn y Gweithle unwaith eto: llesiant, gwobrwyo a chydnabyddiaeth, rhannu gwybodaeth, galluogi, ennyn balchder a boddhad gwaith. Mae Sgôr Ymgysylltu yn y Gweithle eleni yn 74%; 4% yn uwch na chyfartaledd y diwydiant ac yn gyfuwch â'r cyfartaledd byd-eang.



## Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

⑪ Mae trosiant staff cymorth yr Aelodau a staff y Comisiwn yn cyfrif am amrywiadau mewn niferoedd. Mae Gloywi yn llawer mwy tebygol o fod yn 'ad hoc' gan fod ei angen yn aml at ddiben penodol. Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys gwella sgiliau llafar gan fod llawer o staff yn ddihyder yn y Gymraeg.



## Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy


### Cynnydd yn ystod y flwyddyn:

⓬ Ein targed yw cynyddu – o un flwyddyn i'r llall – nifer y ceisiadau am swyddi a hysbysebir yn allanol gan ymgeiswyr o gefndir ethnig lleiafrifol. Ar 31 Mawrth 2025, mae nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndir ethnig lleiafrifol wedi parhau i gynyddu, ac mae'n 222 (20.2 y cant) ar hyn o bryd, o'i gymharu â'r cyfnod adrodd diwethaf lle cawsom 116 (16.2 y cant) o geisiadau. Mae'r data ar gyfer y flwyddyn adrodd hon yn dangos bwlch yn y trosiad rhwng cyfweliad a chynnig swydd ar gyfer ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig. Byddwn yn parhau i fonitro'r cyfraddau trosi ar draws ein prosesau recriwtio ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig, ac yn defnyddio mewnwelediadau data ac adborth ymgeiswyr i nodi unrhyw rwystrau posibl a/neu wirioneddol i addasu ein prosesau yn unol â hynny.



# Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy


⓭ Mae cyfradd gyfartalog absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn wedi aros o dan y meincnod o 7.9 diwrnod. Ac eithrio mis Ebrill, roedd cyfradd absenoldeb oherwydd salwch ym mhob mis islaw'r meincnod. At hynny, bu gostyngiad sylweddol mewn absenoldeb oherwydd salwch o fis Tachwedd 2024 ymlaen. Diwygiodd y Comisiwn y mesur yn y dangosydd perfformiad allweddol hwn o 2023-24 i ddiwrnodau yn lle % er mwyn rhoi dadansoddiad mwy cywir a'r gallu i gymharu ag adrannau llywodraethol eraill sydd i gyd yn gweithio gyda diwrnodau.



## Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy


### Cynnydd yn ystod y flwyddyn:

⓮ Mae'r defnydd o drydan wedi gostwng ychydig eleni, ond mae cynnydd mewn defnydd nwy a hawliadau teithio, yn enwedig hediadau, yn golygu ein bod uwchlaw ein targed carbon.  Mae'r cylch hwn o ran hawliadau teithio fel arfer yn adlewyrchu cylch tymor y Senedd ac mae'n rhywbeth yr ydym yn anelu at ei leihau dros y flwyddyn nesaf.




## Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

⓯ Yn chwarter 4 bu gostyngiad yn y ganran o wariant Cymru. Rydym wedi craffu ar y gwariant, ac achos y gostyngiad yw nifer o gontractau untro sy'n cefnogi Diwygio'r Senedd, Bae 32, ac adnewyddiadau trwyddedau blynyddol. Mae gweithgareddau a phennu rhagolygon yn digwydd i ymdrechu i adfer y sefyllfa.





# Proffil risg

Mae'r risgiau mwyaf arwyddocaol y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu yn cael eu nodi mewn Cofrestr o Risgiau Corfforaethol (y Gofrestr), sy'n cael ei hadolygu a'i monitro'n rheolaidd gan Fwrdd Gweithredol y Comisiwn, ac mae'n eitem agenda sefydlog yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae manylion y prosesau ar gyfer nodi, monitro ac adrodd ar risgiau ar bob lefel[3] a'r graddau y maent yn destun gwaith craffu ac archwilio wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu.

## Risgiau presennol

Mae Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Comisiwn yn cynnwys y risgiau a ganlyn:

### Seiberddiogelwch

Fel gyda phob sefydliad, mae seiberddiogelwch yn parhau i fod yn un o risgiau mwyaf arwyddocaol y Comisiwn ac mae'n destun gwaith monitro cyson, gyda diweddariadau rheolaidd ac adroddiadau sicrwydd manwl yn cael eu darparu i'r Bwrdd Gweithredol a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn. Yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm seiberddiogelwch wedi arwain ar weithgarwch lliniaru parhaus i sicrhau bod rheolaethau effeithiol ar waith ac i sicrhau gwydnwch parhaus. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol canolig o ddod i'r fei oherwydd natur y dirwedd fygythiadau sy'n newid yn barhaus.

### Cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data (Comisiwn y Senedd)

Mae'r Comisiwn wedi parhau i ganolbwyntio ar liniaru risgiau sy'n ymwneud â chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Mae'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth wedi parhau i gyflawni elfennau pwysig o'i raglen waith, ochr yn ochr â datblygu polisïau, trefniadau llywodraethiant a rheoli risg ar gyfer defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (gweler rhagor o fanylion o dan yr adran Deallusrwydd Artiffisial yn yr adran hon o'r adroddiad). At hynny, mae'r tîm hefyd wedi arwain Fforwm Hyrwyddwyr Llywodraethu Gwybodaeth, ac wedi parhau i ddarparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gydymffurfiaeth â diogelu data i swyddogion ac Aelodau – sy'n rheolwyr data yn eu rhinwedd eu hunain – a'u staff. Gyda'r

[3] Risgiau corfforaethol – nodi digwyddiadau allweddol a allai atal neu rwystro'r broses o gyflawni nodau a blaenoriaethau Comisiwn y Senedd, neu unrhyw amcanion allweddol sydd ag effaith drawsbynciol ar draws y sefydliad. Risgiau lefel gwasanaeth – nodi digwyddiadau allweddol a allai atal neu rwystro'r broses o gyflawni amcanion lefel gwasanaeth.

rheolaethau a'r lliniariadau ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol canolig o ddod i'r fei.

**Diwygio'r Senedd**

Mae'r risg hon wedi aros ar y Gofrestr er mwyn hwyluso'r gwaith o fonitro'n agos y rheolaethau a'r mesurau lliniaru gan y Bwrdd Gweithredol wrth i raglen o roi Senedd ddiwygiedig ar waith ddatblygu. Yn ystod y flwyddyn, ailgyfluniwyd y risg wrth i'r ffocws symud o basio deddfwriaeth ar Ddiwygio'r Senedd, ac i baratoadau ar gyfer y newid i Senedd fwy o faint yn 2026. Mae rhagor o fanylion am y paratoadau ar gyfer y Seithfed Senedd i'w gweld yn yr adran *Dadansoddiad Perfformiad* o'r adroddiad hwn. Mae manylion am y trefniadau llywodraethiant ar gyfer y Seithfed Senedd, sydd hefyd â'i chofrestr risg fanwl ei hun, i'w gweld yn y Datganiad Llywodraethu. Gyda'r rheolaethau a'r lliniariadau ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol canolig o ddod i'r fei.

**Capasiti a Gallu Corfforaethol**

Mae'r risg hon wedi aros ar y Gofrestr i hwyluso'r broses o fonitro cynnydd yn erbyn camau lliniaru sy'n ymwneud â chapasiti a gallu'r Comisiwn i gyflawni yn erbyn gofynion cynyddol a newidiol, yn enwedig mewn perthynas â chyflawni newid trawsnewidiol mawr. Mae hyn wedi cynnwys parhau i ymgorffori mecanweithiau cynllunio cadarn, gan gynnwys y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig a Chynllun Gweithlu i helpu i sicrhau bod y bobl gywir gyda'r sgiliau cywir ar gael i gefnogi gweithlu gwydn ac addasadwy ar gyfer Senedd fwy o faint. Mae rhagor o fanylion am hyn i'w cael yn yr adran *Cynllunio a rheoli perfformiad* o'r Datganiad Llywodraethu. Gyda'r rheolaethau a'r lliniariadau ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol canolig o ddod i'r fei.

**Urddas a Pharch**

Mae'r risg hon wedi aros ar y Gofrestr wrth inni barhau i weithredu argymhellion o adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau Urddas a Pharch y Comisiwn. At hynny, byddwn yn ystyried unrhyw ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg sy'n berthnasol i'r Comisiwn o ymchwiliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i urddas a pharch yn y Senedd. Mae rhagor o fanylion am y camau a gymerwyd ynghylch Urddas a Pharch yn yr adran *Dadansoddiad Perfformiad* o'r adroddiad hwn. Gyda'r rheolaethau a'r lliniariadau ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol cymedrol o ddod i'r fei.

### System Adnoddau Dynol/Cyflogres

Parhaodd y risg hon ar y Gofrestr i sicrhau gwelededd cynnydd yn erbyn camau lliniaru ynghylch profi a gweithredu system Adnoddau Dynol/Cyflogres newydd fel rhan o'r prosiect Pobl a Thaliadau. Rhoddwyd prif elfennau'r system ar waith ym mis Ionawr 2025, a bydd y risg yn aros ar y Gofrestr nes bod holl elfennau Cam 1 y prosiect wedi'u rhoi ar waith yn llawn. Ar ôl hynny bydd risgiau gweddilliol yn parhau i gael eu rheoli ar lefelau'r prosiect a'r gwasanaeth. Mae rhagor o fanylion am gyflawni'r prosiect Pobl a Thaliadau i'w gweld yn yr adran *Dadansoddiad Perfformiad* o'r adroddiad hwn. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol canolig o ddigwydd.

### Prosiect Bae Caerdydd 2032

Mae'r risg hon wedi aros ar y Gofrestr i hwyluso camau monitro manwl o'r rheolaethau a'r lliniaru gan y Bwrdd Gweithredol wrth i brosiect cymhleth Bae 32 ddatblygu. Nod y prosiect yw sicrhau bod anghenion llety'r Comisiwn a'r Senedd yn y dyfodol yn cael eu diwallu. Mae Bwrdd Prosiect – y mae Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd yn Uwch-swyddog â Chyfrifoldeb drosto – yn adolygu'r gofrestr risg prosiect fanwl yn rheolaidd. Mae rhagor o fanylion am y prosiect, a Rhaglen Ffyrdd o Weithio ehangach y Comisiwn, i'w cael o dan Ffyrdd o Weithio yn yr adran *Dadansoddiad Perfformiad* o'r adroddiad hwn. Gyda'r rheolaethau a'r lliniariadau ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol isel o ddod i'r fei.

### Prosiectau Ystadau wedi'u llywio gan Ddiwygio'r Senedd

Mae'r risg hon wedi aros ar y Gofrestr i hwyluso camau monitro agos o'r rheolaethau a'r prosesau lliniaru gan y Bwrdd Gweithredol, wrth i'r prosiectau ystadau er mwyn paratoi ar gyfer Senedd fwy o faint, fynd rhagddynt. Mae risg y bydd y prosiectau hyn yn methu â diwallu'r anghenion hynny a/neu ddyletswyddau statudol perthnasol eraill y Comisiwn. Mae lliniaru'r risg hon wedi golygu cydweithio'n agos ag Aelodau, Llywodraeth Cymru a staff y Comisiwn. Mae yna raglen Ffyrdd o Weithio gyffredinol – y mae Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd yn Uwch-swyddog â'r Cyfrifoldeb ar ei chyfer – ac mae byrddau prosiect ar waith ar gyfer pob un o'i phrosiectau cydrannol. Mae gan bob un o'r rhain ei gofrestr risgiau prosiect fanwl ei hun ac mae risgiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y byrddau prosiect. Mae rhagor o fanylion am y prosiectau hyn i'w gweld o dan Ffyrdd o Weithio yn yr adran *Dadansoddiad Perfformiad* o'r adroddiad hwn. Gyda'r rheolaethau a'r lliniariadau ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol isel o ddod i'r fei.

## Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Ychwanegwyd y risg hon at y Gofrestr yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu pwysigrwydd llywodraethu cadarn ac effeithiol o amgylch defnydd y Comisiwn o AI.  Mae dau grŵp wedi'u sefydlu – sef y Grŵp Llywodraethu AI a'r Grŵp Cyfleoedd AI – y naill a’r llall dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwyr sy'n cydweithio i sicrhau bod y defnydd o AI yn cael ei lywio gan drefniadau llywodraethu cadarn.  Mae hyn wedi cynnwys datblygu polisi AI, a chofrestr risg ar wahân i sicrhau bod perchnogaeth glir dros reolaethau a lliniaru, a chyda chyflwyno adroddiadau rheolaidd ar reoli risg.  Mae rhagor o fanylion am hyn i'w cael yn yr adran *Dadansoddiad Perfformiad* o’r adroddiad hwn.  Gyda’r rheolaethau a'r lliniariadau ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol canolig o ddod i’r fei.

## Ymateb y Comisiwn i adolygiad y Bwrdd Taliadau o gyflogau a graddio

Ychwanegwyd y risg hon at y Gofrestr yn ystod y flwyddyn i hwyluso monitro rheolaethau a chamau lliniaru gan y Bwrdd Gweithredol, wrth i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol gynnig rhoi darpariaeth cyflogau a graddio ddiwygiedig ar waith ar gyfer staff cymorth yr Aelodau yn y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu'r galw am wasanaethau presennol o ystyried y cymhlethdodau sy'n ymwneud â rhoi’r darpariaethau newydd hyn ar waith. Gyda'r rheolaethau a'r lliniariadau ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol isel o ddod i’r fei.

## Risgiau a dynnwyd

Tynnwyd y risgiau a ganlyn oddi ar y Gofrestr yn ystod y flwyddyn:

### Newid Cyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â'r DU

Roedd y risg hon yn ymwneud â goblygiadau'r i'r Senedd o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 .  Ystyriwyd adolygiad gan y Pwyllgor Busnes fel rhan o'i raglen waith weithdrefnol.  Daeth rheoli risgiau gweddilliol – a bach oedd y rheini – yn fusnes fel arfer, a chaewyd y risg.

### Fframwaith Rheoleiddio

Ychwanegwyd y risg hon at y Gofrestr ar ddechrau'r Chweched Senedd wrth i waith fynd rhagddo tuag at symleiddio a chyfleu rheolau a gweithdrefnau yn ein Fframwaith Rheoleiddio fel y maent yn berthnasol i Aelodau.  Cymerwyd camau i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyfleu'n effeithiol i'r Aelodau, a lleihaodd y risg o unrhyw gamddealltwriaeth neu gamddehongliad o'r rheolau ynghylch y Penderfyniad ar Gyflog a Lwfansau Aelodau, rheolau'r Swyddog Cyfrifyddu ar ddefnyddio adnoddau'r Senedd, a'r Cod Ymddygiad newydd ar gyfer Aelodau. Mae'r risg yn parhau i gael ei monitro ar lefel gwasanaeth.

### Meddalwedd ar gyfer deddfwriaeth

Roedd y risg hon yn ymwneud ag adnewyddu'r contract ar gyfer meddalwedd sy'n darparu system ddiogel ar gyfer drafftio a diwygio deddfwriaeth a gyflwynir i'r Senedd.  Arweiniodd cynnydd yn y risg at ddatrysiad dros dro. Cafodd y risg ei chau wedi hynny, ac mae risgiau gweddilliol yn cael eu rheoli ar lefel gwasanaeth.

# Adolygiad Ariannol

## O dan delerau *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod y Senedd yn cael y staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sy'n ofynnol i gyflawni rôl y Senedd fel deddfwrfa ddemocrataidd gref, hygyrch a blaengar sy'n darparu'n effeithiol i bobl Cymru.

Nod cyllideb y Comisiwn yw bod yn dryloyw, yn ddarbodus ac wedi'i gosod yng nghyd-destun y sefyllfa gyllido ariannol hirdymor yng Nghymru.  Mae'r Comisiwn wedi parhau i fireinio'r ffordd y mae'n cyflwyno ei gyllideb yn seiliedig ar y gwaith craffu a'r adborth a gafodd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid.  Mae'r Comisiwn yn dilyn y canllawiau a ddarperir yn 'Natganiad Egwyddorion' y Pwyllgor Cyllid.

Mae'r Comisiwn yn cyflwyno ei gyllideb mewn fformat tryloyw i ddangos y gwahanol fathau o wariant.  Defnyddir cyllideb y Comisiwn i dalu costau rhedeg y Senedd yn ogystal â chostau cyflogau a lwfansau Aelodau o'r Senedd, fel y'u pennir gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol.

Yn ystod 2024-25, roedd hefyd yn cynnwys cyllidebau wedi'u neilltuo ar gyfer dwy raglen waith arwyddocaol;

- Diwygio'r Senedd – cefnogi'r broses o symud i Senedd fwy o faint.
- Ffyrdd o Weithio – yn ymwneud yn bennaf ag anghenion llety'r Comisiwn yn y dyfodol, pan ddaw'r brydles bresennol ar Dŷ Hywel i ben yn 2032.

Bob pum mlynedd, caiff pennawd gwariant ychwanegol ei gynnwys at ddibenion Etholiadau'r Senedd ym mlwyddyn etholiad, a chyllideb ar gyfer gwaith paratoi ar gyfer etholiadau yn y flwyddyn flaenorol:

| Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2020-21 £m | 2021-22 £m | 2022-23 £m | 2023-24 £m | 2024-25 £m |
| **Cyllideb weithredol (Nodyn 1)** | 42 | 41 | 45 | 47 | 52 |
| **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol** | 16 | 16 | 17 | 18 | 19 |
| **Gwariant a reolir yn flynyddol (Nodyn 2)** | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 |
| **Gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiad** | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| | **61** | **61** | **64** | **67** | **71** |

Nodyn 1 – Gellir dadansoddi'r gyllideb weithredol yn ôl ei helfennau allweddol (fel y darperir).

Nodyn 2 – Mae'r term 'Gwariant a reolir yn flynyddol' yn ymwneud â'r ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd o dan reolau Trysorlys EF ac mae'n bennawd gwariant nad yw'n arian parod.

| Dadansoddiad o'r Gyllideb Weithredol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y gyllideb weithredol fesul maes | 2019-20 £m | 2020-21 £m | 2021-22 £m | 2022-23 £m | 2024-25 £m |
| **Costau cysylltiedig â staff** | 26 | 26 | 27 | 28 | 31 |
| **Costau heb fod yn gysylltiedig â staff** | 13 | 13 | 10 | 12 | 13 |
| **Cronfa prosiectau** | 1 | 0 | 2 | 1 | 2 |
| **Dibrisiant (nad yw'n arian parod) (Nodyn 3)** | 2 | 2 | 6 | 6 | 5 |
| | **42** | **41** | **45** | **47** | **51** |

Nodyn 3 – Mae 'dibrisiant' yn cynnwys effaith IFRS16 a'r gofyniad i gydnabod prydlesi fel 'Asedau Hawl i Ddefnyddio' a dibrisiant tâl. At hynny, mae'n cynnwys y taliadau llog sy'n gysylltiedig ag Asedau Hawl i Ddefnyddio.

| Cyfanswm gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2020-21 £m** | **2021-22 £m** | **2022-23 £m** | **2023-24 £m** | **2024-25 £m** |
| **Gwariant gweithredol** | 42 | 41 | 44 | 46 | 51 |
| **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol** | 16 | 15 | 17 | 17 | 18 |
| **Gwariant a reolir yn flynyddol** | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| **Gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiad** | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| | **60** | **60** | **62** | **63** | **69** |
| **Cyfanswm y gwariant yn erbyn cyfanswm y gyllideb – o dan / (drosodd)** | **1** | **1** | **2** | **3** | **1** |

| Dadansoddiad o'r Gwariant Gweithredol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredol fesul maes:** | **2020-21 £m** | **2021-22 £m** | **2022-23 £m** | **2023-24 £m** | **2024-25 £m** |
| **Costau cysylltiedig â staff** | 25 | 25 | 27 | 29 | 30 |
| **Costau heb fod yn gysylltiedig â staff** | 14 | 14 | 10 | 11 | 13 |
| **Cronfa prosiectau** | 1 | 0 | 2 | 1 | 2 |
| **Dibrisiant (nad yw'n arian parod)** | 2 | 2 | 5 | 5 | 5 |
| | **42** | **41** | **44** | **46** | **50** |
| **Gwariant gweithredol yn erbyn y gyllideb weithredol – o dan/(drosodd)** | **-** | **1** | **0** | **1** | **1** |

Nod y Comisiwn yw sicrhau alldro gweithredol diwedd blwyddyn o fewn yr ystod 0 y cant i 1.5 y cant o'r gyllideb weithredol.

| Alldro 2024-25 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb £m** | **Alldro £m** | **Amrywiad £m** | **Amrywiad %** |
| **Costau cysylltiedig â staff** | 31.1 | 30.2 | 0.8 | 2.76% |
| **Costau heb fod yn gysylltiedig â staff** | 12.8 | 13.0 | 0.2 | 1.5% |
| **Cronfa prosiectau** | 1.5 | 1.5 | 0.0 | (0.00%) |
| **Costau etholiad** | 0 | 0 | 0 | - |
| **Dibrisiant (nad yw'n arian parod)** | 5.3 | 5.4 | (0.1) | (2.26%) |
| **Cyfanswm y gweithgaredd gweithredol** | **50.7** | **50.1** | **0.6** | **1.16%** |
| **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol a Cymorth i Aelodau (Nodyn 4)** | 19.4 | 19.1 | 0.4 | 2.13% |
| **Gwariant a reolir yn flynyddol** | 0.4 | 0.2 | 0.2 | 42.25% |
| | **70.5** | **69.4** | **1.2** | **1.66%** |

Nodyn 4 - Mae Cymorth i Aelodau'n cynnwys costau'r cymorth darparwyd ar gyfer y Bwrdd Taliadau Annibynnol a chostau Swyddfa'r Comisiynydd Safonau.

Mae'r alldro gweithredol (ac eithrio eitemau nad ydynt yn arian parod a chyllidebau prosiect wedi'u neilltuo) ar gyfer 2024-25 yn 0.96 cant yn is na'r gyllideb. Mae'r Comisiwn yn rhagweithiol yn rheoli'r gyllideb a sicrhau'r gwerth gorau am arian o'r adnoddau sydd ar gael. Mae rheolaeth ofalus yn ystod y flwyddyn a rhagolygon cywir wedi hwyluso safle alldro ar ddiwedd y flwyddyn sydd o fewn ystod y targed.

O fewn y sefyllfa alldro uchod, roedd y sefyllfaoedd cyllideb wedi'u neilltuo fel a ganlyn:

| Alldro 2024-25 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb £m** | **Alldro £m** | **Amrywiad £m** | **Amrywiad %** |
| **Ffyrdd o Weithio** | 1.0 | 0.7 | 0.2 | 23.4% |
| **Diwygio'r Senedd** | 2.0 | 2.0 | 0.1 | 3.14% |

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i weithio mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Yn ystod 2024-25, cyflawnodd y Comisiwn effeithlonrwydd yn y ffyrdd canlynol:

- Negodi o ran caffael ac arbedion;
- newidiadau i brosesau er mwyn gallu cynyddu'r ddarpariaeth o fewn yr un lefel o adnoddau;
- defnyddio deallusrwydd artiffisial lle bo'n briodol, i leihau'r amser a gymerir i gwblhau tasgau penodol;
- awtomeiddio tasgau â llaw gan ddefnyddio datblygiadau technoleg, yn enwedig defnyddio cynhyrchion Office 365;
- defnyddio dadansoddeg data i dargedu gwariant at feysydd effaith uchel ar gyfer ymgysylltu;
- gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i rannu gwybodaeth ac arferion gorau, cronni adnoddau ac osgoi dyblygu ymdrech.

**Cyfarfod Llawn**
17 Medi 2024



# Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

Yn yr adran hon o'r Adroddiad Blynyddol rydym yn disgrifio sut rydym wedi cyflawni busnes y Senedd



## Cefnogi'r Cyfarfod Llawn

**74**

Cyfarfod Llawn Hybrid

**01**

Cyfarfod Llawn yn dilyn adalw mewn argyfwng

**08**

Dadl Aelodau Unigol

## Cwestiynau a ofynnwyd yn y Cyfarfodydd Llawn

**40**

Cwestiwn Amserol

**01**

Cwestiwn Brys

**821**

Cwestiwn Llafar

**3,667**

Cwestiwn Ysgrifenedig

## Deddfwriaeth Ategol

**06**

Bil newydd wedi'i gyflwyno

**05**

Bil a basiwyd

## Cefnogi'r Pwyllgorau

**358**

Cyfarfod Pwyllgor ffurfiol

**345**

Adroddiad pwyllgor

## Gweithio'n ddwyieithog

**1,154**

Papurau pwyllgor dwyieithog

**100%**

Targedau Cofnod y Trafodion wedi'u cyflawni

# DAFYDD ELIS-THOMAS

## (Y GWIR ANRH YR ARGLWYDD ELIS-THOMAS CG)

**18 Hydref 1946** — **7 Chwefror 2025**

Talodd y Llywydd deyrnged i "graig sylfaen ein Senedd" yn dilyn marwolaeth ei Llywydd cyntaf, yr Arglwydd Elis-Thomas, a gyhoeddwyd ddydd Gwener 7 Chwefror 2025.

Cafodd yr Arglwydd Elis-Thomas ei ethol i wasanaethu fel Llywydd am dri thymor, a hynny rhwng 1999 a 2011.



## Paratoadau ar gyfer y Seithfed Senedd

Yn dilyn pasio Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, mae'r Senedd a'r Comisiwn wedi bod yn cynyddu'r paratoadau ar gyfer Seithfed Senedd fwy o faint, gyda sefydlu Pwyllgor y Senedd yn y Dyfodol, adolygiad y Pwyllgor Busnes o weithdrefnau, ac adolygiad o'r fframwaith rheoleiddio safonau yn cael ei gynnal gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. At hynny, mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi bod yn bwrw ymlaen â'i baratoad ar gyfer Penderfyniad newydd ar gyfer y Seithfed Senedd, ac mae wedi bod yn ymgysylltu â'r Comisiwn i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r goblygiadau i Aelodau a chefnogaeth y Comisiwn.

### Pwyllgor Senedd y Dyfodol

Ym mis Gorffennaf 2024, cynhaliodd y Comisiwn a'r Pwyllgor Busnes ddiwrnod i ffwrdd ar y cyd, i ganolbwyntio ar baratoi ar gyfer pontio i'r Seithfed Senedd fwy o faint ym mis Mai 2026, a chefnogi hynny.

Cafodd ystod eang o faterion eu trafod, gan gynnwys strwythur a sylwedd yr wythnos fusnes, pwyllgorau a gwaith craffu effeithiol, arloesi democrataidd, ymgysylltu â'r cyhoedd, a gwasanaethau a chyfleusterau a ddarperir gan y Comisiwn ar gyfer yr Aelodau.

Yn dilyn cyfarfod adeiladol, gwahoddodd y Llywydd y Dirprwy Lywydd i ddatblygu cynigion ar y cyfrwng priodol i ddwyn y gwaith hwn yn ei flaen, er ystyriaeth y Pwyllgor Busnes.

Mewn ymateb, sefydlwyd Pwyllgor Senedd y Dyfodol drwy gytundeb yn y cyfarfod llawn ar 16 Hydref.

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys ystyried y canlynol:

- trefn busnes yn y Seithfed Senedd, gyda'r nod o ganfod opsiynau sy'n cynyddu effeithiolrwydd ei gwaith craffu, effeithiolrwydd y modd y mae'n darparu busnes o ddydd i ddydd a hygyrchedd busnes seneddol i'r Aelodau;
- atebion i rwystrau (gwirioneddol a chanfyddedig) a all amharu ar allu'r Senedd i gynrychioli pobl o bob cefndir, profiad bywyd, dewis a chred, neu sydd â'r potensial i wneud hynny, gan gynnwys ystyried fersiynau drafft a therfynol y canllawiau ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol; a

- throthwyon a osodir ar hyn o bryd yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer nifer yr Aelodau sy’n ofynnol at wahanol ddibenion, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ffurfio grwpiau gwleidyddol, diswyddo deiliaid swyddi a chworwm.

Mae'r Comisiwn wedi blaenoriaethu adnoddau i gefnogi'r pwyllgor newydd, y disgwylir iddo gyhoeddi ei adroddiad terfynol erbyn 9 Mai. Rhagwelir y bydd y Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Senedd yn ystyried unrhyw argymhellion a gyfeirir ato, er mwyn cynorthwyo'r paratoadau ar gyfer y Seithfed Senedd.

## Y Pwyllgor Busnes

Yn ogystal â hwyluso trefniadaeth effeithiol trafodion y Senedd, mae'r Pwyllgor Busnes yn gwneud argymhellion ar arfer a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd. Fel rhan o'r rôl hon, mae wedi bod yn ystyried parodrwydd gweithdrefnol y Senedd ar gyfer diwygio'r Senedd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn wedi cynnwys datblygu cynigion ar gyfer dadl hirach, ystyried cyflwyno cadeiryddion pwyllgorau sy'n rhannu swyddi ac adolygu prosesau'r Senedd sy'n ymwneud â biliau cyhoeddus a biliau Aelod.

### Dadleuon agored

Derbyniodd y Pwyllgor Busnes gynnig gan bedwar Aelod i dreialu fformat achlysurol newydd ar gyfer dadleuon y Cyfarfod Llawn sy'n canolbwyntio ar ‘ddewisiadau gwleidyddol allweddol’, a chytunodd y Pwyllgor i drefnu tair ‘Dadl Agored’ i’w treialu, gan ddechrau ar 19 Mawrth.

### Rhannu swydd cadeirydd pwyllgor

Mae'r Pwyllgor wedi datblygu ac ymgynghori ar gynigion ar gyfer rhannu swyddi rôl cadeirydd pwyllgor.

Ar ôl ystyried tystiolaeth a dderbyniwyd gan amrywiaeth o bobl, gan gynnwys ymgyngoreion allanol, Aelodau o’r Senedd a grwpiau gwleidyddol, mae’r Pwyllgor Busnes wrthi’n datblygu cynnig terfynol.

### Biliau cyhoeddus a biliau Aelod

Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor wrthi’n adolygu prosesau'r Senedd sy'n ymwneud â biliau cyhoeddus a biliau Aelod.

Bydd yn archwilio opsiynau ar gyfer gwella gweithrediad ac effeithiolrwydd gwaith craffu’r Senedd ar filiau Cyhoeddus drwy archwilio profiadau’r gorffennol

yn y Senedd. At hynny, bydd yn ystyried sut i wella proses biliau Aelod y Senedd, gan gynnwys ystyried y gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau, ac effaith bosibl y Senedd fwy o faint, o 2026 ymlaen.

## Fframwaith Rheoleiddio Safonau

Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi bod yn ystyried materion sy'n ymwneud ag atebolrwydd Aelodau unigol yn dilyn trafodaethau gan y Senedd yng nghyd-destun gwaith craffu ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), Cymru ar y pryd.

### Adalw

Roedd y Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:

- proses un cam sy'n gofyn i'r etholwyr a ydynt am gael gwared ar Aelod, a disodli'r Aelod â'r person nesaf ar restr y blaid. Byddai hyn yn cael ei gynnal ar un diwrnod, ar ôl cyfnod paratoi o chwe wythnos. Mae hyn yn adlewyrchu'r symudiad tuag at gynrychiolaeth gyfrannol lawn yng Nghymru ar gyfer y Senedd nesaf, a'r gydnabyddiaeth na fydd isetholiadau yn nodwedd o'r system newydd; a

- bod y broses sbarduno ar gyfer system 'adalw' yn cael ei nodi mewn canllawiau, yn hytrach na'i rhoi ar wyneb y ddeddfwriaeth. Byddai hyn yn caniatáu i'r Senedd ymateb i dirweddau gwleidyddol sy'n newid.

### Dichell fwriadol

Cytunodd y Pwyllgor i ystyried rhinweddau cyflwyno 'mecanweithiau pellach ar gyfer anghymhwyso Aelodau ac ymgeiswyr a geir eu bod wedi dichellu'r etholwyr yn fwriadol, gan gynnwys drwy broses farnwrol annibynnol.'

Ar ôl ystyried ystod eang o dystiolaeth, roedd y Pwyllgor yn glir bod dichell fwriadol yn fater arwyddocaol, ond daeth i'r casgliad na allai gefnogi creu trosedd penodol. Roedd hyn am nifer o resymau, gan gynnwys yr effaith bosibl ar y system cyfiawnder troseddol. Yn hytrach, gwnaeth y Pwyllgor argymhellion i fynd i'r afael â hynny, gan ddefnyddio mecanweithiau presennol. Argymhellodd y canlynol:

- ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad: ehangu'r drosedd sydd eisoes ar waith o ran gwneud datganiadau ffug mewn perthynas â chymeriad ymgeisydd arall, i gwmpasu datganiadau camarweiniol yn fwy cyffredinol; ac

- ar gyfer Aelodau ar ôl iddynt gael eu hethol i'r Senedd: ehangu darpariaethau yn y Cod Ymddygiad, gyda cholli sedd drwy adalw yn sancsiwn eithaf, a chreu mwy o annibyniaeth i'r drefn safonau drwy ychwanegu aelodau lleyg ar y Pwyllgor.

Cyhoeddodd y Pwyllgor y ddau adroddiad ddechrau 2025 ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argymhellion gyda'r bwriad o ddeddfu mewn pryd ar gyfer y Seithfed Senedd. At hynny, bydd angen i'r Pwyllgor Busnes, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a Chomisiwn y Senedd ymateb i unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu newidiadau i'r fframwaith gweithdrefnol neu safonau os caiff yr argymhellion eu datblygu maes o law.

## Deialog y Comisiwn â'r Bwrdd Taliadau Annibynnol

Eleni, dechreuodd y Bwrdd a'r Comisiwn ddeialog strwythuredig drwy gyfres o gyfarfodydd rhwng y Llywydd, fel Cadeirydd y Comisiwn, a Hefin David AS, deiliad portffolio'r Gyllideb, gyda Chadeirydd y Bwrdd, Dr Elizabeth Haywood ac un aelod arall o'r Bwrdd (yn dibynnu ar y pwnc dan drafodaeth). Mae'r rhaglen o ddeialog ar y cyd yn rhoi cyfle anffurfiol i'r Bwrdd a'r Comisiwn rannu'r wybodaeth ddiweddaraf a'r syniadau diweddaraf, a thrafod materion o ddiddordeb cyffredin yn anffurfiol.

## Paratoadau Comisiwn y Senedd – cynnydd a wnaed yn ystod 24-25

Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Seithfed Senedd newydd (yn disodli Bwrdd blaenorol Rhaglen Diwygio'r Senedd) i gynorthwyo'r Comisiwn i ymateb i waith paratoadol a wnaed gan y Pwyllgor Busnes, Fforwm y Cadeiryddion, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Pwyllgor Senedd y Dyfodol a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol, yng ngoleuni Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024.

Mae'r Bwrdd yn goruchwylio'r gefnogaeth a ddarperir i Aelodau i hwyluso trosglwyddiad esmwyth i'r Seithfed Senedd. Bydd yn sicrhau bod holl wasanaethau'r Comisiwn yn barod i gefnogi ac ymateb i'w benderfyniadau cynnar. At hynny, mae'r Bwrdd yn goruchwylio cyfathrebu ac ymgysylltu cysylltiedig ag Aelodau, staff, rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd.

Mae'r Bwrdd a'r Tîm Arwain wedi cynnal ffug-ymarferion cynllunio er mwyn helpu i gynllunio a pharatoi ar gyfer cyflawni'r cyfnod pontio i'r Seithfed Senedd, ac i lywio’r broses o gynllunio ar gyfer y ddwy flynedd nesaf o newid sylweddol.


00:00:34

## Dathlu tair blynedd o strategaeth cyfnewid gwybodaeth y Senedd

Mae gwaith craffu a deddfu da yn dibynnu ar gael mynediad at arbenigedd a thystiolaeth ymchwil o'r radd flaenaf.

Nod ein strategaeth cyfnewid gwybodaeth yw cryfhau cysylltiadau rhwng y Senedd, academyddion a phrifysgolion i sicrhau bod hynny'n digwydd.

- Yn 2024, gwelsom **gynnydd yn nifer yr academyddion yn cyfrannu tystiolaeth lafar i bwyllgorau**, cyfanswm o 38 o'i gymharu â 18 yn y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi (Ch1 a Ch2) 2022 i 30 yn yr un cyfnod yn 2023), sef cynnydd cyffredinol o 111%.
- Cyrhaeddodd ein **sesiynau hyfforddi ar sut y gall ymchwilwyr ymgysylltu'n effeithiol â'r Senedd 370% yn fwy o bobl yn 2024**, o'i gymharu â'r cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2023, gan ddarparu dros 33 o sesiynau hyfforddi i fwy na 1,200 o gyfranogwyr ers ei sefydlu, diolch i gapasiti ychwanegol yr Uned Cyfnewid Gwybodaeth a ariannwyd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

## Rhaglen cyfnewid gwybodaeth: 2021-24 mewn rhifau

Ers ei lansio yn 2021, mae ein strategaeth cyfnewid gwybodaeth hefyd wedi cyflawni'r canlynol:




**Defnyddio cyllid ymchwil allanol sylweddol i gefnogi gwaith y Senedd**, gan gynnwys gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol




**Comisiynu deg prosiect ymchwil i lenwi bylchau tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau**, gan gynnwys ar: modelau ariannu gwasanaethau bysiau, Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020, Biliau fframwaith, llythrennedd iechyd, cwotâu rhywedd ac amrywiaeth, COVID, a mwy

- Mae ein dull cyfnewid gwybodaeth yn parhau i ddatblygu a chynnal perthnasoedd â holl brifysgolion Cymru, gan gynnwys drwy **rwydwaith newydd dan arweiniad y Senedd ar gyfer symudwyr gwybodaeth, a lansiwyd yn hydref 2024**, ac mae wedi creu partneriaethau newydd gyda sefydliadau ymchwil ledled y DU. Mae hefyd wedi parhau i gyfrannu at weithgareddau cyfnewid gwybodaeth rhyngwladol, gan gynnwys drwy brifysgolion, sefydliadau rhyngwladol a chymunedau ymarfer, ac yn ddwy ochrog â seneddau ledled y byd.


- Yn 2024 **lansiwyd tri Maes newydd o Ddiddordeb Ymchwil**, ar arloesedd ym myd gofal iechyd, deallusrwydd artiffisial ac economi Cymru a thargedau a llywodraethu bioamrywiaeth. Datblygwyd offeryn ymgysylltu y Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil ar gyfer pwyllgorau i fod wedi'i dargedu'n benodol at academyddion. Ers 2022, mae pwyllgorau wedi lansio naw Maes o Ddiddordeb Ymchwil gyda bron i 400 o ymatebion, 67% gan bobl nad oeddent erioed wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen.



**Creu cylchlythyr misol newydd wedi'i dargedu at y gymuned ymchwil**, sydd â 700 o gofrestriadau ar hyn o bryd



**Cynnal 26 o interniaid PhD**, wedi'i ariannu gan Ymchwil ac Arloesi y DU



**Cynnal digwyddiadau cyfnewid gwybodaeth**, gan gynnwys tri digwyddiad penodol i bolisi a dwy gynhadledd

## Ymgysylltiad rhyngwladol

Mae ein gweithgareddau rhyngwladol yn gwneud y canlynol:

- canolbwyntio ar fusnes y Senedd, gan alluogi'r Senedd i gyflawni ei swyddogaeth graidd, sef cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, drwy wella'r broses o gyfnewid gwybodaeth, syniadau a phrofiad; ac
- cydnabod gwerth a phwysigrwydd meithrin enw da sefydliadol a rhyngwladol y Senedd drwy ymgysylltu a chydweithio, boed a yw'r gwaith hwnnw'n cael ei arwain gan Aelodau neu Bwyllgorau, neu a yw'n digwydd ar lefel swyddogion neu rhwng Seneddau.

### Ymweliadau rhyngwladol

**Ymweliad y Llywydd â Senedd Gwlad yr Iâ** | 25-27 Mawrth 2025
Aeth y Llywydd, ynghyd â Chadeiryddion pwyllgorau'r Senedd, Llyr Gruffydd AS (**Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**) a Russell George AS (**Iechyd a Gofal Cymdeithasol**), ar ymweliad â Senedd hynaf y byd, yr Althingi yn Reykjavik. Roedd yr ymweliad, a gynhaliwyd gan y Llefarydd newydd ei ethol, Ms. Þórunn Sveinbjarnardóttir, yn cynnwys cyfarfodydd â'r pwyllgorau cyfatebol a'u Cadeiryddion cyfatebol. Cafodd dirprwyaeth y Senedd yr anrhydedd hefyd o gael galwad cwrteisi gydag Arlywydd Gwlad yr Iâ, H.E. Ms. Halla Tómasdóttir.

**Y Dirprwy Lywydd yn arwain ymweliad i Frwsel** | 5-6 Mawrth 2025
Aeth David Rees AS, y Dirprwy Lywydd, ynghyd ag Adam Price AS ac Alun Davies AS i gymryd rhan mewn rhaglen a oedd yn canolbwyntio ar yr UE, o amgylch y Derbyniad Dydd Gŵyl Dewi blynyddol ym Mrwsel.

**Y Dirprwy Lywydd yn arwain ymweliad i Stuttgart** | 24-26 Chwefror 2025
Aeth y Dirprwy Lywydd, David Rees AS, yng nghwmni Llyr Gruffydd AS, Carolyn Thomas AS a Hannah Blythyn AS ar ymweliad â Stuttgart, yr Almaen fel rhan o raglen swyddogol gyntaf y Senedd i Landtag (Senedd y Wladwriaeth) yr Almaen, Baden-Württemberg.

## Ymweliadau mewnol

9-11 Mehefin 2024 - Croesawodd y Llywydd ymweliad gan Nathalie Roy, Président de l'Assemblée Nationale du Québec.

5 Mehefin 2024 - Yr Anrhydeddus Curtis Pitt AS, Llefarydd Senedd Queensland

3-4 Rhagfyr 2024 - M. H. Sr. Josep Rull, Llywydd **Senedd Catalwnia**

## Ymweliad i Stuttgart








## Rhwydweithiau'r Aelodau

**Cynhadledd Ranbarthol Ynysoedd Prydain a Gwledydd Môr y Canoldir (BIMR)**
Cynhaliwyd Cynhadledd Ranbarthol BIM 2024, am y tro cyntaf erioed, gan St Helena (18-25 Mai 2024)

Cynrychiolwyd Cangen y Senedd gan Natasha Asghar AS. **Linc i'r adroddiad**.

**Cynhadledd Ranbarthol Seneddwragedd y Gymanwlad (CWP)**
Cynrychiolwyd y Senedd yng nghynhadledd Ranbarthol CWP 2025 yng Nghaeredin gan Sioned Williams AS, Natasha Asghar AS a Rhianon Passmore AS (16-18 Mawrth 2025).

**Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad (CPC)**
Cynhaliwyd cynhadledd flaenllaw flynyddol Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad gan Senedd De Cymru Newydd yn Sydney, Awstralia (3-8 Tachwedd 2024). Cynrychiolwyd y Senedd gan y Llywydd a Chadeirydd y Gangen, Rhun ap Iorwerth AS. **Linc i'r Adroddiad**.

**Deallusrwydd Artiffisial a Thwyllwybodaeth**
Aeth Lee Waters AS i gynhadledd CPA ar ddeallusrwydd artiffisial a ffugiadau dwfn, a gynhaliwyd yn Singapore (18-20 Mehefin 2024).. **Linc i'r Adroddiad**

**Senedd Ieuenctid y Gymanwlad**
Cynrychiolwyd y Senedd yn 12fed Senedd Ieuenctid y Gymanwlad gan gyn-Aelod Senedd Ieuenctid Cymru, Tegan Skyrme. Gellir darllen adroddiad ar gyfranogiad Tegan yn y CYP a gynhaliwyd gan Senedd Seland Newydd yn Wellington (2-6 Medi 2024) yma

**Cymdeithas Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA)**
Cynhaliwyd Cyfarfod Llawn BIPA yn Swydd Wicklow 14-16 Ebrill 2024 ar thema Twristiaeth. Aeth Darren Millar AS, Heledd Fychan AS, a Sarah Murphy AS i'r Cyfarfod Llawn.

Yn dilyn penodiad Sarah Murphy AS i Lywodraeth Cymru, ymunodd Carolyn Thomas AS â dirprwyaeth BIPA y Senedd yn ei lle. Bydd Carolyn yn eistedd ar Bwyllgor Materion Economaidd BIPA.

Cafodd holl fusnes arall BIPA ei oedi yn dilyn cyhoeddiadau am Etholiadau Cyffredinol y DU ac Iwerddon yn 2024.

## Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad













## Cymru a'r UE

Parhaodd y Senedd i ymgysylltu â strwythurau'r DU a'r UE ar gyfer perthnasoedd seneddol. Aeth Aelodau o'r Senedd i Gynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a’r UE a Grŵp Cyswllt y DU – Pwyllgor y Rhanbarthau.

At hynny, aeth yr Aelodau i wythnos Ewropeaidd dinasoedd a rhanbarthau ym mis Hydref 2024 i godi materion allweddol o bwys i Gymru ar amrywiaeth o feysydd polisi.

Cynhaliodd y Dirprwy Lywydd raglen ymweliadau â'r Senedd gan Lysgennad yr UE a Phenaethiaid Cenhadaeth Ewropeaidd (12 Mehefin 2024).

Mae swyddfa’r Senedd ym Mrwsel wedi cefnogi a hwyluso ymgysylltiad pwyllgorau’r Senedd ac Aelodau o’r Senedd â sefydliadau’r UE. Lansiodd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Cysylltiadau Rhyngwladol a Chwaraeon y Senedd ei adroddiad Sioc Ddiwylliannol ym Mrwsel ym mis Tachwedd, ar effeithiau Brexit ar y sector diwylliant.

Cynhaliodd swyddogion y Senedd eu hymgysylltiad â Rhaglen Ymwelwyr fawreddog yr Undeb Ewropeaidd; rhaglen hyfforddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol ifanc sy'n gweithio mewn meysydd perthnasol.

## Busnes y Senedd yn cymryd ffocws rhyngwladol

Amlinellwyd esblygiad gwaith y Senedd ar gyfraith ryngwladol fel rhan o'r gyfres o erthyglau *25 mlynedd o ddeddfu yng Nghymru* i ddathlu 25 mlynedd o’r Senedd. Denodd yr erthygl ddiddordeb academaidd a gwahoddwyd swyddogion y Senedd i gyflwyno canfyddiadau mewn cynadleddau a seminarau.

Mae craffu ar faterion rhyngwladol ac ymgysylltu â hwy yn parhau i fod yn faes â blaenoriaeth i bwyllgorau’r Senedd.

- Parhaodd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad y Senedd i graffu ar effaith cytundebau a rhwymedigaethau rhyngwladol ar ddatganoli.
- Ymwelodd dirprwyaeth draws-bwyllgor o Aelodau o’r Senedd, dan arweiniad y Dirprwy Lywydd, â Senedd Genedlaethol yr Oireachtas fel rhan o ymrwymiad i ddyfnhau cysylltiadau seneddol Cymru ac Iwerddon (22 Medi 2024) Linc i'r erthygl

- Lansiodd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Cysylltiadau Rhyngwladol a Chwaraeon y Senedd ei adroddiad ar effaith Brexit ar y sector diwylliant.
- Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd wedi monitro'n agos y trefniadau masnach yn dilyn Brexit rhwng Cymru ac ynys Iwerddon, gan gynnwys paratoadau ar gyfer rheolaethau ffiniau newydd y DU. Cyhoeddodd adroddiad ar ei waith ym mis Hydref 2024.
- Mae gwaith monitro Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd o'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a hawliau dinasyddion Ewropeaidd yng Nghymru wedi parhau. Cyhoeddodd adroddiad blynyddol ym mis Ebrill 2024 ar y mater hwn, ac roedd rhanddeiliaid allweddol yn bresennol yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad.
- Ym mis Awst 2024 lansiwyd ymchwiliad traws-bwyllgor ar adolygiad gweithredu Cytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE gan nifer o bwyllgorau'r Senedd (y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith). Cynhaliwyd digwyddiad i randdeiliaid yn y Senedd ym mis Medi 2024 i gefnogi ymgysylltiad â'r ymchwiliad. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo.

Yn y Cyfarfod Llawn, mae'r Senedd wedi adlewyrchu ac ymateb yn aml i ddigwyddiadau allweddol sydd wedi ffurfio'r byd eleni, megis y rhyfel yn Wcráin a'r gwrthdaro rhwng Israel a Gaza.

## Gwasanaethau ddwyieithog

Prif nod y Cynllun Ieithoedd Swyddogol yw sicrhau ein bod yn cynnal y safonau uchaf posibl ac yn ymateb yn gadarnhaol i ddisgwyliadau'r sawl sy'n ymwneud â ni. Yn anochel, mae'r newidiadau a ddaw yn sgil Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn golygu y bydd angen i ni edrych o'r newydd ar y fframwaith ieithoedd swyddogol i sicrhau ei fod yn addas i bwrpas a'n bod mewn sefyllfa i barhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf, gyda chynnydd sylweddol yn y galw am y gwasanaethau, a hynny yn ddiofyn.

I'r perwyl hynny, mae'r gwaith o adolygu a diweddaru cynlluniau iaith y gwasanaethau wedi parhau. Cyflwynwyd templed newydd ar gyfer y cynlluniau, sy'n ei gwneud yn haws i Benaethiaid Gwasanaeth gasglu'r wybodaeth angenrheidiol a diweddaru'r wybodaeth yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau bellach wedi llunio cynllun drafft yn y templed newydd a byddwn yn mynd ati i fireinio'r cynlluniau ac yn mewnforio'r wybodaeth o'r arolwg sgiliau iaith Gymraeg a gynhaliwyd y llynedd i'r cynlluniau. Mae'r gwaith hwn yn ein gosod mewn lle cryf i asesu capasiti gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ar gyfer y Seithfed Senedd.

Wedi cyfnod peilot y llynedd, mabwysiadwyd Matrics Sgiliau Iaith Gymraeg newydd. Mae'n cynnig disgrifiadau mwy eglur o'r gwahanol lefelau ac yn cysylltu'r lefelau â chyrsiau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol neu gymwysterau eraill er mwyn rhoi cyd-destun i'r sawl sy'n hunan asesu. Rydym yn ymwybodol o'r ffaith fod unigolion yn aml yn tanbrisio eu sgiliau ieithyddol wrth hunan asesu, a'r gobaith yw y bydd hyn yn sicrhau darlun eglur a chywir o sgiliau iaith staff Comisiwn y Senedd.

Wrth gynllunio ar gyfer y Seithfed Senedd, rydym wedi ychwanegu at ein darpariaeth y tu hwnt i gyrsiau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i sicrhau darpariaeth wedi'i deilwra. Wedi cyfnod peilot llwyddiannus y llynedd, cafodd y Modiwl Cwrteisi newydd ei fabwysiadu. Bellach mae'r modiwl ar gael i aelodau o staff y Comisiwn sy'n cael eu penodi i swyddi lefel Cwrteisi fel rhan o'u cyfnod cynefino, ac i unrhyw un arall sy'n dymuno derbyn yr hyfforddiant gan gynnwys Aelodau a'u staff cymorth. Yn ogystal â darparu gwersi a chefnogaeth i siaradwyr Cymraeg newydd, rydym hefyd wedi canolbwyntio ar y ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg mwy profiadol. Yn ogystal â'r ddarpariaeth

gloywi iaith sy'n parhau, rydym hefyd wedi cydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnig cyfle i staff y Comisiwn a staff cymorth ennill y Dystysgrif Sgiliau Iaith. Mae'r Dystysgrif yn rhoi tystiolaeth ffurfiol o lefel sgiliau iaith Gymraeg, a'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae pedwar ymgeisydd yn gweithio tuag at y cymhwyster ar hyn o bryd. Ymhellach i hynny, rydym hefyd wedi datblygu Modiwl Hyder Cymraeg. Nod y modiwl yw cynnig cyfle i siaradwyr Cymraeg wella eu sgiliau Cymraeg llafar, a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'u sgiliau yn y gwaith. Byddwn yn peilota'r modiwl yn ystod tymor yr haf 2025. Y gobaith yw y bydd modd cynnig y modiwl hwn a'r modiwl Cwrteisi yn rheolaidd fel rhan o ddarpariaeth y tîm.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Comisiwn y Senedd wedi mabwysiadu system adnoddau dynol a chyflogres newydd hefyd. Mae'r gallu i weithio yn ddwyieithog yn rhan annatod o'r ddarpariaeth, gyda'r holl system ar gael yn newis iaith swyddogol y defnyddiwr. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, rydym wedi dysgu llawer am gaffael systemau dwyieithog, a bydd y gwersi hyn yn cael eu cofnodi ynghyd ag unrhyw wersi eraill a ddysgwyd fel rhan o'r prosiect.

Mae adborth, boed yn gadarnhaol neu yn llai ffafriol yn bwysig i ni. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi derbyn adborth ar sawl agwedd o'n gwaith ac wedi nodi mannau lle gellir gwella ein gwasanaethau dwyieithog. Rydym yn falch o'r cyfle i ymgysylltu ag Aelodau a'u staff cymorth yn ogystal i dderbyn adborth. Mae dysgu gan eraill hefyd yn bwysig. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm wedi cwrdd â chynrychiolwyr o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg er mwyn trafod a rhannu arferion effeithiol. Byddwn yn parhau â'r trafodaethau wrth i ni werthuso ein gwasanaethau dwyieithog a pharatoi ar gyfer y Seithfed Senedd.

**Dydd Gŵyl Dewi 2025**
Cafwyd diwrnod llawn hwyl i'r teulu, perfformiadau, a gweithgareddau yn y Senedd




# Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn

Mae'r rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol yn tynnu sylw at y gwaith rydym wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth o'r Senedd a'i gwaith a'i gwneud yn fwy hygyrch i bobl Cymru.



## Y Senedd yn y newyddion




# 1,898

Roedd 1,898 o ddarnau o newyddion am adroddiadau pwyllgorau'r Senedd o Ebrill 2024 hyd Fawrth 2025, sef cynnydd o gymharu â llai na 1,600 y llynedd.



# 4.5%

Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, roedd y gyfradd ymgysylltu â'n cynnwys y cyfryngau cymdeithasol yn 4.5%, sef cynnydd o gymharu â 3.7% yn y flwyddyn flaenorol.



Mannau ledled Cymru:

**32k**


**+7% o'i gymharu â'r llynedd**



Newyddion Lleol Cymru:

**20k**


**+173% o'i gymharu â'r llynedd**



Cyfryngau cenedlaethol mawr y DU:

**15k**

**+110% o'i gymharu ar y llynedd**




Pob sylw:

**94k**


**+34% o'i gymharu â'r llynedd**

## Pobl Cymru a’r ystad




# 179,711

Cyfanswm nifer yr ymwelwyr â’r Senedd a’r Pierhead




# 572

Cyfanswm nifer y teithiau, yn y cnawd ac ar-lein




# 13,296

Cyfanswm nifer y mynychwyr ar deithiau, yn y cnawd ac ar-lein



# 236

Cyfanswm nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd ar yr ystad ac oddi ar yr ystad



# 24,378

Cyfanswm nifer y cyfranogwyr mewn digwyddiadau a gynhaliwyd ar yr ystad ac oddi ar yr ystad

## 25 mlynedd o ddatganoli

### Dathlu Pobl Cymru

Yn 2024, dathlodd y Senedd 25 mlynedd o ddatganoli. Gwnaethom nodi'r garreg filltir hon drwy ddathlu pobl Cymru sydd wedi helpu i lunio ein democratiaeth hyd yma. Roedd y thema hon yn cyd-fynd â nod y Comisiwn o gael pobl wrth wraidd popeth a wnawn.

Roedd amcanion cyffredinol yr ymgyrch yn ategu amcanion ein Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu – i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, ac annog cyfranogiad yn ein gwaith.

Dechreuwyd chwe mis o weithgarwch ar 6 Mai 2024, yn union 25 mlynedd ers etholiad cyntaf y Senedd.

Yn ystod y chwe mis, fe wnaethom gyflawni'r canlynol:

- cynnal trafodaeth banel mewn








partneriaeth â Chanolfan Llywodraethiant Cymru, a fynychwyd gan Aelodau'r gorffennol a'r presennol;

- curadu arddangosfa Eich Llais ar gyfer y Senedd, a oedd yn cynnwys lluniau fideo o saith o bobl yn siarad am sut roeddent wedi effeithio ar waith y Senedd hyd yma;
- partneru ag Archif Wleidyddol Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Archif Ddarlledu Cymru i greu arddangosfa a oedd yn adlewyrchu cerrig milltir allweddol yn hanes y Senedd;
- presenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd ar y thema Eich Senedd Chi;
- lansiwyd Y Farchnad – cynnig ar ffurf marchnad ar gyfer sefydliadau bach a mawr, grwpiau cymunedol ac unigolion sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o achos neu brosiect;
- Creu cynnwys cyfryngau cymdeithasol i egluro rôl y






Senedd, o fideo arwr ar ei hanes, i erthyglau gyda phobl ifanc yn trafod eu gobeithion ar gyfer y dyfodol.

Un foment allweddol yn yr ymgyrch oedd ymweliad â'r Senedd gan Eu Mawrhydi, y Brenin a'r Frenhines, lle buont yn cwrdd â phobl a oedd wedi cyfrannu at waith y Senedd.  Roedd y rhain yn cynnwys Sarra Ibrahim, sydd wedi darparu tystiolaeth werthfawr i bwyllgorau'r Senedd ar ofal plant, trais ar sail rhywedd ac anghenion menywod mudol, a'r ymgyrchydd canser, Claire O'Shea, a rannodd ei stori i fynnu triniaethau a chanlyniadau canser gynaecolegol gwell yng Nghymru. (Yn anffodus, bu farw Claire ym mis Mai 2025).

Yn ystod y seremoni yn y Senedd, myfyriodd y Brenin fod y Senedd, dros y 25 mlynedd diwethaf, wedi dod yn fwy na symbol, ac wedi dod yn rhan hanfodol o fywyd Cymru.

### Effaith barhaol

At ei gilydd, arweiniodd yr ymgyrch at 1,714 o ddarnau a gafodd sylw yn y cyfryngau, a oedd yn cynnwys







cyfweliadau â'r Llywydd ar gyfryngau allweddol Cymru a phodlediad, yn ogystal â sylw yn y cyfryngau cenedlaethol i'r ymweliad Brenhinol, gyda 92% o'r sylw i'r digwyddiad hwnnw'n cynnwys negeseuon allweddol ynghylch y 25 mlynedd.

Cyrhaeddodd ymgyrch y cyfryngau cymdeithasol 449,878 o argraffiadau, gyda chyfradd ymgysylltu uwch na'r cyfartaledd, sef 4.4%.

At ei gilydd, roedd 34,166 o fynychwyr yn ein harddangosfeydd. O'r rhai a gymerodd ran mewn arolwg fel rhan o'u hymweliad, nododd 61% fod ganddynt well dealltwriaeth o waith y Senedd.

Drwy gyflwyno Eich Dyfodol Chi fel elfen o'r ymgyrch, gwnaethom lwyddo i ddechrau sgyrsiau a chasglu mewnwelediadau ar y newidiadau i'r Senedd yn 2026, sy'n llywio cynlluniau ar gyfer ymgyrch fawr yn 2025-26 i dynnu sylw at y newidiadau hyn ac etholiad y Senedd.











## Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu

### "Eich Llais Chi" – gweithio gyda chymunedau sy'n agored i niwed

Dyma drydedd flwyddyn ein Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu gyfredol, sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth, cynyddu dealltwriaeth ac annog cyfranogiad.

Eleni, gwnaeth ein timau ymdrechion cynyddol i gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt efallai'n teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn draddodiadol gan y Senedd – nod allweddol yn ein strategaeth.

Gwnaethom weithio gyda phobl anabl o bob cwr o Gymru i gasglu eu barn ar y rhwystrau y maent eu hwynebu i gyflogaeth. Gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cynhwysol, gan gynnwys grwpiau ffocws ar-lein ac wyneb yn wyneb a chyfweliadau un-i-un, roeddent yn gallu sicrhau bod y mewnwelediadau amhrisiadwy hyn yn cyfrannu at ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i anabledd a chyflogaeth.

Yn yr un modd, cefnogodd y tîm aelodau o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr i rannu eu barn ar ddarparu safleoedd a'r cynnydd a wnaed ers iddynt ymgysylltu ddiwethaf â'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn 2022.

Drwy gynnal grŵp ffocws hybrid dilynol yn y Senedd, roedd modd casglu profiadau byw aelodau'r gymuned er mwyn helpu i lywio adroddiad y Pwyllgor, a feirniadodd Lywodraeth Cymru am y diffyg cynnydd a wnaed yn y maes.

Roedd gallu dangos gwir effaith ddynol y diffyg cynnydd hwn yn ein galluogi i dynnu sylw'r cyfryngau at y stori, gan sicrhau sylw mawr ar *Wales Online*, a chryfhau lleisiau'r cymunedau hyn ymhellach.

Rydym hefyd wedi sicrhau bod lleisiau plant coll a phlant sydd wedi'u troseddoli, pobl sydd â chyflyrau iechyd cronig ac arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain wedi bod wrth wraidd argymhellion y pwyllgor ar gyfer gweithredu i Lywodraeth Cymru.

## "Eich Llais Chi" – Senedd i bawb

Yn ogystal ag estyn allan at gymunedau, mae ein timau wedi gwahodd cymunedau i'r Senedd i ddadansoddi syniadau rhagdybiedig ac amlygu ei lle fel senedd fodern i bawb.

Ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, gwnaethom gydweithio ag Anabledd Cymru i gynnal rhaglen hygyrch o sgyrsiau a gweithdai yn y Senedd.

Y nod oedd grymuso'r rheini a oedd yn bresennol, drwy dynnu sylw at lwyddiant pobl anabl mewn amrywiaeth o feysydd gwahanol fel chwaraeon, y cyfryngau, llywodraeth leol a busnes, a'r ffyrdd y gall pawb gymryd rhan yn ein gwaith a gwerth gwneud hynny.

Drwy greu a chryfhau partneriaethau â gwahanol grwpiau a rhwydweithiau anabledd, gwnaethom lwyddo i ddenu dros 120 o fynychwyr i'r digwyddiad, yn ogystal â darparu cyfleoedd i bobl wylio ar Senedd TV. Cyrhaeddodd hyrwyddiadau ar y cyfryngau cymdeithasol 17,000 o bobl hefyd, gyda chyfradd ymgysylltu gadarnhaol o 4.4%.

Cadeiriwyd digwyddiad Hanes Pobl Dduon Cymru 365 y llynedd gan Lloyd Lewis ac roedd yn cynnwys panel o Mel Owen, Yusuf Hussein Ismail a Jessica Dunrod, a pherfformiad cerddorol gan Sage Todz. Ymchwiliodd y drafodaeth i bŵer cymuned, pwysigrwydd hunaniaeth a sut i ddathlu a hyrwyddo cymdeithas amlddiwylliannol Cymru.

Gwnaethom gyrraedd unigolion nad oeddent wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen yn llwyddiannus, gyda hanner y 78 o bobl a fynychodd yn dod o grwpiau ieuenctid lleol, gan gynnwys Llamau, CFfI, Ysgol Gyfun Plasmawr, Foundation4sport a Tros Gynnal Plant Cymru. Cyrhaeddodd hyrwyddiadau'r digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol 26,000 o ddefnyddwyr hefyd.

Bu timau hefyd yn gweithio gyda *Pasbort i'r Ddinas* Cyngor Caerdydd i gynllunio ymweliad i deuluoedd o Gaerau ac Elai i'r Bae, a oedd yn cynnwys y Pierhead a'r Senedd. Aeth tua 60 o bobl ar ein taith, gyda'r rhan fwyaf heb ymweld o'r blaen, er eu bod yn 'lleol'.

Galluogodd y cysylltiad a wnaed â Chyngor Caerdydd drwy'r gwaith hwn ni i greu cysylltiadau â mentrau eraill, gan gynnwys ***y Rhaglen Cenhadon Democratiaeth*** sydd wedi sicrhau bod ysgolion sy'n ymweld â Neuadd y Sir yn cael eu hannog i ymweld â'r Senedd, gan ddenu ysgolion newydd nad ydynt fel arfer yn ymweld.

Bydd y gwaith a wnaed eleni i feithrin ymddiriedaeth a chysylltiadau â grwpiau amrywiol yn cael ei adeiladu ymhellach yn y flwyddyn nesaf wrth inni gynyddu ein hymdrechion i gyfleu'r newidiadau sydd ar ddod i'r Senedd ac etholiadau 2026.

## Senedd Ieuenctid Cymru

Prif bwnc y flwyddyn hon oedd ymgyrch etholiadol i ddod o hyd i'n Senedd Ieuenctid Cymru nesaf.

Dechreuodd yr ymgyrch ym mis Mai 2024 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nhrefaldwyn a daeth i'r uchafbwynt gyda'r nifer uchaf o bleidleisiau a fwriwyd mewn etholiad Senedd Ieuenctid Cymru hyd yma.

Roedd cynnwys cyn-Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru i ysbrydoli eu cyfoedion yn dacteg allweddol yn yr ymgyrch.

Ymunodd cyn-Aelodau â ni ar gyfer sesiynau ymgysylltu ag ysgolion ac ar ein stondin yn Sioe Frenhinol Cymru – gan gynnwys y cyn-Aelod, Leola Roberts Biggs, a roddodd araith ysbrydoledig yn agoriad digwyddiad Balchder Ysgolion Sir y Fflint.

## Sefydliadau Partner Swyddogol Senedd Ieuenctid Cymru

Roeddem yn ddiolchgar iawn i'r sefydliadau a'r grwpiau hynny a wnaeth gais i ddod yn Sefydliadau Partner Swyddogol Senedd Ieuenctid Cymru ar gyfer y tymor nesaf.

Roedd gennym restr gref iawn o ymgeiswyr ac roeddem wrth ein bodd yn penodi 19 o sefydliadau partner sy'n sicrhau cynrychiolaeth grwpiau amrywiol o bobl ifanc yn Senedd Ieuenctid Cymru. Mae partneriaid yn cynnwys Voices from Care, Race Council Cymru, a Tŷ Gobaith a Tŷ Hafan, ac Aelodau etholedig llwyddiannus o bob un.

Yn ystod yr ymgyrch saith mis, cynhaliodd y tîm 271 o sesiynau ysgol ledled Cymru, gyda thua 19,640 o bobl ifanc yn mynychu'r sesiynau.

Cefnogwyd hyn gan ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a oedd yn cynnwys cymysgedd o gynnwys organig - gyda chyn-Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru yn cyflwyno'r achos dros sefyll wrth wraidd y cyfan - hysbysebu, a chrewyr cynnwys. Cafodd yr elfen hon o'r ymgyrch dros 1.3 miliwn o argraffiadau.

Ar y cyfan, cyflwynodd 525 o bobl ifanc eu hunain fel ymgeiswyr ar gyfer y 60 o seddi, ac roedd 35,295 o bobl ifanc wedi cofrestru i bleidleisio.

Arweiniodd yr ymgyrch at gyflwyno ein Senedd Ieuenctid Cymru newydd ym mis Tachwedd.

Roedd y grŵp hwn o bobl ifanc brwdfrydig yn awyddus i ddechrau pan wnaethant gyfarfod gyntaf ym mis Chwefror. Daeth penwythnos o weithgareddau i ben gydag areithiau angerddol yn Siambr y Senedd gan bob unigolyn a phleidlais ar y tri phwnc y byddant yn eu harchwilio yn ystod eu tymor.

Ffurfiodd y materion a hyrwyddwyd gan yr holl bobl ifanc a oedd yn











sefyll yn yr etholiad, a phynciau y bu pobl ifanc eraill yn ymgysylltu â hwy yn ystod yr ymgyrch etholiadol, restr fer i Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru sydd newydd eu hethol ddewis ohonynt. Y materion a ddewiswyd yn y pen draw gan yr Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru newydd eu hethol yn dilyn pleidlais yn y Siambr oedd y rhai a ganlyn:

- costau byw;
- trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol; a
- throsedd a diogelwch.

Bydd Senedd Ieuenctid Cymru nawr yn dechrau gweithio i geisio barn pobl ifanc ledled Cymru ar y pynciau hyn. Bydd lleisiau'r bobl ifanc hyn yn llywio argymhellion y Senedd Ieuenctid i Lywodraeth Cymru ar gamau y dylent fod yn eu cymryd i wneud gwelliannau yn y meysydd hyn. Mae hyn yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc bob amser wrth wraidd gwaith y Senedd Ieuenctid.








## Urddas a pharch

Ar 31 Mawrth 2025, mae hyfforddiant Urddas a Pharch gorfodol wedi'i gyflwyno i fwy na 95% o staff y Comisiwn.

O ganlyniad i weithredu Deddf Diogelu Gweithwyr (Diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010) 2023 ym mis Hydref 2024, cynhaliwyd asesiad risg yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol gweithwyr a chyflwynwyd cynllun gweithredu. Mae'r polisi Urddas a Pharch hefyd yn cael ei ddiweddaru i gryfhau ymhellach ddarpariaethau sy'n ymwneud ag aflonyddu rhywiol.

Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn parhau â'i ymchwiliad i Urddas a Pharch. Eleni, mae'r Pwyllgor wedi adrodd ar ddau fater allweddol yn ymwneud ag atebolrwydd aelodau unigol. Mae'r Pwyllgor wedi argymell, yn gyntaf, y dylid cyflwyno system o 'alw' ar gyfer y Senedd, lle mae’r Aelodau y canfuwyd eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad yn sylweddol yn cael eu dwyn i gyfrif gan yr etholwyr. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi adrodd ar dwyll bwriadol ac wedi argymell amrywiaeth o fesurau a fydd yn gwella'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â’r Aelodau sy'n gwneud datganiadau twyllodrus yn fwriadol. Argymhellodd yr adroddiad hwn hefyd gyflwyno aelodau lleyg i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.



## Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol

Mae Comisiwn y Senedd wedi bod yn archwilio’n weithredol y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i wella gweithgareddau seneddol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed cynnydd sylweddol i sicrhau defnydd diogel, moesegol a chydymffurfiol o dechnolegau deallusrwydd artiffisial.

Mae dull Comisiwn y Senedd o ymdrin â deallusrwydd artiffisial wedi'i seilio ar dri philer strategol, sef:

- gwella cynhyrchiant;
- hygyrchedd; a
- llesiant.

Dros y 12 mis diwethaf, mae ymdrechion wedi canolbwyntio ar alinio defnydd deallusrwydd artiffisial â'r pileri hyn. Mae'r Comisiwn hefyd wedi blaenoriaethu datblygu polisi deallusrwydd artiffisial, wedi asesu effaith deallusrwydd artiffisial ar risg gorfforaethol ac wedi mynd i'r afael â'r angen am lywodraethu cadarn.

Mae dau grŵp gwaith pwrpasol wedi'u sefydlu i sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull cyfrifol o ymdrin â deallusrwydd artiffisial, sef:

- **Grŵp Llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial:** Dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Dros Dro Busnes y Senedd, mae'r grŵp hwn yn goruchwylio prosesau llywodraethu deallusrwydd artiffisial, goddefgarwch risg, a chydymffurfiaeth gyfreithiol.
- **Grŵp Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial:** Dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltiad, mae'r grŵp hwn yn nodi cyfleoedd deallusrwydd artiffisial i wella gwasanaethau, ac yn dilyn canllawiau’r Grŵp Llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial.

Rydym yn treialu dau brif gymhwysiad deallusrwydd artiffisial Microsoft: Copilot for Microsoft 365 (M365) a Microsoft Teams Premium. Bydd ein treial yn asesu effaith yr adnoddau ar gynhyrchiant, cydweithredu ac effeithlonrwydd.

Rydym yn ymwybodol bod defnyddio deallusrwydd artiffisial yn cario nifer o risgiau, gan gynnwys rhagfarn, camwybodaeth, pryderon ynghylch preifatrwydd, diffyg tryloywder a bygythiadau seiberddiogelwch. Ym mis Awst 2024, cymeradwywyd Risg Gorfforaethol ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial, ac mae

ymdrechion parhaus yn canolbwyntio ar ddatblygu lliniariadau ar gyfer y risgiau hyn.

Dechreuodd y gwaith i ymestyn y cynllun peilot deallusrwydd artiffisial ymhellach i'r Aelodau a'u staff gyda thrwyddedau ychwanegol yn cael eu cyflwyno'n gynnar yn 2025.

Bydd y Grŵp Llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial yn parhau i adolygu a diweddaru'r polisi deallusrwydd artiffisial o leiaf ddwywaith y flwyddyn, gan sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau ac arferion gorau sy'n esblygu. Mae'r polisi yn pwysleisio defnydd cyfreithlon, moesegol a chyfrifol o ddeallusrwydd artiffisial, gyda ffocws ar dryloywder a gwerthusiad beirniadol o gynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial.

Mae hyfforddiant a chymorth ar gael i bob defnyddiwr Copilot a Teams Premium, gan sicrhau eu bod yn deall y manteision, y cyfyngiadau a'r ystyriaethau moesegol posibl. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar ddiogelu data, osgoi rhagfarn a chynnal goruchwyliaeth feirniadol.

Mae'r Grŵp Llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial yn darparu diweddariadau risg chwarterol i'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Bydd adborth o'r cyfnod peilot yn llywio gweithrediadau deallusrwydd artiffisial ac anghenion hyfforddi yn y dyfodol.

Bydd cyswllt rheolaidd â'r Aelodau, Penaethiaid Staff a rhanddeiliaid eraill yn helpu ymhellach i greu dealltwriaeth eang o oblygiadau a manteision deallusrwydd artiffisial.

Bydd Comisiwn y Senedd yn parhau i archwilio potensial deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a sicrhau bod ei ddefnydd yn cyd-fynd ag egwyddorion moesegol a gofynion deddfwriaethol. Drwy lywodraethu gofalus, rheoli risg a gwerthuso parhaus, byddwn yn ymdrechu i harneisio deallusrwydd artiffisial i wella gwasanaethau seneddol a gwasanaethu pobl Cymru yn fwy effeithiol.

**Dydd Gŵyl Dewi 2025**
Cafwyd diwrnod llawn hwyl i'r teulu, perfformiadau, a gweithgareddau yn y Senedd



# Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn trafod sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau i gefnogi busnes y Senedd a sut rydym yn sicrhau ein bod yn eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy.



## Ffyrdd o Weithio

Mae 2024-25 wedi bod yn flwyddyn brysur i'r rhaglen Ffyrdd o Weithio, gyda chynnydd sylweddol yn cael ei wneud ym mhrosiectau Tŷ Hywel 26 a Siambr 26.

### Tŷ Hywel 26

Yn dilyn rowndiau helaeth o ymgysylltu â chynrychiolwyr staff y Comisiwn, a chydweithio â chontractwr dodrefn y Senedd, Bridgend Office Furniture, datblygwyd a chymeradwywyd cynlluniau i addasu Tŷ Hywel i adleoli gwasanaethau'r Comisiwn gan y Comisiwn ddechrau mis Mehefin 2024. Y diben oedd creu lle ar gyfer 36 o swyddfeydd Aelodau newydd, fel rhan o Ddiwygio'r Senedd.

Dechreuodd y gwaith adeiladu ac adleoli yn ystod gwyliau'r haf a chafodd ei gwblhau cyn i'r staff ddychwelyd ym mis Medi, gan gydleoli timau'r Gyfarwyddiaeth Fusnes gyda'r Gwasanaeth Cyfieithu, a'r timau Cyfathrebu ac Ymgysylltu gyda'r Gwasanaethau Adnoddau.

Aeth trafodaethau rhagddynt, hefyd, gyda Llywodraeth Cymru i adael eu lle ar yr ail lawr, ar gyfer lle arall, unwaith eto i ddarparu lle i swyddfeydd ychwanegol yr Aelodau.

Cynhaliwyd ymgysylltiad â'r Aelodau drwy gydol 2024, i gasglu gofynion, a chyflwynwyd cynlluniau terfynol i gyfarfodydd grwpiau plaid ym mis Tachwedd cyn eu cymeradwyo gan y Comisiwn ym mis Rhagfyr. Dechreuodd y gwaith i greu swyddfeydd newydd yr Aelodau ym mis Chwefror 2025.

### Siambr 26

Yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol, dyfarnwyd y contract gwasanaethau pensaernïol i Rogers Stirk Harbour Partnership (RSHP, a elwid gynt yn Richard Rogers Partnership) i gynorthwyo gyda dylunio Siambr Senedd wedi'i haddasu a fydd yn darparu lle i 96 o Aelodau.

Mae ymgysylltiad ac ymgynghoriad manwl â rhanddeiliaid allweddol y Comisiwn, Aelodau, Staff Cymorth a chontractwyr wedi digwydd drwy gydol y flwyddyn i gynorthwyo'r broses o ddatblygu dyluniadau cysyniadol a gyflwynwyd, a chytunwyd arnynt yn y Comisiwn yn ystod Haf 2024. Roedd agweddau allweddol ar y dyluniad yn cynnwys: gosodiad y desgiau, dyluniad y desgiau, darparu bwth rheoli, gorffeniadau'r waliau, hygyrchedd, llinellau gweledigaeth, opsiynau ar gyfer

darllenfeydd, lleoliad y Llywydd, goleuo, awyru, acwsteg, darlledu, a chynaliadwyedd.

Ers hynny, mae gwaith ar y darn dylunio manwl wedi mynd rhagddo gyda rowndiau ymgysylltu pellach yn cael eu cynnal drwy gydol y broses, yn ogystal â mewnbwn hanfodol gan ymgynghorwyr arbenigol. Cyflwynwyd 'model' o arddull newydd desg y Siambr i'r Aelodau a chymeradwywyd y fanyleb ddylunio fanwl gan y Comisiwn ym mis Rhagfyr 2024. Dechreuodd y gwaith adeiladu i addasu'r Siambr ym mis Ebrill 2025.

Ochr yn ochr â phrif ddarn Siambr y Senedd, gwnaed gwaith ddechrau 2025 i addasu Siambr Hywel, sy'n cael ei defnyddio fel canolfan dros dro ar gyfer y Cyfarfod Llawn o fis Ebrill 2025 i fis Chwefror 2026.

## Prosiect Bae Caerdydd 2032

Mae prosiect Bae 32 yn canolbwyntio ar sicrhau anghenion llety hirdymor y Senedd y tu hwnt i ddiwedd prydles bresennol Tŷ Hywel yn 2032. O ran cwmpas, dyma'r prosiect mwyaf cymhleth y mae'r Comisiwn wedi ymgymryd ag ef. Mae'r prosiect wedi'i ategu gan ymrwymiad i sicrhau gwerth am arian am gronfeydd cyhoeddus, gan sicrhau bod anghenion llety'r Senedd yn y dyfodol yn cael eu diwallu.

Yn dilyn cymeradwyaeth y Comisiwn o'r Achos Amlinellol Strategol ym mis Rhagfyr 2023, nodwyd amrywiaeth o opsiynau llety. Mae'r rhain yn cynnwys adnewyddu a phrynu ein darpariaeth bresennol, Tŷ Hywel; adleoli i adeilad cyfagos ac adnewyddu un; neu ddatblygu adeilad newydd ar y tir gwag wrth ymyl y Senedd. Un o'r prif ofynion ar gyfer unrhyw opsiwn yw bod yn rhaid i'r llety fod wedi'i leoli wrth ymyl adeilad y Senedd, er mwyn amddiffyn cysylltiadau seilwaith hanfodol a sicrhau bod gofynion gweithredol a diogelwch yn parhau i gael eu bodloni.

Mae'r prosiect wedi symud ymlaen ac wedi cyflawni nifer o gerrig milltir arwyddocaol yn ystod 2024-25:

- Contractiwyd gwasanaethau ymgynghori ym mis Gorffennaf 2024 i ddatblygu dwy ddogfen allweddol: Gweledigaeth y Pencadlys a'r Crynodeb Meddiannaeth. Mae Gweledigaeth y Pencadlys yn diffinio'r cyfeiriad strategol ar gyfer pencadlys newydd y Senedd, gan ganolbwyntio ar greu amgylchedd gwaith modern, cynaliadwy ac effeithlon. Mae'r Crynodeb Meddiannaeth yn cynnig dadansoddiad manwl o anghenion llety yn y dyfodol, gan amlinellu'r gofynion penodol

ar gyfer gwahanol swyddogaethau o fewn adeilad Tŷ Hywel. Cafodd y dogfennau hyn eu llywio gan ymgynghoriad helaeth â grwpiau defnyddwyr rhanddeiliaid ac Aelodau o'r Senedd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion pob plaid dan sylw yn gywir. Roedd y dogfennau hyn yn allweddol yn natblygiad yr Achos Busnes Amlinellol.

- Ym mis Tachwedd 2024, cynhaliwyd adolygiad porth ffurfiol, annibynnol ar brosiect Bae 32 i asesu ei gynnydd, ei lywodraethiant a'i ddichonoldeb, gan sicrhau bod yr holl brosesau, strategaethau a rheolaethau angenrheidiol ar waith cyn symud i'r cyfnod caffael. Yn dilyn yr adolygiad, yr argymhelliad oedd bod y prosiect yn barod i symud ymlaen i'r cam caffael.

- Ym mis Rhagfyr 2024, cymeradwyodd y Comisiwn yr Achos Busnes Amlinellol — dogfen gynhwysfawr sy'n nodi ystyriaethau strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheoli'r prosiect. Cefnogwyd datblygiad yr Achos Busnes Amlinellol gan arbenigwyr allanol, yr oedd eu harbenigedd a'u profiad yn hanfodol wrth sicrhau cadernid, cywirdeb a chyflawnrwydd y ddogfen. Mae'r gymeradwyaeth hon yn gam allweddol ymlaen ac yn uchafbwynt gwaith ac ymgysylltiad helaeth â rhanddeiliaid ar draws y Senedd, gan sicrhau bod y prosiect yn cyd-fynd ag amcanion strategol y Comisiwn ac yn darparu gwerth am arian.

- Cymeradwyodd y Comisiwn ddechrau'r broses gaffael ym mis Ionawr 2025. Mae'r broses gaffael, a lansiwyd yn ffurfiol gyda chyhoeddi'r hysbysiad contract ddiwedd mis Ionawr 2025, yn cael ei chynnal drwy broses ddeialog gystadleuol. Mae'r dull hwn yn caniatáu trafodaethau manwl gyda darpar gynigwyr drwy gydol y broses i fireinio eu cynigion a sicrhau eu bod yn bodloni ein gofynion. Ar yr un pryd mae'n cynnal tensiwn cystadleuol i sicrhau'r gwerth gorau am arian a darparu llety sy'n diwallu anghenion hirdymor Comisiwn y Senedd.

Yn y flwyddyn nesaf, bydd prosiect Bae 32 yn canolbwyntio ar reoli a hwyluso'r cyfnod caffael, gan symud ymlaen drwy'r sesiynau deialog gystadleuol i nodi ateb a ffefrir. Unwaith y bydd ateb a ffefrir wedi'i nodi, bydd y prosiect yn symud i gyfnod gwneud penderfyniadau, lle bydd y Comisiwn yn ystyried y cynigion terfynol ac yn penderfynu ar y ffordd orau ymlaen.



## Prosiect Pobl a Thaliadau

Crëwyd y prosiect Pobl a Thaliadau cyn diwedd contract y system Adnoddau Dynol/y Gyflogres 'FiYw' a ddefnyddir gan y Comisiwn. Dyma'r system a ddefnyddiwyd i weinyddu'r gyflogres a rheoli cofnodion ar gyfer yr Aelodau, Staff Cymorth i'r Aelodau a staff y Comisiwn, yn ogystal â darparu'r system hunanwasanaeth gysylltiedig i weithwyr/rheolwyr.

Cynigiodd y prosiect gyfle i gyflawni'r canlynol:

- ystyried opsiynau ar gyfer prosesau mewnol Adnoddau Dynol/y Gyflogres mwy craff/symlach/mwy effeithlon;
- grymuso staff a rheolwyr i 'hunanwasanaethu' drwy system hunanwasanaeth Adnoddau Dynol, ac edrych ar well ymarferoldeb ar gyfer rhannu gwybodaeth; ac
- ymgorffori amrywiol systemau Adnoddau Dynol yn un system gyffredinol, lle'r oedd y rhain yn cael eu rheoli y tu allan i'r system o'r blaen (e.e. drwy MS Forms).

Cynhaliwyd ymarfer caffael yn hydref 2023, gyda'r cyflenwr newydd - Midland HR - yn cael y contract ym mis Chwefror 2024. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Adnoddau Dynol, Cymorth Busnes i'r Aelodau, Cyllid, Pensiynau, TG a'r Gwasanaeth



Cyfieithu wedi cydweithio mewn tîm prosiect i adolygu, adeiladu a gweithredu'r system 'iTrent' newydd gyda Midland HR. Roedd hyn yn cynnwys rhedeg y system bresennol a'r system gyflogres newydd ochr yn ochr â'i gilydd rhwng mis Hydref a mis Ionawr, er mwyn galluogi cymharu cyfrifiadau a sicrhau bod y system newydd yn bodloni ein gofynion yn llawn.

Mae'r system newydd yn darparu llawer o fanteision i weithwyr/defnyddwyr, rheolwyr a thimau Adnoddau Dynol/y Gyflogres. Un o'r prif fanteision yw cysylltu'r system Adnoddau Dynol newydd â'r system IT Active Directory. Mae hyn yn golygu llai o ymyrraeth â llaw sy'n caniatáu i adnoddau gael eu defnyddio mewn mannau eraill. Mae'r system Adnoddau Dynol yn gweithredu fel y system graidd sy'n bwydo'r system TG â gwybodaeth hanfodol am gyfrifon defnyddwyr newydd, gan gydamseru newidiadau a diweddariadau defnyddwyr sy'n symud o gwmpas y sefydliad, yn ogystal â'r rhai sy'n gadael.

Gellir cynnwys swyddogaethau newydd hefyd, megis cyflwyno modiwl hyblyg (a reolwyd gynt drwy daenlenni Excel a systemau lleol), adroddiadau rheoli gwell sy'n caniatáu i reolwyr weld a llunio cyfres o adroddiadau safonol eu hunain heb yr angen am ymyrraeth Adnoddau Dynol, a'r gallu i reoli hawliadau treuliau drwy'r system.

Bydd cyflwyno modiwlau dysgu ac adolygu, a gynlluniwyd i'w gweithredu yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r system.



## Ymrwymiad llesiant

Amcan Strategaeth Llesiant 2022-25 Comisiwn y Senedd yw diogelu, hyrwyddo a chefnogi gallu sefydliadol drwy sicrhau diwylliant mewn gweithle lle mae iechyd, diogelwch a llesiant yn cael eu hyrwyddo gan bawb; mae ein staff yn cael eu grymuso a'u galluogi i wneud dewisiadau sy'n eu helpu i fyw'n dda a gweithio'n dda.

Yn hydref 2024, lansiodd y Comisiwn ei Ymrwymiad Llesiant, agwedd allweddol ar y Strategaeth Llesiant. Mae'r Ymrwymiad yn amlinellu sut mae Comisiwn y Senedd yn hyrwyddo gweithle cefnogol a chynhyrchiol lle gall pawb ffynnu, drwy nodi disgwyliadau rheolwyr a staff yn erbyn amcan y strategaeth Llesiant.

Lansiwyd yr Ymrwymiad mewn cyfarfod arbennig i'r holl staff, a oedd yn canolbwyntio ar lesiant staff. Cynhaliwyd y cyfarfod gan Andrew Tamplin, sylfaenydd Canna, cwmni sy'n ymroddedig i weithio gyda sefydliadau i wella llesiant yn y gweithle. Siaradodd Andrew am ei daith llesiant ei hun a rhoddodd fewnwelediad ac arweiniad i staff ar sut i ddiogelu eu llesiant eu hunain yn y gwaith er budd eu bywyd personol. Cynhaliwyd trafodaeth banel gydag aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth ynghylch pam mae llesiant yn bwysig iddynt a'r hyn y maent yn ei wneud i gefnogi eu llesiant, yn y gwaith ac yn eu bywyd personol.

Mae is-grŵp llesiant wedi'i ffurfio i weithredu'r gwaith sydd ei angen i gefnogi'r Ymrwymiad, ac mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi ymrwymo i gynnwys pedair sesiwn hyfforddi ar lesiant bob blwyddyn fel rhan o'r amserlen o gyfarfodydd. Y cyntaf oedd sesiwn ymwybyddiaeth iechyd meddwl a gynhaliwyd gan Amser i Newid Cymru ym mis Hydref 2024; nod yr ail sesiwn, a gynhaliwyd gan Endometriosis UK ym mis Mawrth 2025, oedd codi ymwybyddiaeth o endometriosis.

Mae cynlluniau ar y gweill i greu pecyn o hyfforddiant llesiant i'r holl staff i ategu'r addewidion a nodir yn yr Ymrwymiad a sicrhau bod gan reolwyr yr adnoddau i gefnogi llesiant staff.

## Ymgynghori/datblygu'r Strategaeth Pobl a Diwylliant

Yn 2024-25, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ddatblygu Strategaeth Pobl a Diwylliant newydd ar gyfer y cyfnod 2025-2028. Mae'r prif ffactorau a ystyriwyd yn cynnwys Diwygio'r Senedd, canlyniadau'r arolwg pobl a llesiant, mewnwelediadau o'n data gweithlu a gweithgareddau cynllunio gwasanaethau a chyllidebau. Gwnaed meincnodi hefyd gyda seneddau a sefydliadau eraill y sector cyhoeddus.

Mae'r Strategaeth yn rhan o drefniadau llywodraethu corfforaethol a chynllunio Comisiwn y Senedd, gan dynnu strategaethau presennol a ffrydiau gwaith perthnasol ynghyd.Mae'n nodi gweledigaeth glir ar gyfer yr hyn y byddwn yn ceisio'i gyflawni drwy weithredu'r strategaeth, a sut mae'n cyd-fynd â gwerthoedd ein sefydliad. Mae'n nodi chwe amcan strategol, gyda chynllun gweithredu clir a mesuradwy ynghylch sut y bydd y rhain yn cael eu cyflawni.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i gynnwys y sefydliad cyfan yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â Grŵp Llywio'r Gweithlu, yr Undebau Llafur, rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle, y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant, cynghorwyr annibynnol, y Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Arweinyddiaeth. Mae'r holl staff wedi gallu cyfrannu adborth drwy drafodaeth yn eu cyfarfodydd gwasanaeth, a thrwy ffurflen arolwg ar-lein.

Ar ôl ei gyhoeddi, bydd y Bwrdd Gweithredol yn monitro cyflawniad y cynllun gweithredu, a bydd metrigau pobl allweddol yn cael eu halinio â'r Strategaeth.

## Grwpiau Llywio y Gweithlu, Amrywiaeth a Chynhwysiant

### Grŵp Llywio'r Gweithlu

Mae Grŵp Llywio'r Gweithlu yn darparu trosolwg strategol o flaenoriaethau gweithlu'r Comisiwn i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweithgareddau a nodwyd o Ffyrdd o Weithio a Diwygio'r Senedd a helpu i lunio'r map trywydd i wireddu gweledigaeth y Strategaeth Ffyrdd o Weithio.

Mae Grŵp Llywio'r Gweithlu

- yn darparu cyfeiriad strategol a sicrwydd i'r bwrdd mewn perthynas â holl faterion y gweithlu ac yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni Strategaeth Pobl y Comisiwn;

- yn cefnogi datblygiad y gweithlu i sicrhau bod gan y Comisiwn staff sydd â'r sgiliau, y cymwyseddau a'r wybodaeth i ddarparu cymorth a gwasanaethau effeithiol i'r Senedd;
- yn sicrhau bod amgylchedd gwaith cadarnhaol ar gyfer staff sy'n hyrwyddo diwylliant agored sy'n cefnogi gwerthoedd y Comisiwn;
- yn sicrhau bod iechyd a llesiant aelodau ein tîm yn parhau i gael eu cefnogi fel blaenoriaeth gan y Comisiwn;
- yn gwneud argymhellion, fel y bo'n briodol, ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu.

Ers ei sefydlu, mae Grŵp Llywio'r Gweithlu wedi cyfrannu at ddrafft newydd Strategaeth Pobl y Comisiwn, wedi trafod blaenoriaethau cynllunio'r gweithlu ac wedi cynnal dadansoddiad PESTLE i ddeall yn well y ffactorau allanol sy'n effeithio ar y Comisiwn.

## Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant

Ers ei gyfarfod cyntaf ym mis Chwefror 2024, mae'r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi bod yn amhrisiadwy wrth feithrin gweithle cynhwysol a blaengar. Drwy ymgorffori amrywiaeth a chynhwysiant yng nghyfeiriad strategol y sefydliad, mae'r Grŵp wedi cefnogi llwyddiant hirdymor senedd gref, hygyrch a chynrychioliadol sy'n cyflawni'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Mae'r Grŵp wedi cyfrannu'n weithredol at wella aliniad a chydlyniant ar draws gweithgareddau amrywiaeth a chynhwysiant y Comisiwn. Mae meysydd allweddol o effaith yn cynnwys y canlynol:

- Rhaglen Interniaeth Ymlaen – darparu mewnbwn i sicrhau hygyrchedd a chyfleoedd datblygu ystyrlon;
- Wythnos Cynhwysiant (Medi 2024) – llunio'r themâu a'r meysydd ffocws i feithrin ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth; a
- digwyddiadau calendr amrywiaeth – cefnogi'r syniad o nodi dyddiadau allweddol o ran amrywiaeth a chynhwysiant i ddathlu ac addysgu.

Un o brif swyddogaethau'r Grŵp fu sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn parhau i fod yn rhan annatod o brosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau Comisiwn y Senedd. Mae'r Grŵp wedi cyflawni hyn drwy gymryd y camau a ganlyn:

- cyfrannu at adroddiadau busnes-fel-arfer a gyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol, gan sicrhau bod ystyriaethau amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u hymgorffori;
- goruchwylio cynnydd ar y strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant a darparu atebolrwydd ar amcanion rhagorol;
- darparu mewnwelediad ac argymhellion ar gyfer y strategaeth ddrafft Pobl a Diwylliant 2025-2028 i sicrhau bod cynhwysiant yn parhau i fod yn flaenllaw; a
- sefydlu Is-grŵp Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n ymroddedig i wella cyfathrebu ac ymgysylltu â chymunedau amrywiol, gan helpu i yrru ymgyrchoedd ac ymdrechion allgymorth mwy cynhwysol.

Ni fyddai dim o'r cynnydd hwn wedi bod yn bosibl heb ymroddiad ac arbenigedd cyfranwyr, gan gynnwys y canlynol:

- y Cadeirydd, ac uwch-arweinydd sydd wedi darparu arweiniad strategol;
- y cynghorydd annibynnol, sy'n cynnig her ac arbenigedd allanol; a
- chynrychiolwyr o Rwydweithiau Cydraddoldeb y Gweithle, Adnoddau Dynol, ac Undebau Llafur, gan sicrhau bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu clywed ac y gweithredir arnynt.

Drwy eu profiadau bywyd. Mae aelodau’r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi helpu i lunio polisïau ac arferion sy’n adlewyrchu gwerthoedd cynhwysiant a thegwch. Mae eu cyfraniadau wedi bod yn allweddol wrth sbarduno newid ystyrlon, a dyma edrych ymlaen at adeiladu ar y momentwm hwn yn y flwyddyn nesaf.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae'r Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2024-2025 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y gwaith y mae Comisiwn y Senedd wedi'i wneud i ddathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant fel senedd ac fel cyflogwr. Ategir hyn gan adroddiad cysylltiedig ar gyfer data amrywiaeth y gweithlu a recriwtio, archwiliad cyflog cyfartal, data am y bwlch cyflog o ran ethnigrwydd, rhywedd ac anabledd. Mae'r adroddiadau hyn ar gael drwy wefan Comisiwn y Senedd.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi cymryd y camau a ganlyn:

- cael ein cydnabod fel un o'r 30 Cyflogwr Gorau ar gyfer Teuluoedd sy'n Gweithio ac fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, ac wedi ymuno â'r siarter Dying to Work;
- cyflwyno cyfres o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i ddathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'n cydweithwyr o Gynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban a'r Oireachtas i gynnig cyfres rithwir o gyflwyniadau, digwyddiadau a chyfleoedd dysgu ar gyfer Wythnos Dysgu yn y Gwaith, Mis Cynhwysiant a Mis Hanes LHDTC+.  Mae hyfforddiant arall a gyflwynir yn cynnwys Amrywiaeth Ddiwylliannol; Gwasanaeth Cwsmeriaid Cynhwysol; Hiliaeth Sefydliadol; Iaith, Cyfathrebu a Mannau sy'n gadarnhaol

### Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle

**EMBRACE**
Ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle i bobl anabl

**INSPIRE**
Ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle i fenywod

**ENGAGE**
Ein Rhwydwaith ymgysylltu â'r holl staff

**MINDFUL**
Ein Rhwydwaith Cefnogi Iechyd Meddwl

o ran niwroamrywiaeth; ac Ymwybyddiaeth o Endometriosis;

- datblygu ein rhwydwaith gweithle ENGAGE i alluogi ein holl staff i gymryd rhan yn y broses o siapio eu profiad gwaith, ac i rannu a dathlu syniadau i sbarduno newid cadarnhaol a chreu diwylliant o berthyn yn unol â'n gwerth corfforaethol o fod yn UN TÎM;
- cyflwyno ein rhwydwaith symudedd cymdeithasol, RISE, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau mewn perthynas â symudedd cymdeithasol a chefndir economaidd-gymdeithasol;
- cefnogi gwaith parhaus ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle sydd wedi parhau i ddarparu cymorth cymheiriaid a chyngor ar gynhwysiant. Mae'r rhwydweithiau yn helpu'r Comisiwn i gyflawni diwylliant gwaith cynhwysol sy'n cefnogi ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth y rhai sy'n gweithio ar yr ystad, a lle mae pobl yn gallu teimlo'n gyfforddus, yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi;
- adolygu ein cyrsiau mewnol drwy lens cynhwysiant ac rydym yn gweithio tuag at gael pob un o'n cyrsiau mewnol wedi'u hachredu gan DPP (Datblygiad Proffesiynol Parhaus). Mae'r broses hon yn cynnwys sicrhau bod ein cyrsiau'n hygyrch, yn gynrychioliadol ac yn cefnogi anghenion amrywiol ein gweithlu. Drwy ymgorffori cynhwysiant mewn datblygiad

**PLWS**
Ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle i bobl LHDTC+

**RISE**
Ein Rhwydwaith Symudedd Cymdeithasol

**REACH**
Ein Rhwydwaith Hil, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol

**TEULU**
Ein Rhwydwaith Gofalwyr a Rhieni sy'n Gweithio

proffesiynol, rydym yn meithrin amgylchedd dysgu lle gall pob cydweithiwr ffynnu;

- croesawu ein trydedd carfan o interniaid YMLAEN. Mae ein rhaglen YMLAEN wedi bod yn gydweithrediad arall gyda Chymrodoriaeth Windsor, sydd wedi ein galluogi i estyn allan, hysbysebu ac ymgysylltu'n effeithiol ag amrywiaeth eang o ymgeiswyr talentog ledled Cymru. Mae'r cynllun yn darparu cyfleoedd interniaeth â thâl i bedwar unigolyn i weithio mewn timau ar draws Comisiwn y Senedd;
- adolygu ein cynnydd drwy arolygon staff, gan gynnwys ein harolwg Pobl rheolaidd, ein harolwg Iechyd a Llesiant a'n harolwg Urddas a Pharch;
- hyrwyddo cynhwysiant yn ystod y broses recriwtio drwy adolygu ein polisi recriwtio i'w alinio â'n cynllun gweithlu a'n Strategaeth Pobl a Diwylliant; datblygu modiwl hyfforddiant recriwtio cynhwysol a chanllawiau rheolwr cyflogi cysylltiedig; adolygu canllawiau ymgeiswyr i ddarparu eglurder ar brosesau ac i roi sicrwydd i ymgeiswyr anabl ynghylch yr addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud drwy gydol y broses recriwtio; ac wedi adnewyddu elfennau o'n tudalennau gwe ar recriwtio;
- absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb cyd-rieni/tadolaeth gwell i'n staff;
- parhau i wneud gwelliannau i'n

## Gwobrau ac achrediadau

hystad i gynyddu hygyrchedd;

- croesawu aelod o drydedd Senedd Ieuenctid Cymru, gyda chynrychiolwyr o bob rhan o Gymru ac o ystod amrywiol o sefydliadau cynhwysol;
- cynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd sy'n dathlu amrywiaeth a chynhwysiant yng Nghymru, gan gynnwys carnifal Butetown, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, Dydd Gŵyl Dewi, Pride Cymru, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, croesawu Olympiaid a Pharalympiaid Cymru gartref a Mis Hanes Pobl Dduon;
- croesawu sefydliadau o bob cwr o Gymru i'r Senedd fel rhan o'n marchnad fisol, sef Y Farchnad;
- cefnogi iechyd a llesiant ein staff drwy weithrediad parhaus ein Strategaeth Llesiant, drwy gynnal sesiynau ymwybyddiaeth, diweddaru ein polisi Offer Sgrin Arddangos, hyrwyddo ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr a'n gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol, llunio cylchlythyr llesiant rheolaidd a datblygu Cynlluniau Gweithredu Llesiant ar gyfer gwahanol feysydd gwasanaeth ar draws Comisiwn y Senedd.
- cynhyrchu Ymrwymiad Llesiant sy'n amlinellu sut rydym yn hyrwyddo gweithle cefnogol a chynhyrchiol, drwy nodi disgwyliadau rheolwyr a staff yn erbyn amcanion y Strategaeth Llesiant.

## Cynaliadwyedd

Eleni, rydym yn adrodd bod ein hôl troed carbon craidd - un o'n Dangosyddion Perfformiad Allweddol - uwchlaw’r targed am y tro cyntaf.  Roedd y targed blynyddol sy'n lleihau'n barhaus tuag at y nod ar gyfer 2030 a osodwyd gennym i ni ein hunain yn ein strategaeth carbon niwtral, Goodbye Carbon, bob amser yn mynd i fynd yn fwy anodd ei gyrraedd.  Eleni, gydag addasiadau i sicrhau bod pawb ar ein hystad mor gyfforddus â phosibl, ac mewn cyfnod pan fo'r ystad ychydig yn brysurach na'r llynedd, rydym wedi gweld cynnydd yn y galw am wresogi.  Rydym hefyd wedi gweld cynnydd mewn teithio - gan yr Aelodau, eu staff a staff y Comisiwn.  Mae rhywfaint o hyn wedi bod dramor ac mae'r allyriadau hedfan sy'n deillio o hyn wedi effeithio ar ein hôl troed carbon.

Rydym yn parhau i geisio mesurau effeithlonrwydd pellach, ar ben yr ymyriadau helaeth a gymerwyd yn y blynyddoedd blaenorol, i dargedu cynnydd tuag at ein nod.  Yn dilyn gostyngiad mewn gwaith cyfalaf y llynedd oherwydd pwysau ar gyllid, eleni rydym wedi gallu cynnal rhai, gan gynnwys disodli oherwydd cylch oes gyda thechnoleg fwy effeithlon, a disodli mwy o oleuadau gydag unedau LED.  Mae rhai gwelliannau wedi'u gwneud mewn rhannau o'n hôl troed carbon; rydym yn gweld ffigur trydan ychydig ganrannau yn is na'r llynedd, tra bod cynnydd bach yn y defnydd o'r ystad gan yr holl randdeiliad.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i gynllunio ymlaen llaw; gan ystyried prosiectau ailosod oherwydd cylch oes pellach ochr yn ochr â phwyntiau penderfynu allweddol ym mhrosiect Bae 32, yn ogystal ag opsiynau i leihau'r allyriadau teithio hynny.

Mae'r ôl troed carbon rydym yn ei gyfrifo nawr yn cynnwys allyriadau cwmpas 3 ehangach, ond byddwn yn parhau i adrodd ar ein hôl troed carbon craidd yn yr adroddiad hwn er mwyn cysondeb.  Rydym hefyd yn cyhoeddi ystod eang o fetrigau eraill, gan gynnwys ffigurau ariannol, sydd i gyd wedi'u cynnwys yn y tablau data a ganlyn.  Cyhoeddir rhagor o wybodaeth yn y prif Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd, sydd ar gael ar wahân ar ein gwefan.

Rydym yn parhau i weithredu system reoli wedi'i hardystio'n amgylcheddol sy'n cynnwys archwiliad blynyddol gan gorff a achredir gan UKAS yn ôl gofynion ISO14001.

## Carbon

Mae ein hôl troed carbon wedi cynyddu eleni. Cododd allyriadau Cwmpas 1 - yn bennaf defnydd nwy ar yr ystad - ychydig, ond mae'n debyg iawn i ddwy flynedd yn ôl ac yn adlewyrchu'r ddarpariaeth wresogi oedd gennym ar y pryd. Y llynedd, o ystyried y prisiau uned sylweddol uwch yr oeddem yn eu talu, bu'n rhaid inni wneud toriadau i wresogi yn benodol. Yn dilyn adborth gan randdeiliaid ac ystad ychydig yn brysurach, cafodd rhai o'r mesurau hynny eu llacio ychydig, ond nid ydynt ar yr un lefelau â thair neu bedair o flynyddoedd yn ôl.

Rydym wedi dal i allu dangos gostyngiad ariannol da er gwaethaf gaeaf oerach na'r llynedd - tua 10% yn ôl y data Diwrnodau Gradd. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i'r rhwydwaith gwres sy'n cael ei adeiladu o amgylch Caerdydd, a fydd yn dod â gwres carbon is inni o ffynhonnell leol.

Mae teithio yn elfen arall o'n hôl troed carbon sydd wedi cynyddu eleni. Drwy gydol y cylch etholiadol gwelwn gylchred mewn hawliadau teithio ac efallai mai dyma un achos dros fwy o weithgarwch eleni. Rydym hefyd wedi parhau â'n gwaith cydweithredol â seneddau eraill dramor, ac mae rhywfaint o'r gwaith hwnnw wedi golygu hedfan i greu'r cysylltiadau wyneb yn wyneb hynny. Mae'r ffactorau hyn gyda'i gilydd wedi cael effaith sylweddol ar ein hôl troed carbon. Rydym yn parhau i hyrwyddo opsiynau teithio carbon isel ac iach lle bynnag y bo modd a byddwn yn targedu allyriadau teithio dros y flwyddyn nesaf gyda'r nod o ostwng y ffigur hwnnw.

Mae ein gwaith ar allyriadau Cwmpas 3 yn parhau o ddifrif. Rydym yn gweithio gyda'n cyflenwyr i sicrhau bod ein data mor gywir â phosibl ac i'n helpu ni i chwilio am arbedion. Rydym bellach yn cynnwys cwestiynau data carbon fel mater o drefn yn ein hymarferion caffael gyda chyflenwyr ac yn edrych ymlaen at gael data gwell er mwyn gwneud penderfyniadau prynu sy'n fwy ymwybodol o ran carbon, yn y dyfodol. Gellir gweld mwy am y gwaith hwn yn ein prif Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd.

## Ynni

Y llynedd gwnaethom adrodd am gynnydd sylweddol mewn costau ynni, o ystyried yr anwadalrwydd yn y farchnad fyd-eang. Eleni mae ein prisiau wedi gostwng, ac mae rhai o'r mesurau a gymerwyd gennym i leihau'r defnydd o nwy yn sylweddol wedi cael eu llacio ychydig. Roedd hyn mewn ymateb i gynnydd yn y defnydd o'r ystad ac adborth gan randdeiliaid. Mae hyn wedi golygu bod y

defnydd o nwy wedi cynyddu ychydig eleni, ond roedd modd torri ein gwariant o hyd.

Mae'r defnydd o drydan yn rhywbeth rydym yn parhau i'w dargedu; yn chwilio am fesurau effeithlonrwydd ar draws yr ystad.  Mae ein tîm yn cyfarfod yn fisol i drafod defnydd a chynnig mesurau lleihau mewn ymgais barhaus i leihau'r rhan fwyaf hon o'n hôl troed carbon craidd.

Mae'r mesurau rydym wedi'u rhoi ar waith eleni i leihau'r defnydd o ynni ar yr ystad yn cynnwys uwchraddio goleuadau LED sy'n weddill yn Nhŷ Hywel, camerâu teledu cylch cyfyng mwy effeithlon, ac astudiaethau dichonoldeb ar gyfer unedau trin aer (AHUs) newydd a system rheoli adeiladau (BMS) newydd a fydd ill dau yn lleihau'r defnydd. Mae bron pob un o'n mannau swyddfa bellach yn rhedeg ar unedau LED, sy'n golygu ychydig llai o waith cynnal a chadw yn ogystal ag arbedion trydan.

Rydym yn parhau i brynu ein hynni drwy fframwaith y llywodraeth, a bellach yn gwneud hynny dros ffenestr brynu hir.  Mae hyn yn cynnig arbedion maint gan ein bod yn prynu ochr yn ochr â llawer o weddill y sector cyhoeddus, ac mae'r strategaeth brynu yn llyfnhau amrywiadau yn y farchnad; gan ganiatáu inni ragweld gwariant yn fwy cywir.

## Dŵr, gwastraff ac adnoddau eraill

Mae swm y gwastraff a gynhyrchir wedi codi eleni - unwaith eto yn adlewyrchiad o'r defnydd cynyddol o'r ystad.  Er ein bod yn parhau i beidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi, rydym yn ymwybodol o'r angen i ailgylchu cymaint â phosibl a dim ond defnyddio'r opsiwn adfer ynni lle bo angen.  Gyda newid yn y gofynion ar gyfer ailgylchu yn y gweithle yn gynnar yn 2024 a phrinder cynwysyddion gwastraff ar gael yn y farchnad i ddarparu ar gyfer y newid, gostyngodd ein ffigurau ailgylchu i ddechrau fel canran o'r cynhyrchiad cyffredinol.

Dros y flwyddyn nesaf, yn enwedig wrth inni wneud newidiadau i'n hystad i baratoi ar gyfer y Senedd sy'n newid, byddwn yn adolygu argaeledd a ymwybyddiaeth biniau ailgylchu o amgylch ein hadeiladau eto ac yn annog yr Aelodau, staff ac ymwelwyr i ailgylchu cymaint â phosibl.

Roedd y defnydd o ddŵr yn debyg iawn i'r llynedd - tua 10% yn llai yn ôl ein darlleniadau mesurydd â llaw, er bod gennym niferoedd tebyg o ymwelwyr a chynnydd bach yn nifer y staff a oedd yn defnyddio'r swyddfeydd.  Mae costau cyflenwi a gwaredu dŵr wedi gostwng swm tebyg.  Lle mae gosodiadau newydd

wedi'u gosod, mae'r rhain bellach yn arbed dŵr yn ddiofyn, gan gynnwys tapiau awtomatig ac wrinalau sydd â synhwyrydd symudiad.

Rydym yn parhau i gaffael nwyddau fel deunydd ysgrifennu a'n cyfleustodau drwy fframweithiau Llywodraeth Cymru a gyd-gysylltir yn ganolog.  Mae staff cynaliadwyedd yn ymwneud â datblygu manylebau ac adolygiadau tendro ar gyfer pob contract mawr, gan sicrhau bod safonau fel Masnach Deg a'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) yn cael eu pennu lle y bo'n berthnasol.  Rydym yn parhau i ofyn i gyflenwyr newydd gyfrifo ôl troed carbon nwyddau lle bo modd, er mwyn ein helpu i gyfrifo ein hôl troed ein hunain yn fwy cywir.

## Teithio

Rydym yn gweithredu un car at ddefnydd pawb, ar gyfer teithiau busnes a gweithgareddau ymgysylltu.  Mae hwn yn gerbyd cwbl drydanol sydd nid yn unig yn lleihau allyriadau yn yr ardaloedd yr ydym yn ymweld â hwy, ond sydd hefyd yn hyrwyddo'r dechnoleg hon.

Mae cerbydau trydan yn parhau i dyfu o ran poblogrwydd ymhlith ein staff, ymwelwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill.  Mae'r pwyntiau gwefru sydd gennym ar y safle yn aml yn llawn ar ddiwrnodau busnes.  Mae'r cynllun aberthu cyflog ar gyfer cerbydau trydan yr ydym yn parhau i'w weithredu yn un ffynhonnell y cerbydau hyn.   Mae hyn yn helpu i hyrwyddo'r arbedion ariannol y gall cerbyd allyriadau isel iawn eu dwyn, nid yn unig i'n staff, ond yn enwedig i'r Aelodau, y mae eu teithio o amgylch eu hetholaethau yn gallu cael ei wneud mor lân ac effeithlon â phosibl.

Rydym yn parhau i gefnogi gweithio hybrid ac mae gennym systemau TG helaeth ar waith i wneud hynny, o ystafelloedd cyfarfodydd hybrid i dechnoleg cyfarfodydd rhithwir sy'n gwella'n barhaus.  Eleni, fodd bynnag, rydym wedi gweld cynnydd mewn teithio, cyfanswm y milltiroedd a, phan gyflwynir hawliadau terfynol diwedd y flwyddyn, rydym yn disgwyl costau hefyd.  Fel y soniwyd, rydym wedi gweld hyn mewn cylchoedd etholiad blaenorol wrth i ymgysylltiad wyneb yn wyneb gynyddu, ond byddwn yn anelu at leihau lle bo modd.

Rydym yn parhau i fod yn aelod o grŵp y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer teithio llesol, ac wedi cyflawni nod siarter y Cyflogwr Teithio Iach.  Mae hyn yn adlewyrchu ein cyfleusterau helaeth ar gyfer y rhai sy'n cerdded ac yn beicio i'r gwaith, yn ogystal â chyfleusterau ar gyfer gyrwyr cerbydau trydan a defnyddwyr e-feiciau.  Mae bod yn rhan o'r grŵp hwn hefyd yn helpu i gynnal momentwm

wrth inni rannu arfer gorau yn y maes hwn gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

## Bioamrywiaeth

Gyda'n hystad fach drefol, rydym wedi ein cyfyngu gan yr effaith y gallwn ei chael ar fioamrywiaeth ehangach yr ardal, ond nid yw hyn wedi ein hatal rhag gwneud gwelliannau lle bynnag y bo modd. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau ffisegol o amgylch yr adeiladau ac wrth gaffael; gwneud penderfyniadau cyfrifol ynghylch cyrchu deunyddiau crai - gan nodi opsiynau fel pren Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC).

Ar yr ystad, er bod lle cyfyngedig, rydym yn parhau i hyrwyddo amrywiaeth o gynefinoedd i annog bioamrywiaeth. Mae ein stribed gardd estynedig yn ffynnu ac yn llawn planhigion sy'n gyfeillgar i beillwyr, ynghyd â dau bwll bach a choed ffrwythau sy'n blodeuo ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn cynnal y tir wrth ymyl adeilad y Senedd; mae lleihau toriadau o'r ardal laswelltir hon i ymyriadau blynyddol wedi caniatáu iddi gynhyrchu ystod eang o fflora, gan gynnwys dau fath o degeirianau. O ganlyniad i hyn, mae'r stribed blodau gwyllt yn denu amrywiaeth o bryfed, gan gynnwys pryfed mursen a gloÿnnod byw.

Mae gan ardal y gwestai pryfed foncyffion coed Nadolig gwerth sawl blwyddyn mewn gwahanol gyflyrau o bydredd, gyda thyllau ychwanegol wedi'u drilio i mewn i gynnal pryfed sy'n nythu. Mae'r gwestai bach eu hunain, wedi'u lleoli ar y wal sy'n wynebu'r de uwchben y pentwr o foncyffion, yn boblogaidd iawn gyda gwenyn unigol ac yn ddiddorol i'w gwylio!

Mae ein gwenyn mêl hefyd yn gwneud yn dda, er gwaethaf blwyddyn anodd iddynt yn 2024. Ledled y DU, roedd tywydd gwael yn golygu bod gwenyn wedi dioddef o gyfnod oer hir gaeaf 2023-24 a oedd yn dymor tyfu anodd i blanhigion blodeuol ar y pryd. Yn anffodus, collon ni un gytref y gaeaf hwnnw, ond yna gwnaethom ennill un arall ddechrau'r haf - gwenyn a oedd yn awyddus i fanteisio ar gwch gwag. Gyda swm y mêl a gynhyrchwyd i lawr, gwnaethom benderfynu peidio â thynnu unrhyw fêl o'r wenynfa'r hydref diwethaf am y tro cyntaf. Rydym yn gobeithio y bydd y gwanwyn cynnes eleni yn arwydd o bethau i ddod a bod modd i Wenyn y Pierhead gael blwyddyn fêl brysur unwaith eto.

Er na ellir eu cymharu ag ystadau mwy yn y sector cyhoeddus a'r rhai sy'n cynnal a chadw mannau cyhoeddus, rydym wedi bod yn arolygu effaith ein hymyriadau bioamrywiaeth ar ystad Bae Caerdydd a byddwn yn cyhoeddi'r rhain yn ein prif Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd.

## Effeithiau eraill

Er bod cylch dylanwad ein Haelodau yn cwmpasu agweddau amrywiol ar fywyd yng Nghymru, mae gweithrediadau Comisiwn y Senedd yn gymharol gyfyngedig i'n hadeiladau ym Mae Caerdydd a swyddfa fach yng ngogledd Cymru. Nid ystyrir bod y safleoedd hyn mewn perygl uniongyrchol oherwydd effeithiau newid hinsawdd, gyda Bae Caerdydd yn cael ei warchod i ryw raddau gan Forglawdd Bae Caerdydd. Serch hynny, mae ein Strategaeth Carbon Niwtral yn ymgorffori mesurau fel systemau ffotofoltäig solar i ddarparu diogelwch ychwanegol yn erbyn ansicrwydd yn y dyfodol.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn bwriadu dechrau rhywfaint o waith i ailosod y system rheoli adeiladau (BMS) yn adeilad y Senedd fel rhan o'n rhaglen ailosod oherwydd cylch oes. Bydd y feddalwedd newydd yn gwella'r data monitro y gallwn eu cynhyrchu ac yn helpu i leihau'r defnydd o ynni.

Rydym yn parhau i weithredu system o Asesiad Effaith Cynaliadwyedd ar gyfer prosiectau a chontractau newydd a byddwn yn gwella hyn dros y flwyddyn nesaf gyda hyfforddiant carbon i staff sy'n cyd-fynd â'r broses asesu hon. Un gwelliant caffael bach rydym wedi'i wneud eleni yw newid y byrddau ewyn plastig a ddefnyddir ar gyfer argraffu arwyddion a deunyddiau cyhoeddusrwydd i ddewis arall sy'n seiliedig ar gardiau. Bydd llwyddiant gyda'r treialon cychwynnol yn golygu y bydd ymwelwyr â'n digwyddiadau dros yr haf yn debygol o weld yr arwyddion cwbl ailgylchadwy hyn yn cael eu defnyddio.

| **Nwyon Tŷ Gwydr Allyriadau[4,5,6]** | | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO2e) | Cyfanswm yr allyriadau gros - cwmpas 1 | 234 | 252 | 211 | 183 | 210 |
| | Cyfanswm yr allyriadau gros - cwmpas 2 | 438 | 465 | 431 | 435 | 352 |
| | Cyfanswm yr allyriadau gros - cwmpas 3 | 96 | 156 | 217 | 199 | 191 |
| | Cyfanswm yr allyriadau y tu hwnt i'r cwmpas | 4.8 | 4.3 | 4.1 | 5.6 | 5.9 |
| | Cyfanswm yr allyriadau gros | 752 | 858 | 836 | 857 | 903 |
| | Cyfanswm yr allyriadau net | 748 | 849 | 837 | 851 | 897 |
| Gwariant ar wrthbwysiadau ardystiedig (e.e. Cronfa Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth) | | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant gros yng nghyswllt yr Ymrwymiad i Leihau Allyriadau Carbon | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A |

[4] Mae'r holl ddata ynni bellach yn cynnwys allyriadau trawsyrru a dosbarthu presennol ac ôl-weithredol ac allyriadau ffynnon-i'r-tanc lle bo hynny'n berthnasol.
[5] Mae'r holl ddata teithio bellach yn cynnwys allyriadau presennol ac ôl-weithredol ffynnon i'r tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.
[6] Eithriwyd teithio Aelodau o'r Senedd a'r Staff Cymorth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2025 oherwydd oedi wrth adrodd.  Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

| **Y defnydd o ynni[4]** | | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (kwh) | Trydan (tariff adnewyddadwy o 2018) | 1,944,436 | 2,179,254 | 2,209,985 | 2,109,437 | 2,029,970 |
| | Nwy | 1,282,969 | 1,352,857 | 1,083,181 | 1,020,916 | 1,149,889 |
| | Biomas (adnewyddadwy) | 285,215 | 275,885 | 391,500 | 522,000 | 548,100 |
| | Galw am wres cyfun | 1,568,184 | 1,628,742 | 1,200,812 | 1,548,040 | 1,697,989 |
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO2e) | Cyfanswm yr allyriadau ynni | 734 | 800 | 701 | 686 | 634 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Cyfanswm y gwariant ar ynni | 406,650 | 424,857 | 437,974 | 1,195,034 | 935,669 |

| **Y defnydd o ddŵr** | | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (m3) | *1,642* | 2,326 | 4,408 | 4,227 | 3,759 | 3,684 |
| | *141* | 231 | 469 | 761 | 514 | 761 |
| | *0* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dangosyddion ariannol (£) | *10,499* | 11,387 | 16,832 | 15,705 | 14,237 | 15,705 |

| **Gwastraff** | | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tunelli) | Cyfanswm y gwastraff | 59 | 50 | 63 | 63 | 79 |
| | Wedi'i ailgylchu/ Adfer | 59 | 49 | 63 | 62 | 79 |
| | Adfer ynni | 41 | 23 | 27 | 21 | 31 |
| | Tirlenwi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwastraff wedi'i gompostio | 2.4 | 1.9 | 6.1 | 7.3 | 9 |
| | Gwastraff peryglus | 0.02 | 0.14 | 0.37 | 0.18 | 0.41 |
| | Papur a brynwyd (cyfateb i filiwn o dudalennau A4) | 0.86 | 0.65 | 1.97 | 2.05 | 1.97 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant ar waredu gwastraff | 5,445 | 15,206 | 25,199 | 19,961 | 13,495 |

| Teithio swyddogol[5,6] | | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (milltiroedd) | Teithio ar gyfer busnes | 70,112 | 184,005 | 503,784 | 597,583 | 680,395 |
| | Cerbydau y mae'r Cynulliad yn berchen arnynt, a cherbydau wedi'u llogi | 913 | 4,153 | 5,138 | 5,869 | 4,636 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant ar deithio ar fusnes swyddogol | 31,999 | 88,140 | 202,878 | 245,774 | 221,588 |

Mae'r wybodaeth uchod wedi'i datblygu ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol â Chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi ynghylch Cyflwyno Adroddiadau ar Gynaliadwyedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.  Rydym hefyd yn defnyddio ffactorau trosi DEFRA ar gyfer 2024 ar gyfer ffigurau cyfwerth carbon deuocsid (CO2e). Mae CO2e yn uned fesur gyffredinol sy'n ei gwneud yn bosibl cymharu potensial cynhesu byd-eang nwyon tŷ gwydr gwahanol.

Caiff allyriadau eu nodi ar sail rheolaeth ariannol ac maent yn berthnasol i’r ystad weinyddol graidd yn unig.

Mae crynodeb llawn o’n perfformiad amgylcheddol ar gael yn Adroddiad Blynyddol Cynaliadwyedd y Senedd, sydd ar gael ar y wefan.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 4 Gorffennaf 2025**

**Dydd Gŵyl Dewi 2025**
Cafwyd diwrnod llawn hwyl i'r teulu, perfformiadau, a gweithgareddau yn y Senedd



# Atebolrwydd



# Llywodraethu Corfforaethol

Mae’r adroddiad hwn, sydd wedi’i lofnodi gan y Prif Weithredwr a’r Clerc a hynny fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â rheolau’r Trysorlys, yn cynnwys gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr a’r drefn archwilio.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Y Comisiynwyr a deiliaid swyddi eraill

Mae gwybodaeth am y Llywydd a’r Comisiynwyr i’w chael ar dudalennau 14 -15.

### Cynghorwyr Annibynnol

Mae gwybodaeth am y Cynghorwyr Annibynnol ac aelodau Pwyllgorau Annibynnol i’w chael ar dudalennau 16-17.

### Yr uwch-reolwyr

Mae gwybodaeth am gyfrifoldebau’r Prif Weithredwr a Chlerc a’r uwch-reolwyr o ran cyfarwyddo prif weithgareddau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn i’w chael ar dudalennau 18-19.

### Buddiannau sylweddol sydd gan yr Aelodau

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau ar gael yn **www.senedd.cymru** a **www.senedd.wales**.

### Digwyddiadau yn ymwneud â data personol

Adroddwyd am 9 achos o dorri diogelwch data yn fewnol rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Ymchwiliwyd i bob achos, a chymerwyd camau unioni. Dysgwyd gwersi a chymerwyd camau i leihau'r risg o ailadrodd. Ni chafodd unrhyw achos o dorri rheolau ei adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

## Colledion a thaliadau arbennig

Nid oedd unrhyw golledion yn y flwyddyn a dim ond un taliad arbennig oedd yn ymwneud ag ymadawiad uwch reolwr y cyfeirir ato ar dudalen 150.

## Amrywiaeth, Cynhwysiant ac Ymgysylltu â Staff

Gellir gweld gwybodaeth am bolisïau a gweithgareddau'r Comisiwn yn ymwneud ag amrywiaeth, cynhwysiant ac ymgysylltu â staff yn yr Adroddiad Taliadau (tudalennau 164 – 166)

## Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio cyfrifon Comisiwn y Senedd. Mae'r Adroddiad Archwilio i'w weld ar dudalen 174. Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol oedd £67,096 (2023-24, £63,945). Ni chynhaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2024-25 (2023-24, dim).

## Datgelu gwybodaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyn belled ag y gwn:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilydd yn ymwybodol ohoni; ac
- rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Y Cyfarwyddyd o ran Cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon a geir rhwng tudalennau 181 a 187 yn unol â Chyfarwyddyd y Trysorlys a gyhoeddwyd o dan Adran 137 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Fawrhydi a cheir nodiadau esboniadol i gyd-fynd â hwy. Mae'r cyfrifon hyn yn nodi effaith ariannol penderfyniadau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol blaenorol.

Mae gwybodaeth am y Senedd a'r Comisiwn hefyd ar gael ar wefan y Senedd: **www.senedd.wales** a **www.senedd.cymru**.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 4 Gorffennaf 2025**

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

## Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, drwy rinwedd Adran 138 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.

Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi paratoi'r datganiad o gyfrifon yn unol â Chyfarwyddyd a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Fawrhydi a'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.  Paratoir y Cyfrifon Adnoddau ar sail cyfrifyddu croniadau. Maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn ac alldro ei adnoddau net; yr adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni amcanion; datganiad o'r gwariant net cynhwysfawr; datganiad o'r sefyllfa ariannol; llif arian, a datganiad o'r newidiadau i ecwiti trethdalwyr yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi:

- cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Fawrhydi o ran cyfrifon;
- cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu gwybodaeth, ac wedi bod yn gyson o ran gweithredu polisïau cyfrifyddu priodol;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw eithriadau a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a'i bod wedi cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen er mwyn pennu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros gywirdeb a chysondeb cyllid y Comisiwn a thros gadw cofnod priodol, wedi'u nodi mewn Memorandwm a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 4 Gorffennaf 2025**

# Datganiad Llywodraethu

Mae’r datganiad hwn, sydd wedi’i lofnodi gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn nodi sut y caiff y Comisiwn ei lywodraethu a’i reoli, a sut y mae’n atebol am yr hyn y mae’n ei wneud. Mae'n amlinellu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Comisiwn o ran cyflawni ei nodau strategol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

## Y fframwaith llywodraethu

O dan delerau Deddf Llywodraeth Cymru 2006, dirprwyir swyddogaethau’r Comisiwn, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros reoli staff, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, yn amodol ar rai eithriadau ac amodau. Mae’r ddirprwyaeth hon yn cynnwys y trefniadau llywodraethu i alluogi’r Comisiwn i weithredu’n effeithiol er mwyn cyflawni ei nodau a’i flaenoriaethau strategol.

Mae’r fframwaith llywodraethu’n cynnwys y strwythurau, y systemau, y prosesau, a’r diwylliant a’r gwerthoedd sy’n cyfarwyddo ac yn rheoli’r Comisiwn. Mae’n diffinio perthnasoedd, atebolrwydd a chyfrifoldebau ymhlith y rhai sy’n gweithio yn y sefydliad a chydag ef, yn penderfynu ar y rheolau a’r gweithdrefnau a ddefnyddir i bennu nodau, blaenoriaethau ac amcanion y Comisiwn, ac yn darparu’r dull o gyflawni’r amcanion hynny ac o fonitro perfformiad. Mae’r fframwaith yn ymdrin â meysydd fel: egwyddorion llywodraethu; cynllunio strategol a gweithredol; rheoli risg a pherfformiad; llywodraethu gwybodaeth; rheolau a gweithdrefnau caffael; rheolaeth ariannol; archwilio; a sicrwydd. Mae gennym bolisïau a chodau ymddygiad corfforaethol sy’n sicrhau bod pawb sy’n gweithio yn y Comisiwn, neu gyda’r Comisiwn, yn ymwybodol o’r angen i weithredu’n unol â’r safonau llywodraethu uchaf. Mae hyn yn cynnwys polisïau ar urddas a pharch, twyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo, a chwythu'r chwiban.

## Cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu

Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu set o egwyddorion llywodraethu a darpariaethau ategol[7] sy'n gyson â'r egwyddorion a amlinellir yng nghod arfer da Trysorlys EF ar lywodraethu corfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog, a Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol. Fel rhan o'r broses casglu sicrwydd i lywio'r datganiad hwn, cynhaliwyd dadansoddiad manwl i fapio cydymffurfiaeth â'r darpariaethau ategol. Aseswyd bod lefelau sicrwydd o ran cydymffurfiaeth yn uchel.

Mae egwyddorion arweinyddiaeth, effeithiolrwydd, atebolrwydd a chynaliadwyedd yn ganolog i'n dulliau gweithredu, fel y dangosir drwy gydol y datganiad hwn. Mae adran Sicrwydd y datganiad hwn yn disgrifio sut y casglwyd tystiolaeth o gydymffurfio â'n fframwaith llywodraethu, ac effeithiolrwydd y fframwaith hwnnw, drwy Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn, sy'n cynnwys datganiadau sicrwydd gan uwch reolwyr.

## Strwythur llywodraethu

### Y Comisiwn

Y Comisiwn yw'r corff corfforaethol sy'n gyfrifol am sicrhau bod eiddo, staff a gwasanaethau'n cael eu darparu er mwyn i'r Senedd weithredu'n effeithiol. Mae'n cynnwys y Llywydd, sy'n Gadeirydd arno, ynghyd â phedwar Comisiynydd. Ceir rhagor o wybodaeth am y Llywydd a'r Comisiynwyr yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon (yr Adroddiad Blynyddol).

Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn. Mae'n atebol i'r Comisiynwyr am gyflawni eu nodau a'u blaenoriaethau strategol, ac mae'n atebol yn bersonol i'r Senedd am drefn ac ansawdd y gwaith rheoli yn y Comisiwn, gan gynnwys ei ddefnydd o arian cyhoeddus a sut y mae'n gwarchod ei asedau. Cyflogeion y Comisiwn yw staff y Senedd.

### Pwyllgorau'r Comisiwn

Fel rhan o'r fframwaith llywodraethu, mae gan y Comisiwn Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Phwyllgor Taliadau. Ceir manylion eu haelodaeth yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol. Mae'r rhain yn gyrff cynghori annibynnol heb

[7] https://senedd.cymru/comisiwn/egwyddorion-llywodraethu-a-darpariaethau-ategol/

unrhyw bwerau gweithredol ac maent yn llunio eu Hadroddiadau Blynyddol eu hunain.

Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yw adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a geir ac a yw'n bodloni anghenion y Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae'n canolbwyntio ar: adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys rhoi argymhellion ar waith; Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn; adroddiadau ar reoli risg, rheolaeth ariannol a phrosiectau mawr; a threfniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol. Mae'r Comisiwn yn dilyn Llawlyfr Trysorlys EF ar Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg o ran cyfansoddiad a gweithrediad y Pwyllgor. Ceir rhagor o fanylion am waith y Pwyllgor drwy gydol y datganiad hwn ac ar ei dudalennau ar y rhyngrwyd.[8]

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn gwneud argymhellion ar faterion ynghylch taliadau a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr a'r Clerc a swyddi uwch eraill. Mae hyn yn cynorthwyo'r Comisiwn i sicrhau bod trefniadau tâl yn bodloni'r safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd am ddefnyddio arian cyhoeddus.

## Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

Mae'r Comisiwn yn cwrdd yn rheolaidd i roi cyfeiriad ac i oruchwylio'r modd y cyflawnir nodau, blaenoriaethau, ac amcanion strategol y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn dirprwyo ei swyddogaethau rheoli o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a'r Clerc. Mae'r ddirprwyaeth ffurfiol[9] yn amlinellu eithriadau a meysydd y mae rhaid i'r Prif Weithredwr a'r Clerc ymgynghori â'r Comisiwn arnynt. Mae hefyd system sefydledig o awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth sy'n cwmpasu cyllid, staffio a chyfrifoldebau eraill sy'n ymwneud ag adnoddau, megis caffael.

Mae gweinyddiaeth y Comisiwn wedi'i rhannu'n dair cyfarwyddiaeth: Busnes; Adnoddau; a Chyfathrebu ac Ymgysylltu. Mae Cyfarwyddwyr pob un ohonynt yn atebol i'r Prif Weithredwr a'r Clerc. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn aelod o'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau, ac mae'n atebol yn uniongyrchol i'r Swyddog Cyfrifyddu ac yn aelod o'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r cyfarwyddiaethau wedi'u hisrannu yn feysydd gwasanaeth, sy'n cael eu harwain gan y Penaethiaid Gwasanaeth. Ceir rhagor o fanylion am y strwythur llywodraethu, gan gynnwys siart strwythur, yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol.

[8] https://senedd.cymru/comisiwn/pwyllgor-archwilio-a-sicrwydd-risg-comisiwn-y-senedd/
[9] https://senedd.cymru/comisiwn/dirprwyo-swyddogaethau-comisiwn-y-senedd/

Bu rhai newidiadau ar lefel y Bwrdd Gweithredol yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn cyfnod o drefniadau dros dro ac ymgyrch recriwtio allanol, penodwyd ein Prif Swyddog Pobl a'n Prif Swyddog Cyllid ym mis Ebrill 2024 ac ym mis Ionawr 2025 yn y drefn honno. Ar adeg llunio'r datganiad hwn, mae trefniadau dros dro ar waith ar gyfer rôl Cyfarwyddwr Busnes y Senedd. Mae ymgyrch recriwtio allanol yn mynd rhagddi i lenwi'r rôl hon yn barhaol.

Bwrdd Gweithredol y Comisiwn, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr a’r Clerc, yw'r corff penderfynu strategol ar gyfer pob mater a ddirprwyir gan y Comisiwn. Cefnogir hyn gan y Tîm Arwain, sy'n cynnwys aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a’r holl Benaethiaid Gwasanaeth. Ceir rhagor o fanylion am y Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Arwain yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol.

Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd Bwrdd Newid Senedd 26 hefyd. Y Bwrdd hwn, sydd hefyd yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr a'r Clerc, yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n ymwneud â phontio i'r Seithfed Senedd. Ceir rhagor o fanylion am gylch gwaith ac aelodaeth y Bwrdd hwn yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol o dan Cynllunio strategol.

O dan Fwrdd Newid Senedd 26, mae yna hefyd fyrddau rhaglen ar gyfer Rhaglen y Seithfed Senedd (gyda’r Bwrdd Newid yn goruchwylio ac yn gwneud penderfyniadau strategol o ran ei holl waith) a’r Rhaglen Ffyrdd o Weithio (gyda’r Bwrdd Newid yn goruchwylio ac yn gwneud penderfyniadau strategol o ran prosiectau sy’n ymwneud â’r Seithfed Senedd o fewn y rhaglen). Mae’r ddau’n cael eu cadeirio gan Uwch-swyddogion Cyfrifol ar lefel Cyfarwyddwr.

O dan y Rhaglen Ffyrdd o Weithio, mae yna nifer o fyrddau prosiect hefyd (ar gyfer prosiectau Bae 32, Siambr 26, Tŷ Hywel 26 a’r Pierhead). Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd yw'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer y prosiectau hyn (gan weithredu fel Uwch-swyddog Cyfrifol ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer prosiect y Pierhead). Darperir diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i Fwrdd y Rhaglen Ffyrdd o Weithio a hefyd i Fwrdd Newid Senedd 26 a'r Bwrdd Gweithredol.

Ceir rhagor o fanylion am y gwaith y mae’r byrddau hyn yn ei wneud hefyd yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol.

At hynny, cyflwynir diweddariadau manwl yn rheolaidd i'r byrddau perthnasol ar risgiau sy'n ymwneud â'r rhaglenni a'r prosiectau hyn. Cyflwynir diweddariadau rheolaidd hefyd i'r Bwrdd Gweithredol a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn ar risgiau sydd wedi’u huwchgyfeirio i'r lefel gorfforaethol. Ceir rhagor o

fanylion am y risgiau corfforaethol yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol o dan Proffil Risg.

## Cynllunio a mesur perfformiad

Mae nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd, a amlinellir yn adran Datganiad o Ddiben yr Adroddiad Blynyddol, wedi'u nodi yn Strategaeth y Comisiwn. Maent wedi rhoi cyfeiriad ac wedi llywio gwaith cynllunio ar lefel gorfforaethol a gweithredol.

Mae “llinyn aur” o Strategaeth y Comisiwn i lawr drwy’r Cynllun Corfforaethol a’r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig, ac i gynlluniau a strategaethau ategol, gan gynnwys cynlluniau gwasanaeth.

Mae'r Cynllun Corfforaethol, a ddatblygwyd ar y cyd â Thîm Arwain y Comisiwn ac a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol, yn troi Strategaeth y Comisiwn yn amcanion a blaenoriaethau gweithredol clir sy'n sylfaen i Gynlluniau Gwasanaeth blynyddol.

Mae'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig yn nodi gorwel ariannol y Comisiwn dros gyfnod treigl o dair blynedd i’n helpu i sicrhau bod y gyllideb flynyddol yn dangos:

- aliniad rhwng anghenion o ran adnoddau;
- ceisiadau darbodus o ran adnoddau o Grant Bloc Cymru; ac
- y diogelir gwaith i gyflawni blaenoriaethau strategol y Comisiwn.

Mae'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig yn cynnwys:

- Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n nodi unrhyw bwysau/bylchau cyllidebol posibl ac yn llywio datblygiad y gyllideb flynyddol; a
- Chynllun Gweithlu.

Bob blwyddyn, mae Cynlluniau Gwasanaeth yn ystyried y Cynllun Corfforaethol a strategaethau eraill y Comisiwn (gweler isod) ac yn llywio gwaith i adnewyddu’r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig a Chynllun y Gweithlu. Mae hyn yn ein helpu i asesu a nodi anghenion o ran adnoddau ar gyfer cyflawni’r busnes craidd, ochr yn ochr â pharatoadau ar gyfer y Seithfed Senedd, ac yn sicrhau bod gweithgarwch ac adnoddau’n cyd-fynd â Strategaeth y Comisiwn a’i Gynllun Corfforaethol.

Ar sail canfyddiadau Grŵp Llywio'r Gweithlu, mae Cynllun y Gweithlu yn ystyried amrywiaeth, cynhwysiant ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol, gyda cherrig milltir a systemau monitro a gwerthuso cadarn. Yn gysylltiedig â hyn, mae'r Strategaeth Pobl a Diwylliant hefyd wedi'i diweddaru.

Yn ystod y flwyddyn, sefydlodd y Comisiwn hefyd Fwrdd Newid Senedd 26 i oruchwylio'r gwaith o bontio i'r Seithfed Senedd, drwy Strategaeth Newid Senedd 26 newydd. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol o dan Cynllunio strategol.

Ymhlith y strategaethau allweddol sydd ar waith i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni Strategaeth y Comisiwn a'r Cynllun Corfforaethol a'r Cynlluniau Gwasanaeth mae:

- y Strategaeth Pobl a Diwylliant;
- y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu;
- Strategaeth Carbon Niwtral: 2021-2030; ac
- y Strategaeth TGCh.

Mae'r broses mapio sicrwydd a gynhaliwyd i lywio'r datganiad hwn wedi nodi bod angen cydweddu'r rhain ymhellach, ynghyd ag unrhyw strategaethau corfforaethol yn y dyfodol, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'i gilydd yn effeithiol, ac yn gyrru'r gwaith o gyflawni'r nodau a'r blaenoriaethau allweddol.

Nodir Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Comisiwn yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol. Cânt eu monitro yn ystod y flwyddyn ar lefel gwasanaeth ac ar lefel gorfforaethol, a ddwywaith y flwyddyn gan y Comisiwn.

Mae'r Bwrdd Gweithredol a Bwrdd Newid Senedd 26 hefyd yn cael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd o ran cyflawni prosiectau newid y Comisiwn. Mae hyn yn cynnwys Dangosfwrdd Rhaglen Bwrdd Newid Senedd 26 bob pythefnos yn benodol ar gyfer rhaglenni cymhleth y Comisiwn ar gyfer y Seithfed Senedd a Ffyrdd o Weithio, sydd hefyd yn tynnu sylw at unrhyw risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg i'r Bwrdd eu hystyried yn amserol. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried dangosfwrdd misol o'r holl brosiectau newid eraill sy'n cael eu cynnal y tu hwnt i'r ddwy raglen uchod.

## Cynnydd yn erbyn meysydd penodol a nodwyd i ganolbwyntio arnynt yn ystod 2024-25

Yn Natganiad Llywodraethu’r llynedd, gwnaethom gyfeirio at nifer o feysydd penodol i ganolbwyntio arnynt a’u datblygu ar gyfer 2024-25, a manylir ar y cynnydd a wnaed yn y meysydd hynny o dan yr is-benawdau isod.

### Sicrhau bod newid yn cael ei reoli’n effeithiol yn ystod y cyfnod pontio i’r Seithfed Senedd

Mae datblygu strwythurau llywodraethu i sicrhau cyfnod pontio didrafferth i'r Seithfed Senedd wedi bod yn ffocws allweddol i'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn. Y newid mwyaf arwyddocaol oedd sefydlu Bwrdd Newid Senedd 26, sydd â’r awdurdod i wneud penderfyniadau strategol ar gyfer Rhaglen y Seithfed Senedd a'r Rhaglen Ffyrdd o Weithio, ac sy’n eu goruchwylio. Ceir rhagor o fanylion am y newid hwn, gan gynnwys datblygu Strategaeth Newid a Chynllun Cyflawni Senedd 26, yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol o dan Cynllunio strategol.

Ceir manylion ynghylch llywodraethiant y byrddau rhaglen, a byrddau prosiect cysylltiedig o ran ystadau, yn adran *Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes* y datganiad hwn. Ceir manylion am gylch gwaith y byrddau hyn ac am y gwaith y maent yn ei wneud yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol o dan *Paratoadau ar gyfer y Seithfed Senedd* a *Ffyrdd o Weithio*.

Cyflwynir Dangosfwrdd Rhaglen i Fwrdd Newid Senedd 26 ym mhob un o'i gyfarfodydd a gynhelir bob pythefnos. Mae hyn yn rhoi crynodeb lefel uchel o gynnydd ac yn tynnu sylw at unrhyw risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg i'r Bwrdd eu hystyried yn amserol.

Nodir manylion ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid o ran Strategaeth Newid Senedd 26, ac o ran rhaglenni’r Seithfed Senedd a Ffyrdd o Weithio, yn y rhannau perthnasol o adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol. Mae'r Strategaeth, a gyhoeddir ar y Fewnrwyd, hefyd yn cynnwys manylion ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

Mae staff y Comisiwn, yr Aelodau a'u staff, a'r holl randdeiliaid yn cael diweddariadau rheolaidd a chyfleoedd i ymgysylltu mewn amrywiol ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd holl staff rheolaidd ar gyfer swyddogion, a sesiynau briffio a galw heibio i’r Aelodau. Mae tudalen newydd hefyd wedi’i lansio ar y Fewnrwyd i sicrhau y gall staff gael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau o ran paratoadau ar gyfer y Seithfed Senedd.

Nod cyffredinol yr ymdrech hon oedd rheoli newid yn effeithiol a sicrhau canlyniadau da o ran llywodraethu, gan gynnwys:

- diwylliant egnïol, cadarnhaol ac atebol;
- perfformiad rhagorol; a
- rheolaeth effeithiol.

## Parhau i ddatblygu'r fframwaith cynllunio strategol

Mae fframwaith cynllunio'r Comisiwn yn sicrhau bod y cylch cynllunio'n cyd-fynd yn llwyr â'r broses o bennu'r gyllideb drwy'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig. Llywiodd y Cynllun Corfforaethol, a gafodd ei adnewyddu ym mis Ionawr 2025, y gwaith o ddatblygu Cynlluniau Gwasanaeth ar gyfer 2025-26 a oedd ar waith cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

Mae'r Cynlluniau Gwasanaeth blynyddol wedi llywio gwaith i adnewyddu Cynllun y Gweithlu, fel rhan o'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig sydd hefyd wedi'i adnewyddu fel cam cyntaf yn y paratoadau ar gyfer y broses o bennu cyllideb 2026-27. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn adran *Cynllunio a rheoli perfformiad* y datganiad hwn.

Mae Strategaeth Newid Senedd 26 wedi bod yn ddatblygiad pwysig ac arwyddocaol. Ceir rhagor o fanylion am y strategaeth hon yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol o dan Cynllunio strategol. Ceir rhagor o fanylion am y fframwaith cynllunio a sut y mae'r cyfan yn cyd-fynd â'i gilydd yn adran *Cynllunio a mesur perfformiad* y datganiad hwn.

## Cynnal trefniadau llywodraethu gwybodaeth cryf

Mae'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth wedi parhau i roi cyngor, arweiniad a hyfforddiant i swyddogion y Comisiwn ac Aelodau o'r Senedd, sy'n berchnogion data yn eu rhinwedd eu hunain, a'u swyddfeydd, ar ystod eang o faterion sy'n ymwneud â llywodraethu gwybodaeth. Mae hefyd wedi rhoi cyngor a chymorth i wahanol fyrddau prosiect drwy gydol y flwyddyn.

Cynorthwyir Penaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth gan rwydwaith o Hyrwyddwyr Llywodraethu Gwybodaeth sy'n cyfarfod bob chwarter mewn Fforwm Hyrwyddwyr Llywodraethu Gwybodaeth. Mae hyn wedi helpu i godi ymwybyddiaeth ymhellach a pharhau i roi sylw i reoli risgiau o ran gwybodaeth.

Mae'r Bwrdd Gweithredol a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn wedi cael diweddariadau rheolaidd ar reoli risg gorfforaethol Diogelu Data drwy gydol y flwyddyn.

Mae Grŵp yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried amryw o faterion sy’n ymwneud â llywodraethu gwybodaeth, gan gynnwys rheoli digwyddiadau data a datblygu polisïau. Nid yw Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth, a gyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn, wedi tynnu sylw at unrhyw faterion arwyddocaol. Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion am achosion o dorri rheolau data a digwyddiadau a fu bron â digwydd, ac nid oes yr un ohonynt wedi bod uwchlaw'r trothwy ar gyfer cyflwyno adroddiad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Ceir manylion am y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth a ledled y Comisiwn i sicrhau llywodraethu cadarn o ran defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol.

Mae'r tîm wedi dilyn y datblygiadau diweddaraf o ran deddfwriaeth berthnasol sy’n ymwneud â Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth. Maent yn monitro cynnydd y Bil Data (Defnydd a Mynediad) drwy Senedd y DU. Pan fydd y Bil yn cael ei basio (yn ôl pob tebyg), bydd y tîm yn adolygu ein prosesau a'n dogfennaeth i sicrhau cydymffurfiaeth, ac yn rhoi cyngor ac arweiniad ar unrhyw newidiadau. Mae hefyd yn gweithio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio o ran ymdrin â cheisiadau am wybodaeth sy'n dod o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (sy'n wahanol i'r rhai ar gyfer Rhyddid Gwybodaeth).

## Rheolaeth ariannol a pherfformiad

Rydym yn gweithio o fewn system o reolaeth gref ac effeithiol i sicrhau cywirdeb a defnydd priodol o arian.

Mae'r Grŵp Rheoli Portffolio (dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Cyllid) yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol yn ystod y flwyddyn i flaenoriaethu cyllid o fewn y Gronfa Prosiectau, gan sicrhau bod digon o hyblygrwydd i ymateb i bwysau sy'n dod i'r amlwg. Mae cyllid yn cael ei ryddhau ar sawl adeg yn ystod y flwyddyn er mwyn i waith ar brosiectau allu mynd rhagddo mewn modd strategol, dan reolaeth, ac er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau o ran blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn.

Caiff sefyllfa cyllidebau’r gwasanaethau ei hadolygu bob mis gan y tîm Cyllid, a bob chwarter gyda rheolwyr y cyllidebau, a chyflwynir adroddiad arnynt ym mhob cyfnod i'r Bwrdd Gweithredol.

Parhaodd y Comisiwn i wneud cynnydd o ran y ddwy raglen waith arwyddocaol yn ystod y flwyddyn; Ffyrdd o Weithio a Diwygio'r Senedd – pontio i Senedd fwy o faint. Cafodd cyllidebau’r ddwy raglen waith hyn eu clustnodi er mwyn cynnal tryloywder a rheoli effaith ffactorau anhysbys ar raddfa fawr ym mhob rhaglen, yn enwedig Ffyrdd o Weithio, sy’n sensitif o ran amser ac yn gymhleth, ac y mae’r prosiectau sy’n rhan ohoni yn destun prosesau caffael llawn. Oherwydd bod y dull gweithredu o ran caffael wedi newid yn ystod y flwyddyn, dychwelodd y Comisiwn £0.500 miliwn i Gronfa Gyfunol Cymru i adlewyrchu proffil ariannu wedi'i ddiweddaru yn seiliedig ar symud i broses o ddeialog gystadleuol yn hytrach na'r broses gaffael un ffynhonnell a dybiwyd yn wreiddiol yn y gyllideb. Dyma fydd yn sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r pwrs cyhoeddus, a disgwylir penderfyniad ar yr ateb a ffefrir tua diwedd 2025.

Roedd yr Adroddiad Archwilio ar gyfer 2023-24 yn ddiamod, a chraffodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar yr adroddiad blynyddol a’r cyfrifon ym mis Tachwedd 2024. Mae’r Comisiwn a'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn parhau i’n herio ynghylch lefel a defnydd adnoddau'r Comisiwn ac rydym wedi cynnal sesiynau briffio ychwanegol i'r Pwyllgor Cyllid er mwyn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf iddo am gynnydd yn y rhaglen Ffyrdd o Weithio i sicrhau llety i'r Comisiwn pan ddaw'r brydles bresennol ar Dŷ Hywel i ben yn 2032.

Cafodd y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig ei adnewyddu ar gyfer y flwyddyn a rhoddodd ddarlun tymor canolig wedi'i ddiweddaru o’r pwysau o ran adnoddau, gan wahaniaethu rhwng cyllidebau sydd o dan reolaeth y Comisiwn, y rhai sydd wedi'u clustnodi ar gyfer darnau penodol o waith a'r rhai y mae'r Comisiwn yn eu gweinyddu ond nad yw o reidrwydd yn dylanwadu arnynt, er enghraifft y gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol. Mae'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig yn amlygu pwysau o ran costau yn y dyfodol ac yn llywio’r gwaith o lunio cyllidebau.

Nodwyd bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi dweud:

> *“Rydym yn falch o weld bod y Comisiwn yn bwrw ymlaen â’i gynlluniau tymor canolig ar sail dreigl ac edrychwn ymlaen at weld canlyniadau’r polisi hwn, yn enwedig sut y mae mesurau effeithlonrwydd ac arbedion yn cael eu gwneud. Mae’r Pwyllgor o’r farn bod angen atgyfnerthu’r diwylliant*

> *o wella prosesau'n barhaus a gwneud arbedion effeithlonrwydd yn y Comisiwn, a hoffai weld tystiolaeth o hyn cyn i'r Pwyllgor graffu ar y cyfrifon blynyddol."*

Yn ystod y flwyddyn, mae'r gwasanaethau wedi canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau a sicrhau effeithlonrwydd yng nghyd-destun cefnogi Senedd fwy o faint o 2026 ymlaen.

Roedd rhaid i'r Comisiwn hefyd sicrhau arbedion o £0.315 miliwn. Roedd y targed wedi'i rannu rhwng arbedion staff o £0.202 miliwn ac arbedion nad ydynt yn gysylltiedig â staff o £0.113 miliwn. Drwy osod dyddiadau cychwyn targed ar gyfer recriwtio, roedd modd rheoli cyllidebau staff yn well, a phennwyd gostyngiadau i gyllidebau nad ydynt yn gysylltiedig â staff ar ddechrau'r flwyddyn a'u monitro drwy gydol y flwyddyn drwy gynnal cyfarfodydd â rheolwyr cyllidebau. Llwyddwyd i gyrraedd y targed o ran arbedion.

Un o rolau allweddol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn yw adolygu cyfrifon y Comisiwn ac argymell y dylid eu cymeradwyo. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein sefyllfa ariannol gan y Prif Swyddog Cyllid ym mhob cyfarfod a chaiff gwybodaeth megis adroddiadau ar waith craffu gan Bwyllgorau'r Senedd (fel y nodwyd yn gynt yn yr adran hon) ac ymatebion y Comisiwn eu rhannu ag aelodau'r Pwyllgor mewn amser real.

## Nodi a rheoli risg

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus i nodi, blaenoriaethu a rheoli'n effeithiol y risgiau o ran cyflawni nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn. O ran rheoli risg, mae'r Comisiwn i raddau helaeth yn dilyn canllawiau Trysorlys EF yn 'The Orange Book: Management of Risk – Principles and Concepts'. Mae'r polisi a'r prosesau'n cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r fersiwn ddiweddaraf o'r canllawiau arfer gorau hyn.

Un datblygiad arwyddocaol yn ystod y flwyddyn oedd cymeradwyo set o ddatganiadau gan y Comisiwn ynghylch parodrwydd i dderbyn risg. Daeth hyn ar ôl proses drylwyr o ymgynghori ag arbenigwyr pwnc ac ymgysylltu â'r Bwrdd Gweithredol (gyda'i aelodau'n unigol ac ar y cyd) a'r Tîm Arwain. Caiff y datganiadau ynghylch parodrwydd i dderbyn risg eu cyhoeddi'n fewnol a'u hymgorffori yn ein dogfennaeth ynghylch rheoli risg. Mae awduron papurau penderfynu yn dechrau cyfeirio at y datganiadau ynghylch parodrwydd i dderbyn risg a byddwn yn monitro hyn yn ystod y flwyddyn, gan ddarparu canllawiau lle y bo angen.

Fel rhan o'n proses casglu sicrwydd i lywio'r datganiad hwn, gwnaethom lunio Map Sicrwydd Rheoli Risg, lle y gwnaethom fapio'r rheolaethau ar gyfer ein risgiau corfforaethol a'n risgiau mwyaf arwyddocaol ar draws y tair llinell sicrwydd (yn unol â chanllawiau Trysorlys EF ar Fframweithiau Sicrwydd). Adolygwyd hyn gan y Bwrdd Gweithredol a chafodd ei gyflwyno i'r Swyddog Cyfrifyddu. Ceir rhagor o fanylion am y broses hon yn yr adran Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheolaeth fewnol a llywodraethu yn y datganiad hwn.

Nododd y broses fapio hon yr angen i sicrhau sicrwydd trydedd linell/annibynnol digonol ar gyfer rhai o'n risgiau, ac rydym wedi mynd i'r afael â hyn drwy sicrhau bod y cynllun archwilio mewnol wedi'i dargedu'n briodol i gynnwys risgiau y bu llai o graffu annibynnol arnynt. Mae hyn wedi arwain at gynnwys archwiliadau ar risgiau sy'n ymwneud ag Urddas a Pharch, a Diogelu Data yn 2025-26. Tynnodd y broses sylw at yr angen i adolygu'r disgrifiad o reolaethau risg hefyd, a bwriedir bwrw ymlaen â hyn yn ystod 2025-26. Gan fod y gwelliannau hyn wedi’u nodi, rydym wedi nodi lefel resymol o sicrwydd ar ein Fframwaith Rheoli Risg. Bydd adolygiadau archwilio mewnol o reoli risg yn y dyfodol hefyd yn llywio rhagor o welliannau y bydd angen mynd i'r afael â hwy.

Mae risgiau mwyaf arwyddocaol y Comisiwn wedi'u cofnodi mewn Cofrestr Risg Gorfforaethol y mae’r Bwrdd Gweithredol yn berchen arni ar y cyd. Mae'r risgiau corfforaethol hyn yn cael eu rheoli a'u monitro'n rheolaidd gan y Cyfarwyddwr perthnasol a’i Benaethiaid Gwasanaeth. Caiff y Gofrestr Risg Gorfforaethol ei hadolygu yn ei chyfanrwydd gan y Bwrdd Gweithredol bob chwarter er mwyn sicrhau bod y rheolaethau'n ddigonol a bod cynnydd yn cael ei wneud ar gamau pellach i wella'r rheolaethau. Mae hyn yn cynnwys edrych tua’r dyfodol am risgiau newydd neu risgiau sy'n dod i'r amlwg.

O dan hyn, caiff risgiau eu cofnodi, eu rheoli a'u monitro ar lefel gwasanaeth, ac mae Penaethiaid Gwasanaeth yn darparu adroddiadau chwarterol i'w Cyfarwyddwyr yn amlinellu newidiadau a manylion unrhyw risgiau newydd neu risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae hyn yn rhoi cyfle i Gyfarwyddwyr herio'r risgiau a phenderfynu a ddylid uwchgyfeirio unrhyw rai ohonynt. Mae’r adroddiadau’n rhoi’r sail ar gyfer yr adolygiad risg chwarterol gan y Bwrdd Gweithredol.

Adroddir ar risgiau sy'n gysylltiedig â rhaglenni a phrosiectau i'r Bwrdd Gweithredol bob mis.

Cynorthwyir Penaethiaid Gwasanaeth, Cyfarwyddwyr a Rheolwr Risg y Comisiwn gan rwydwaith o Hyrwyddwyr Risg sy'n cyfarfod bob chwarter fel Fforwm Rheoli Risg. Mae cyfarfodydd y Fforwm yn cynnwys trafodaethau ar risgiau trawsbynciol,

datblygu polisi a phrosesau, a chanlyniad ymarfer blynyddol adolygu gan gymheiriaid lle y mae'r Hyrwyddwyr Risg yn adolygu risgiau meysydd gwasanaeth eraill.

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn wedi cynnal trosolwg o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg ac wedi croesawu'r asesu parhaus ac amlygrwydd y risgiau, natur ddeinamig y gofrestr risgiau, a'r ffocws ar newid ac ansicrwydd. Mae'n cynnal adolygiadau o risgiau corfforaethol yn ei gyfarfodydd ac yn dewis risgiau penodol i'w hasesu'n fanwl. Yn 2024-25, roedd yr asesiadau manwl yn cynnwys risgiau'n ymwneud ag:

- y system Adnoddau Dynol/Cyflogres newydd;
- Diwygio'r Senedd;
- Deallusrwydd Artiffisial;
- prosiect Bae 32; a
- phrosiectau ystadau sy'n ymwneud â Diwygio'r Senedd.

Un maes y mae'r Pwyllgor wedi parhau i ganolbwyntio arno yw seiberddiogelwch, gan gynnig her annibynnol i'r gwaith a wnawn i ddiogelu'r Senedd rhag seiberymosodiadau ac ymosodiadau atal gwasanaeth. Yn ogystal ag adolygu diweddariadau manwl ar y risg gorfforaethol ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried adroddiadau archwilio mewnol blynyddol ar seiberddiogelwch, ac adroddiadau dilynol ar weithredu argymhellion. At hynny, mae uwch swyddogion TGCh yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn i roi diweddariadau pellach, gan gynnwys cyflwyno Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch manwl, ac ymateb i waith craffu.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi rhoi sylw i'n paratoadau ar gyfer Seithfed Senedd fwy o faint, y Rhaglen Ffyrdd o Weithio a'r prosiectau sy'n rhan ohoni, a'r prosiect i roi system Adnoddau Dynol/Cyflogres newydd ar waith. Darperir diweddariadau corfforaethol ar y rhain gan uwch swyddogion ym mhob cyfarfod, sy'n ategu'r wybodaeth fanwl am y risgiau. Mae Dangosfyrddau Rhaglenni hefyd yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor.

Ceir rhagor o fanylion am ffocws y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar reoli risg yn ei Adroddiad Blynyddol.

## Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheolaeth fewnol a llywodraethu

### Fframwaith Sicrwydd

*Y broses sicrwydd*

Mae Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn ar waith ers nifer o flynyddoedd ac mae wedi esblygu dros amser. Mae wedi parhau i gynnig ffordd effeithiol o gasglu ac adolygu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau rheolaeth fewnol a llywodraethu. Yn seiliedig ar y model tair llinell sydd wedi'i fabwysiadu'n eang, ac yn unol â chanllawiau Trysorlys EF a chanllawiau perthnasol eraill, mae'r fframwaith yn cynnig dull strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'n helpu i asesu cryfder ein rheolaethau mewnol. Mae hefyd yn ein helpu i nodi unrhyw reolaethau mewnol, neu lefelau sicrwydd y mae angen eu cryfhau.

Yn ganolog i'r adolygiad hwn mae proses hunanadolygu a herio a gynhelir bob blwyddyn o fewn ac ar draws cyfarwyddiaethau ar wahanol lefelau rheoli. Ar ddechrau'r broses, mae pob maes gwasanaeth yn mapio ei lefelau sicrwydd. Caiff y mapiau hyn, ynghyd â dulliau i brofi ymwybyddiaeth staff, eu defnyddio i lywio datganiadau sicrwydd ar lefel gwasanaethau, sy'n cael eu hadolygu gan Gyfarwyddwyr.


Eleni, rydym wedi cyflwyno dull newydd ar y lefel gorfforaethol, sydd wedi arwain at lunio un Datganiad Sicrwydd Corfforaethol ar gyfer y Swyddog Cyfrifyddu i lywio'r Datganiad Llywodraethu hwn.

Cyflwynwyd y mapiau sicrwydd canlynol i'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd fel dogfennaeth ategol, yn dystiolaeth i gyd-fynd â'r datganiadau a wneir yn y Datganiad Sicrwydd Corfforaethol (mae pob un ohonynt yn cynnwys asesiad o'r lefelau o sicrwydd h.y. Isel, Rhesymol, neu Uchel ar gyfer y meysydd a gwmpesir):

- Map Sicrwydd Fframwaith Llywodraethu - sy'n darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd elfennau allweddol o'n Fframwaith Llywodraethu, ac sy'n fersiwn gryno o'r Map Sicrwydd Corfforaethol a luniwyd gan y Cyfarwyddwyr yn 2023-24;
- Map Sicrwydd Egwyddorion Llywodraethu a Darpariaethau Ategol - sy'n darparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth â phob un o'r darpariaethau yn Egwyddorion Llywodraethu a Darpariaethau Ategol y Comisiwn; a

- Map Sicrwydd Rheoli Risg – sy'n mapio'r rheolaethau allweddol ar gyfer ein risgiau corfforaethol a'r risgiau mwyaf arwyddocaol ar draws y tair llinell sicrwydd.

Nodir y corff cyffredinol o dystiolaeth sy'n sail i'r Datganiad Llywodraethu hwn yn y diagram a ganlyn:




Bu Cynghorwyr Annibynnol y Comisiwn (Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn ac un aelod arall o'r Pwyllgor) yn craffu'n fanwl ar y datganiad Sicrwydd Corfforaethol a'r ddogfennaeth ategol (mapiau sicrwydd), ac yn eu herio, sy'n ychwanegu haen arall o sicrwydd. Diben y broses herio sicrwydd flynyddol hon yw rhoi cyngor a chymorth i'r Swyddog Cyfrifyddu wrth asesu:

- lefelau sicrwydd o ran ymwybyddiaeth o egwyddorion, rheolau a gweithdrefnau llywodraethu, a chydymffurfiaeth â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a rheoli risg;
- cynnydd o ran y meysydd i'w gwella a nodwyd; a
- meysydd i ganolbwyntio arnynt neu eu cryfhau.

Mae adborth y Cynghorwyr Annibynnol ar y broses o gasglu tystiolaeth i ategu'r sicrwydd a ddarperir wedi bod yn gadarnhaol a bydd y gwelliannau a nodwyd yn cael sylw. Mae hyn wedi cynnwys awgrymiadau megis egluro'r lefelau o sicrwydd a ddymunir a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â lefelau'r parodrwydd i dderbyn risg a sicrwydd trydedd linell/annibynnol.

Bydd y dull hwn yn cael ei werthuso a'i addasu ymhellach i sicrhau ei fod yn addas at y diben cyn proses casglu sicrwydd y flwyddyn nesaf.

Mae'r tîm Llywodraethu yn mynd i gyfarfodydd rheoli ar lefel Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Law yn llaw â phroses y datganiad sicrwydd, mae hyn yn helpu i nodi unrhyw feysydd y mae angen rhoi rhagor o sylw

iddynt, neu y mae angen codi ymwybyddiaeth yn eu cylch neu ddarparu hyfforddiant arnynt. Rhoddir sylw i hyn wedyn drwy ragor o sesiynau briffio neu hyfforddiant wedi'i dargedu. Mae hyn i gyd yn rhoi hyder bod egwyddorion llywodraethu da yn cael eu deall yn dda, eu bod yn cael eu rhoi ar waith ledled y Comisiwn a bod unrhyw feysydd sy’n gymharol wan yn cael sylw. Cyflwynir sesiwn gynefino ar lywodraethu corfforaethol i'n staff newydd hefyd.

*Canlyniad yr adolygiad o sicrwydd*

Dyma asesiad y Datganiad Sicrwydd Corfforaethol, y mae’r prosesau mapio sicrwydd manwl (y cyfeirir atynt yn adran *y broses sicrwydd*) yn ei lywio, o'r lefelau sicrwydd:

- Effeithiolrwydd Llywodraethu – lefel resymol o sicrwydd;
- Atebolrwydd - lefel uchel o sicrwydd;
- Rheoli Risg – lefel resymol o sicrwydd;
- Rheolaethau Mewnol – lefel uchel o sicrwydd;
- Rheolaeth Ariannol – lefel uchel o sicrwydd; a
- Dirprwyo – lefel uchel o sicrwydd.

Ar sail hynny, nodwyd yng nghasgliad y Datganiad Sicrwydd Corfforaethol fod lefel uchel o sicrwydd at ei gilydd.

Nid yw lefel resymol o sicrwydd yn awgrymu unrhyw wendid systemig. O ran y rhai yr aseswyd bod iddynt lefelau rhesymol o sicrwydd, mae meysydd i'w gwella wedi'u nodi a chytunwyd ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain. Bydd cynnydd o ran y camau gweithredu hyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol yn yr hydref ac ar ddiwedd y flwyddyn, a chaiff hynny ei rannu â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Daeth adolygiad 2024-25 i'r casgliad fod y broses o gasglu sicrwydd ac adrodd arno’n parhau i fod yn effeithiol ac yn dangos gwelliant parhaus ac aeddfedrwydd.

## Sicrwydd ynghylch meysydd llywodraethu eraill

Mae’r Comisiwn yn parhau i ddefnyddio codau, fframweithiau, safonau a chanllawiau a gydnabyddir yn rhyngwladol i lywio ein gwaith llywodraethu, rheoli risg, a sicrwydd. Cyfeirir at y rhain yn y rhannau perthnasol o'r datganiad hwn.

Lluniodd y Prif Swyddog Cyllid Adroddiad Blynyddol ar Dwyll a'i gyflwyno, ynghyd â diweddariadau ar y Polisi Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo a'r Polisi Chwythu'r Chwiban, i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Ni chofnodwyd unrhyw achosion o dwyll na chwythu'r chwiban yn ystod 2024-25. Ystyriodd yr adroddiad ganfyddiadau adolygiad archwilio mewnol y Gwiriad Atal Twyll, y bydd ei gamau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Comisiwn yn cynnal proses ffurfiol i fonitro cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol, a chyhoeddir adroddiadau ar hynny ar wefan y Comisiwn. Ymhlith enghreifftiau o hyn mae'r Adroddiad Blynyddol ar Amrywiaeth a Chynhwysiant, Adroddiad Blynyddol y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, a'r Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol. Mae Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth hefyd yn cael ei lunio a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## Sicrwydd Annibynnol

### Archwilio mewnol

Yn ystod 2024-25, newidiodd y Comisiwn yn ffurfiol i fodel ar gontract allanol ar gyfer ei wasanaethau archwilio mewnol, a phenododd Gyfarwyddwr ar ddarparwr trydydd parti y gwasanaeth archwilio mewnol yn Brif Swyddog Gweithredol Archwilio iddo. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn goruchwylio strategaethau, cynlluniau a pherfformiad o ran archwilio mewnol, gan sicrhau bod archwiliadau'n cael eu targedu mewn modd amserol a pherthnasol yn unol â rhaglenni gwaith a risgiau.

Mae Archwilio Mewnol wedi cyflawni rhaglen o archwiliadau yn ystod 2024-25. Isod, ceir rhestr o'r adolygiadau archwilio a gwblhawyd, a'r rhai a oedd ar waith ar adeg ysgrifennu'r datganiad hwn:

- Llywodraethu Rhaglenni a Phrosiectau - archwiliad ymgynghorol
- Treuliau'r Aelodau
- Gwiriad Atal Twyll
- Caffael
- Cwynion a Chanmoliaeth
- Llif Arian, Trysorlys a Gweinyddu Bancio

- Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Cynllunio Strategol
- Seiberddiogelwch.

Ar adeg ysgrifennu'r datganiad hwn, nid oes adroddiadau wedi dod i law eto ar yr adolygiadau archwilio a ganlyn: Cyflogres a Phensiynau; a Llywodraethu Rhaglenni a Phrosiectau (archwiliad ffurfiol).

Mae adroddiadau archwilio mewnol yn parhau i nodi nifer fach o feysydd lle y gellir cyflwyno gwelliannau i'r amgylchedd rheoli, ac yn amlygu meysydd lle y mae'r Comisiwn yn defnyddio arferion da o ran y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith. Lle y caiff gwendidau neu faterion eu nodi, mae'r rheolwyr yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio. Ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol yn yr adroddiadau archwilio yn ystod y flwyddyn.

Mae Prif Swyddog Gweithredol Archwilio y Comisiwn ac Archwilio Cymru (yr archwilwyr allanol) yn parhau i fod â pherthynas waith effeithiol yn unol â phrotocol cydweithio. Fel rhan o'i asesiad risg, mae Archwilio Cymru yn ystyried y gwaith a wneir yn ystod y flwyddyn gan Archwilio Mewnol.

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol Archwilio yn mynd i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac yn mynd i gyfarfodydd corfforaethol eraill fel y bo'n briodol. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol a Barn y Prif Swyddog Gweithredol Archwilio i'r Pwyllgor. Daw i'r casgliad bod gan Gomisiwn y Senedd brosesau digonol ac effeithiol o ran rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o'r farn bod yr adroddiad yn asesiad da o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.

### Cynghorwyr Annibynnol

Mae Cynghorwyr Annibynnol y Comisiwn[10] yn rhoi cefnogaeth a her adeiladol i'r Comisiwn a'i waith. Ar wahân i'w rolau cynghori pwysig ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau, maent wedi cymryd rhan mewn nifer o ymgyrchoedd recriwtio ar gyfer swyddi uwch, ein gwobrau cydnabod staff, ac wedi herio'r Bwrdd Gweithredol fel rhan o broses y datganiad sicrwydd. Maent hefyd wedi cynorthwyo ein gwaith drwy gynnig eu harbenigedd ar faterion penodol.

[10] **https://senedd.wales/comisiwn/cynghorwyr-annibynnol/?CId=386&Year=2015**

Fel rhan o'i rôl o ran adolygu gweithgarwch archwilio, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn asesu annibyniaeth archwilwyr mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor yn cael sicrwydd ar hyn gan y Prif Swyddog Gweithredol Archwilio, gan gynnwys drwy ei Adroddiad Blynyddol a Barn, a chan Archwilio Cymru drwy'r Strategaeth Archwilio Flynyddol sy'n cynnwys adran ar annibyniaeth.

Hefyd, mae sesiwn breifat flynyddol gydag Archwilio Cymru yn rhan o raglen waith y Pwyllgor, sy'n rhoi cyfle pellach i drafod y broses archwilio allanol. Mae hyn yn ogystal â thrafodaethau am y broses yn ystod cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor. At hynny, mae cyfleoedd i gynrychiolwyr o Archwilio Cymru a Phrif Swyddog Cyllid y Comisiwn gael ôl-drafodaeth â'r Pwyllgor ar ôl y sesiwn gwersi a ddysgwyd flynyddol a gynhelir rhwng y tîm Cyllid a'r tîm archwilio allanol.

Yn unol â chanllawiau Trysorlys EF ar Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg, mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal sesiynau preifat blynyddol gyda'r Prif Swyddog Gweithredol Archwilio a'r Swyddog Cyfrifyddu.

### Ffynonellau sicrwydd allanol

Mae canlyniadau gweithgareddau cydnabyddiaeth allanol annibynnol hefyd yn bwysig i'r Comisiwn ac maent yn adlewyrchu'r diwylliant a'r amgylchedd cynhwysol y mae staff y Comisiwn yn gweithio ynddynt. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn o dan Amrywiaeth a Chynhwysiant yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol.

## Meysydd i ganolbwyntio arnynt a'u datblygu ar gyfer 2025-26

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'n blaenoriaethau fel y'u hamlinellir yn Strategaeth a Chynllun Corfforaethol y Comisiwn, gan ymateb ar yr un pryd i dirwedd ddeinamig o ran arian cyhoeddus a materion cyfansoddiadol.

Bydd y meysydd penodol i ganolbwyntio arnynt a'u datblygu ar gyfer 2025-26 yn cynnwys:

- sicrhau bod strwythurau llywodraethu priodol ar waith i hwyluso gwaith monitro ac adrodd effeithiol ar gyflawni'r Strategaeth Newid;
- adolygu portffolio'r Comisiwn o strategaethau i sicrhau eu bod yn cydweddu'n briodol;

- adolygu a diweddaru prosesau rheoli risg, gan gynnwys ymgorffori datganiadau ynghylch parodrwydd i dderbyn risg ac adolygiad sylfaenol o reolaethau; a
- gwerthuso darpariaeth gwasanaethau archwilio mewnol.

## Datganiad i gloi

Mae'r datganiad hwn yn rhoi sicrwydd bod y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein hamcanion wrth weithio tuag at ein nodau strategol wedi bod yn effeithiol.

Rwy'n croesawu'r newidiadau i'r strwythurau llywodraethu o ran ein rhaglenni mawr sy'n rhoi eglurder ynghylch y llinellau adrodd a'r awdurdod i wneud penderfyniadau.

Rwyf hefyd yn croesawu'r gwaith i ddatblygu a chymeradwyo datganiadau ynghylch parodrwydd i dderbyn risg a fydd yn helpu i lywio a rhoi arweiniad o ran gwneud penderfyniadau, ac esblygiad diweddaraf y broses o gasglu sicrwydd sydd wedi bod yn ffynhonnell gyfoethog o dystiolaeth i lywio'r datganiad hwn. Mae'r ddau ddatblygiad hyn yn dangos ein bod yn sefydliad sydd wedi ymrwymo i barhau i ddysgu a gwella.

Rwy'n fodlon bod unrhyw wendidau a nodwyd drwy ein prosesau sicrwydd wedi cael sylw, neu eu bod wrthi'n cael sylw. Rwy'n hyderus ein bod, yn ystod y flwyddyn, wedi cynnal safonau llywodraethu uchel a bod ein rheolaethau mewnol a'r systemau a'r prosesau yn ein fframwaith llywodraethu wedi gweithredu'n effeithiol.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 4 Gorffennaf 2025**

# Staff a thaliadau

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi gwybodaeth ariannol a sylwebaeth am ddeiliaid swyddi yn y Comisiwn, staff ac eraill a delir gan y Comisiwn.

## Y Polisi Taliadau

Y Bwrdd Taliadau Annibynnol (y Bwrdd), a sefydlwyd gan *Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010* (y Mesur), sy'n gyfrifol am bennu cyflogau a lwfansau'r Aelodau. Penodwyd Dr Elizabeth Haywood yn Gadeirydd y Bwrdd ym mis Medi 2020, a hynny am dymor o bum mlynedd.

Mae'r Cadeirydd yn cael £400 y diwrnod. Mae pedwar aelod arall y Bwrdd (y Fonesig Jane Roberts, Michael Redhouse (tan Ionawr 2025 pan fu farw yn anffodus), Hugh Widdis a Syr David Hanson) yn gymwys i gael cyfradd diwrnod o £310[11].

Fel bwrdd annibynnol, mae'n cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ei hun, ac mae'r trefniadau ar gyfer hyn wedi'u nodi yn y Mesur.

Pennwyd cyflog sylfaenol yr Aelodau o'r Senedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 ar £72,057 (2023-24, £69,958). Caiff cyflogau'r Aelodau eu haddasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol ag ASHE (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion), ar yr amod nad yw'r addasiad yn is na 0 y cant ac nad yw'n uwch na 3 y cant. Y cynnydd a gymhwyswyd i 2024-25 oedd 3 y cant.

Oherwydd effaith barhaus yr argyfwng costau byw, penderfynodd y Bwrdd Taliadau yn 2024-25 i gael gwared ar y 'cap' ar y gyflogau Staff Cymorth i Aelodau. Felly, roedd y codiad cyflog a gymhwyswyd yn 5.7% ar gyfer y flwyddyn.

[11] Nid yw Hugh Widdis yn hawlio cyfradd ddyddiol am ei waith ar y Bwrdd.

Roedd gan y swyddi canlynol hawl i gael cyflogau ychwanegol fel a ganlyn:

| Swydd | O 1 Ebrill 2024 ymlaen | O 1 Ebrill 2023 ymlaen |
|---|---:|---:|
| Y Llywydd | £46,160 | £44,816 |
| Dirprwy Lywydd | £23,644 | £22,955 |
| Comisiynwyr y Senedd | £14,636 | £14,210 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (uwch)[12] | £14,636 | £14,210 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (is)[12] | £9,751 | £9,467 |
| Aelod o'r Pwyllgor Busnes | £9,751 | £9,467 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

O 1 Ebrill 2024, cafodd arweinydd grŵp gwleidyddol nad oes ganddo swyddogaeth weithredol lwfans deiliad swydd ychwanegol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £14,636 (2023-24, £14,210) a £1,126 (2023-24, £1,093) yn ychwanegol am bob aelod o'r grŵp hyd at uchafswm cyflog o £40,536 (2023-24, £39,350).

Nid yw'r Comisiwn yn rhoi buddion mewn nwyddau. Mae'r Aelodau o'r Senedd yn aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd y cyhoeddir cyfrifon blynyddol ar wahân ar ei gyfer drwy wefan y Senedd[13].

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ac maent yn cael eu codi ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn er hwylustod gweinyddol. Mae Cyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am y datgeliad.

[12] Y pwyllgorau oedd Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; Cyllid; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Llywodraeth Leol a Thai; Deisebau; Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus; Safonau Ymddygiad; Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru
Nid yw cadeiryddion / cyd-gadeiryddion pum pwyllgor yn cael tâl ariannol am gadeirio'r pwyllgorau hynny gan eu bod yn cael cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol eraill, a chaiff Aelodau hawlio un cyflog deiliad swydd yn unig. Sef y Pwyllgor Busnes, y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, Pwyllgor y Llywydd, y Pwyllgor Biliau Diwygio a Phwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru

[13] **https://senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio/ynghylch-aelodau-o-r-senedd/cynllun-pensiwn-aelodau-o-r-senedd-y-cynllun/**

## Deiliaid swyddi yn y Comisiwn

Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Mai 2007 o dan Adran 27 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006). Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd: sef: y Llywydd, sy'n cadeirio'r Comisiwn, a phedwar arall o Aelodau o'r Senedd a benodir gan y Senedd.  Rhestrir y Comisiynwyr a wasanaethodd yn ystod 2024–25 ar dudalennau 14 - 15.

Nid yw manylion eu pensiwn wedi'u cynnwys isod gan mai dim ond rhan o'u tâl sy'n berthnasol i'w gwaith fel Comisiynwyr.  Ni all eu pensiwn cronedig a'u Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) fel Comisiynwyr gael eu gwahanu o'r cyfansymiau a gronnwyd.

Mae costau cyflogau'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd[14] yn dâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac ni chodir hwy ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn.

***Tabl1:  Cyfanswm tâl mewn ffigurau sengl***

| Enw a theitl | Cyflog | | Buddion Pensiwn [15, 16] | | Cyfanswm [17] | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2024-25 £'000 | 2023–24 £'000 | 2024-25 £'000 | 2023–24 £'000 | 2024-25 £'000 | 2023–24 £'000 |
| Elin Jones AS – y Llywydd | 115-120 | 110-115 | 44 | 15 | 160-165 | 125-130 |
| David Rees AS - Dirprwy Lywydd – o 12 Mai 2021 | 95-100 | 90-95 | 33 | 17 | 125-130 | 105-110 |

[14] https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/y-dirprwy-lywydd/
[15] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgîl trosglwyddo hawliau pensiwn. (Dangosir y buddion pensiwn i'r £1000 agosaf).
[16] Efallai y bydd rhai Aelodau'n gorfod talu taliadau treth Lwfans Blynyddol o ganlyniad i gronni pensiwn yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.
[17] Mae'r Aelodau yr effeithir arnynt gan Rwymedi Dyfarniad McCloud wedi cael cynnig dewis ar unwaith i aros yn y Cynllun CARE (Cyfartaledd Gyrfa) neu ddychwelyd i'r adran Cyflog Terfynol yng Nghynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd am y cyfnod Unioni. Bydd unrhyw newid i fuddion o ganlyniad i'w penderfyniad o dan y Rhwymedi yn cael ei adlewyrchu yn y datgeliadau y flwyddyn nesaf unwaith y byddant wedi cael cyfle i wneud eu dewis o dan y Rhwymedi.

***Tabl 2: Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd - buddion pensiwn***

| Enw a theitl | Cynnydd / (gostyngiad) gwirioneddol mewn pensiwn £'000 | Cyfanswm a gronnwyd £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2025 £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2024[18] £'000 | Cynnydd / (gostyngiad) gwirioneddol mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Elin Jones AS – y Llywydd | 2.5-5.00 | 60-65 | 1050 | 965 | 28 |
| David Rees AS - Dirprwy Lywydd – o 12 Mai 2021 | 0-2.5 | 25-30 | 494 | 464 | 26 |

Mae Tabl 1 a Thabl 2 yn destun archwiliad

Clerc y Senedd (a benodwyd o dan Adran 26 o Ddeddf 2006) yw Prif Weithredwr y Comisiwn a'i Brif Swyddog Cyfrifyddu. Yn ymarferol, mae'r Comisiwn wedi dirprwyo'i gyfrifoldebau gweithredol i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, gyda rhai eithriadau. Mae ei staff yn cael eu penodi o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006. Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i sicrhau bod y Senedd yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arni i ymgymryd â'i rhwymedigaethau. Mae hyn yn sicrhau y gall y Senedd a'i phwyllgorau gynnull. Mae hefyd yn annog ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses ddemocrataidd ac yn hybu ymgysylltiad â'r broses honno, ac mae'n cefnogi'r uchelgais o wneud y Senedd yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

## Cynghorwyr Annibynnol ac Aelodau Pwyllgorau

Mae Comisiwn y Senedd yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau y caiff Comisiynwyr ac uwch dîm rheoli'r Senedd eu cynorthwyo a'u herio mewn modd adeiladol wrth eu gwaith. Rhestrir y Cynghorwyr Annibynnol a wasanaethodd yn ystod 2024–25 ar dudalennau 16-17.

[18] Mae'r symiau a ddangosir yn y CETV ym mis Mawrth 2024 wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r newid i ffactorau actiwaraidd CETV a adolygwyd yn dilyn prisiad actiwariadd 2023 a'u diweddaru ar 31 Gorffennaf 2024.

## Uwch staff y Comisiwn

Penodir staff y Comisiwn, yn unol ag amodau a thelerau a bennir gan y Comisiwn, yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r dull hwn yn unol â threfniadau'r gwasanaeth sifil. Nid yw staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fuddion o dan drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Dangosir uwch staff y Comisiwn yn y tabl isod. Cytunwyd ar y swyddi cyfarwyddwyr hyn yn unol ag Offeryn Dirprwyo'r Comisiwn. Mae’r Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau.

Mae'r uwch-reolwyr y mae’r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt yn cael eu penodi am gyfnod penagored. Os terfynir eu cyflogaeth yn gynnar am unrhyw reswm ac eithrio camymddygiad neu ymddiswyddiad, bydd yr unigolyn yn cael iawndal, fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.  Gadawodd un o uwch reolwyr y Comisiwn yn ystod 2024-25 am gost, a gymeradwywyd gan y Comisiwn ac a gynhwyswyd yn y cyfrifon, sef £40-45,000.

Crëwyd swydd Prif Gynghorydd Cyfreithiol, a phenodwyd Huw Williams i’r swydd ar 1 Ebrill 2022. Nodwyd ei rôl newydd yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24 ond er tryloywder llawn, mae ei fanylion wedi'u darparu fel ar gyfer yr Uwch Staff eraill yn yr adroddiad hwn.

| Enw | Teitl a phresenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| Manon Antoniazzi | Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Roedd Manon Antoniazzi yn bresennol mewn naw allan o naw o gyfarfodydd y Comisiwn, pedwar allan o bedwar o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac un allan o un o gyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau. |
| Siwan Davies<br>(hyd at 10 Ionawr 25) | Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd - nid oedd yn bresennol mewn cyfarfod yn ystod y cyfnod. |
| Siân Wilkins<br>(29 Ebrill – 17 Tachwedd 24) | Cyfarwyddwr Dros Dro Busnes y Senedd<br>Roedd Siân Wilkins yn bresennol mewn dau o naw chyfarfod y Comisiwn a dim un o bedwar cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Nid oedd yn bresennol yn unig gyfarfod y Pwyllgor Taliadau. |
| Matthew Richards | Cyfarwyddwr Dros Dro Busnes y Senedd |

| Enw | Teitl a phresenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| (18 Tachwedd 2024 – presennol) | Roedd Matthew Richards yn bresennol mewn pedwar o naw cyfarfod y Comisiwn ac un o bedwar cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Nid oedd yn bresennol yn unig gyfarfod y Pwyllgor Taliadau. |
| Arwyn Jones | Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>Roedd Arwyn Jones yn bresennol mewn naw allan o naw o gyfarfodydd y Comisiwn, pedwar allan o bedwar o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Nid oedd yn bresennol yn unig gyfarfod y Pwyllgor Taliadau. |
| Ed Williams | Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd<br>Roedd Ed Williams yn bresennol mewn naw allan o naw o gyfarfodydd y Comisiwn, pedwar allan o bedwar o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio. Nid oedd yn bresennol yn unig gyfarfod y Pwyllgor Taliadau. |
| Huw Williams | Prif Gynghorydd Cyfreithiol<br>Nid oedd Huw Williams yn bresennol yn unrhyw un o naw o gyfarfodydd y Comisiwn, ac nid oedd yn bresennol yn unrhyw un o bedwar o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Nid oedd yn bresennol yn unig gyfarfod y Pwyllgor Taliadau. |

Heblaw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, nid yw'r cyfarwyddwyr a'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol yn mynd i bob un o gyfarfodydd y Comisiwn a'i Bwyllgorau. Maen nhw'n bresennol mewn cyfarfodydd sy'n cyfateb i'w cyfrifoldebau unigol nhw.

***Tabl 3: Cyfanswm tâl mewn ffigurau sengl***

| Enw | Cyflog (£'000) | | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[19] | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2024-25 | 2023-24 | 2024-25 | 2023-24 | 2024-25 | 2023-24 |
| **Manon Antoniazzi** | 175-180 | 170-175 | 69 | 66 | 240-245 | 235-240 |
| **Siwan Davies[20]** | 105-110 | 125-130 | 46 | 49 | 150-155 | 175-180 |
| **Siân Wilkins[21]** | 30-35 | n/a | 13 | n/a | 45-50 | n/a |
| **Matthew Richards[21]** | 35-40 | n/a | 42 | n/a | 75-80 | n/a |
| **Arwyn Jones** | 110-115 | 110-115 | 45 | 44 | 155-160 | 155-160 |
| **Ed Williams** | 110-115 | 100-105 | 45 | 41 | 155-160 | 145-150 |
| **Huw Williams[22]** | 65-70 | 65-70 | 27 | 9 | 95-100 | 75-80 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros, tâl goramser a lwfansau recriwtio a chadw.

Nid yw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd na'r Cyfarwyddwyr yn cael taliadau bonws na buddion mewn nwyddau.

[19] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgîl trosglwyddo hawliau pensiwn.
[20] Gadawodd Siwan Davies y Comisiwn ar 10 Ionawr 2025. Cyfrifwyd am y pecyn ymadael fel treuliau yn y Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr ac mae hefyd yn cael ei ddatgelu yn yr Adroddiad Taliadau a Staff (tabl 7), yn unol â gofynion FReM. Roedd cyfanswm ei thâl am y flwyddyn yn cynnwys £71,320 yn ymwneud â'i ymadawiad. Roedd £41,830 yn daliad all-gontractiol gyda'r gweddill yn ymwneud â thâl yn lle rhybudd a gwyliau blynyddol cronedig. Ei chyflog am 10 mis oedd £105,519, a'r swm cyfwerth â blwyddyn lawn oedd £143,318.
[21] Roedd penodiad Sian Wilkins rhwng 29 Ebrill 2024 a 17 Tachwedd 2024, ei chyflog am 6 mis oedd £34,544, a'r swm cyfwerth â blwyddyn lawn ran-amser oedd £62,997.
Roedd penodiad Matthew Richards o 18 Tachwedd 2024, ei gyflog am 5 mis oedd £36,076, a'r swm cyfwerth â blwyddyn lawn oedd £97,651.
[22] Mae Huw Williams yn 0.6 cyfwerth ag amser llawn; nid yw ei gostau yn cael eu grosio hyd at cyfwerth ag amser llawn.

## Cyflogau staff y Comisiwn

Cyflogau (neu dâl) yw cydnabyddiaeth flynyddol gyfwerth ag amser llawn yr holl staff (gan gynnwys staff dros dro) fel ar 31 Mawrth 2025. Nid yw tâl yn cynnwys Yswiriant Gwladol y cyflogwr, cyfraniadau pensiwn, taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Nid oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau na thâl neu fonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn daladwy yn 2024-25 nac yn 2023-24.

| Gwybodaeth am dâl | 2024–25 £ | 2023–24 £ |
|---|---:|---:|
| Pwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf | 177,500 | 172,500 |
| Newid canrannol ym mhwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf o'r flwyddyn ariannol flaenorol | 2.90% | 2.99% |
| Newid canrannol yng nghyflog cyfartalog gweithwyr cyfwerth ag amser llawn (ac eithrio'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf) o'r flwyddyn ariannol flaenorol | 4.90% | 2.65% |
| Tâl gweithiwr sydd â chyflog ar y 25ain canradd cyflog yr holl weithwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol | 34,034 | 31,884 |
| Tâl gweithiwr sydd â chyflog ar y 50fed canradd cyflog yr holl weithwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol | 42,634 | 41,393 |
| Tâl gweithiwr sydd â chyflog ar y 75fed canradd cyflog yr holl weithwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol | 53,935 | 52,364 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Datgelir y berthynas rhwng pwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 a thâl gweithiwr ar y 25ain, 50fed a 75fed canradd o holl staff y Comisiwn yn y tabl a ganlyn.

| Gwybodaeth Cymhareb Tâl | Cymhareb cyflog y 25ain canradd | Cymhareb cyflog canolrifol | Cymhareb cyflog y 75ain canradd |
|---|---:|---:|---:|
| 2024-25 | 5.22:1 | 4.16:1 | 3.29:1 |
| 2023-24 | 5.41:1 | 4.17:1 | 3.29:1 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae cymhareb y 25ain ganradd wedi lleihau 3.51 y cant ac mae'r canolrif wedi gostwng 0.24 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac arhosodd cymhareb y 75ain ganradd yr un fath. Mae'r cymarebau yn weddol sefydlog o gymharu â'r flwyddyn flaenorol gan eu bod i gyd yn gymariaethau rhwng brig y bandiau cyflog perthnasol, felly maent i gyd wedi cynyddu gan yr un gyfran. Cynyddodd y cyflog uchaf 3 y cant yn unol â'r dyfarniad cyflog.

Yn 2024-25 a 2023-24, ni roddwyd unrhyw daliadau a oedd yn fwy na chyflog y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf. Roedd y taliadau yn amrywio o £24,500, a oedd yn sicrhau bod gweithwyr yn cael Cyflog Byw, i £176,000 (£23,000 i £170,000 yn 2023-24).

## Pensiynau

***Tabl 4: Uwch-reolwyr – buddion pensiwn***

| Gwir gynnydd mewn pensiwn[23] £'000 | Cyfanswm y pensiwn cronedig[24] £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2025[25] £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Gwir gynnydd mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd:*** *Manon Antoniazzi* | | | | |
| 2.5-5 | 45-50 | 737 | 622 | 53 |
| ***Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd*** *Siwan Davies* | | | | |
| 2.5-5 | 15-20 | 261 | 206 | 32 |
| ***Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Dros Dro****: Sian Wilkins* | | | | |
| 0-2.5 | 0-5 | 74 | 58 | 11 |
| ***Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Dros Dro****: Matthew Richards* | | | | |
| 0-2.5 | 30-35 | 570 | 529 | 36 |
| ***Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu:*** *Arwyn Jones* | | | | |
| 2.5-5 | 10-15 | 180 | 137 | 24 |
| ***Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd:*** *Ed Williams* | | | | |
| 2.5-5 | 5-10 | 123 | 78 | 31 |
| ***Prif Gynghorydd Cyfreithiol:*** *Huw Williams (Ymunodd â'r cynllun pensiwn ar 01/12/2023)* | | | | |
| 0-2.5 | 0-5 | 33 | 8 | 19 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

[23] Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn.
[24] Cyfanswm y pensiwn cronedig ar oedran pensiwn, a chyfandaliad cysylltiedig ar 31 Mawrth 2025 ar gyfer deiliaid swyddi cyfredol, ac ar y dyddiad y gwnaethant roi'r gorau i ddal swydd ar gyfer deiliaid swyddi blaenorol.
[25] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) plws (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

Mae'r buddion pensiwn cronedig a gynhwysir yn y tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn yr effeithir arno gan Rwymedi Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar eu cynnwys yn y cynllun gwaddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae Rhwymedi Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelod, neu'n gymwys i fod yn aelod, o gynllun pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae'r sail ar gyfer y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bod aelodau yr effeithir arnynt wedi'u dirwyn yn ôl i'r cynllun gwaddol perthnasol ar gyfer y cyfnod rhwymedi ac y bydd hyn yn berthnasol oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl wrth ymddeol i benderfynu yn lle hynny i dderbyn buddion a gyfrifwyd o dan delerau'r cynllun Alpha ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, sydd wedi'i rannu yn bedair adran – mae'r cynlluniau classic, premium a classic plus yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, a nuvos, sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - sef y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu budd-daliadau ar sail gyrfa ar gyfartaledd. Ymunodd yr holl weision sifil newydd eu penodi, a mwyafrif y rhai a oedd eisoes yn gweithio yn y gwasanaeth, â'r cynllun newydd.

Mae'r Prif Gynllun Pensiwn ac alpha yn gynlluniau statudol heb eu hariannu. Mae cyflogeion a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau cyflogeion yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05%, yn dibynnu ar gyflog). Caiff balans cost y buddion a delir eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Caiff pensiynau a delir eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r ddeddfwriaeth cynyddu pensiynau. Yn hytrach na'r trefniadau buddion a ddiffinnir, caiff cyflogeion ddewis trefniant buddion diffiniedig gyda chyfraniad gan y cyflogwr, y cyfrif pensiwn partneriaeth.

Yn alpha, mae pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, ac mae cyfanswm y swm a gronnir yn cael ei addasu'n flynyddol yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys EF. Gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn Neddf Cyllid 2004. Mae buddion PCSPS yn cael eu "bancio" ar gyfer pob aelod sy'n newid i alpha o PCSPS,

a chaiff y rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha.

Y pensiwn cronedig a nodir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn arferol, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol neu os yw'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn arferol aelodau cynlluniau classic, premium a classic plus yw 60 oed, a 65 yw'r oed ar gyfer aelodau cynllun nuvos, a'r oedran uchaf, sef 65 oed, neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau o alpha. Mae'r ffigurau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) neu yn alpha - fel sy'n briodol. Pan mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha, mae'r ffigurau'n dangos gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun, ond noder y gallai rhannau'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy wrth gyrraedd oedrannau gwahanol.

Pan gyflwynodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, roedd trefniadau trosiannol yn trin aelodau presennol y cynllun yn wahanol yn seiliedig ar eu hoedran. Arhosodd aelodau hŷn y PCSPS yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i alpha. Yn 2018, penderfynodd y Llys Apêl fod y darpariaethau trosiannol yng nghynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau.

O ganlyniad, mae camau'n cael eu cymryd i unioni'r diwygiadau hynny yn 2015, gan wneud darpariaethau'r cynllun pensiwn yn deg i'r holl aelodau. Mae'r rhwymedi ar gyfer pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys dwy ran. Caeodd y rhan gyntaf y PCSPS ar 31 Mawrth 2022, gyda'r holl aelodau gweithredol yn dod yn aelodau o alpha o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Mae'r ail ran yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oedran ar gyfer y cyfnod rhwymedi, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, drwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i'r PCSPS ar 1 Hydref 2023. Gelwir hyn yn 'dirwyn yn ôl'.

Ar gyfer aelodau sydd yng nghwmpas y rhwymedi pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, mae cyfrifo eu budd-daliadau at ddibenion cyfrifo eu gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod a'u cyfanswm ffigur unigol o dâl, a hynny ar 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024, yn adlewyrchu'r ffaith bod aelodaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 wedi'i chyflwyno'n ôl i'r PCSPS. Er y bydd aelodau maes o law yn cael opsiwn i benderfynu a ddylai'r cyfnod hwnnw gyfrif tuag at fuddion PCSPS neu alpha, mae'r ffigurau'n dangos y sefyllfa wedi'i ddirwyn yn ôl h.y. buddion PCSPS ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8 y cant a 14.75 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3 y cant o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5 y cant ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd eisoes yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun ei datgelu.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd ei fod wedi prynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hunan.

Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n

cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r modd yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn a manylion y cynlluniau pensiwn perthnasol wedi'u nodi yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu yn y cyfrifon hyn.

## Niferoedd y staff

Niferoedd y staff yn ôl categori

Mae'r holl uwch-reolwyr a'r holl staff yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn. Roedd nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch-reolwyr) fel a ganlyn:

***Tabl 5: Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn***

| Categori | 2024-25 | 2023-24* |
|---|---:|---:|
| Staff a gyflogwyd | 471.90 | 457.57 |
| Staff asiantaeth | 0.08 | 1.50 |
| Staff ar secondiad | 1.15 | 5.75 |
| Staff dros dro/achlysurol | 10.07 | 15.08 |
| **Cyfanswm** | **484.91** | **479.90** |

*Mae ffigurau 2023-24 wedi'u hailddatgan

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd y Comisiwn yn cyflogi 490.1 o staff cyfwerth ag amser llawn (31 Mawrth 2024: 486.6).

***Tabl 6: Penodiadau oddi ar y gyflogres***

| **Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres am fwy na £245 y dydd fel ar 31 Mawrth 2025** | **31 Mawrth 2025 Nifer** |
|---|---|
| Nifer yr ymrwymiadau presennol | 1 |
| **Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres ar unrhyw bwynt yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025** | **2024-25 Nifer.** |
| Nifer | 2 |
| Yn cynnwys:<br>Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac a ystyrir o fewn cwmpas IR35 | 2 |

Cafwyd un ymrwymiad oddi ar y gyflogres gan aelodau'r bwrdd neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, sef y Prif Swyddog Cyllid Dros Dro a benodwyd ar sail interim er mwyn helpu tra bod y broses recriwtio yn cael ei chynnal i lenwi'r swydd yn barhaol (2023-24 – un Prif Swyddog Cyllid Dros Dro, Tachwedd 2022 - Mehefin 2023).

***Tabl 7: Pecynnau ymadael***

| | **Dileu swyddi yn orfodol** | | **Ymadawiadau eraill** | |
|---|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2025** | **31 Mawrth 2024** | **31 Mawrth 25** | **31 Mawrth 2024** |
| **<£10,000** | - | - | - | - |
| **£10,000 - £25,000** | - | - | - | - |
| **£25,000-£50,000** | - | - | 1 | - |
| **£50,000 - £100,000** | - | - | - | - |
| **£100,000-£150,000** | - | - | - | - |
| **£150,000-£200,000** | - | - | - | - |
| **Cyfanswm y pecynnau** | **-** | **-** | **1** | **-** |
| **Cyfanswm y gost (£000)** | **-** | **-** | **£42** | **£-** |

Cytunwyd ar un pecyn ymadael a'i dalu yn ystod y flwyddyn ar werth o £41,830 (dim yn 2023-24)

***Tabl 8: Cyfansoddiad staff yn ôl rhywedd a band cyflog****

| Categori | 31 Mawrth 2025 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Menyw | Gwryw | Anneuaidd | Hunaniaeth arall o ran rhywedd | Cyfanswm |
| Cyfarwyddwyr | 1 | 4 | - | - | **5** |
| Staff | 263 | 242 | - | - | **505** |
| **Cyfanswm** | **264** | **246** | - | **-** | **510** |

| Categori | 31 Mawrth 2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Menyw | Gwryw | Anneuaidd | Hunaniaeth arall o ran rhywedd | Cyfanswm |
| Cyfarwyddwyr | 2 | 3 | - | - | **5** |
| Staff | 264 | 242 | - | - | **506** |
| **Cyfanswm** | **266** | **245** | **-** | **-** | **511** |

*Yn y tablau uchod, adroddir bod y staff a gyflogir yn niferoedd cyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, adroddir y dadansoddiad o rywedd ar sail niferoedd gwirioneddol.

Nid yw cynghorwyr annibynnol wedi'u cynnwys yn y ffigurau cyfwerth ag amser llawn na'r dadansoddiad rhywedd uchod.

## Data absenoldeb salwch

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gefnogi a rheoli gweithwyr sy'n absennol o'r gwaith oherwydd afiechyd neu salwch. Mae hyn yn golygu ymdrechu i greu amgylchedd sy’n galluogi cyfathrebu agored ac adeiladol a chymorth ar gyfer llesiant cyflogeion i’w galluogi i ddod â phob agwedd ar eu hunain i’r gwaith. Rydym yn parhau i weithredu ein Strategaeth Llesiant ar gyfer 2022-25, sy’n darparu ar gyfer dull strategol o gynllunio a rheoli ymyriadau llesiant, yn ogystal â chaniatáu ar gyfer asesu effaith y gweithgareddau hyn.

Yn 2024 cynhaliwyd Arolygon Pwls Llesiant yn nhymor yr haf a thymor yr hydref, sy'n ein galluogi i fonitro llesiant ein staff, rhoi ymyriadau ymatebol ar waith, a monitro effeithiolrwydd cyffredinol ein Strategaeth Llesiant. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o’r strategaeth lesiant ym mis Awst, sydd wedi’n galluogi i fireinio’r strategaeth ymhellach ar gyfer gweddill cyfnod y strategaeth.

Rydym yn rhoi gwerth uchel ar iechyd a lles ein gweithwyr ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu cefnogi a'u rheoli gan roi ystyriaeth ddyledus i anghenion gweithredol y Comisiwn. Mae absenoldeb yn arwain at gostau uchel i'r Comisiwn a'n staff ac yn cael effaith fawr arnynt, ac mae'r nod o sicrhau'r lefelau presenoldeb gorau o les i bawb. Mae gennym weithdrefnau ar waith i reoli absenoldeb er mwyn sicrhau bod dull teg, cyson a, lle bo'n briodol, cadarn yn cael ei ddefnyddio i reoli absenoldeb yn y Senedd. Eleni rydym wedi cynnal adolygiad o'n polisi rheoli absenoldebau salwch, a'i ddiweddaru. Rydym bellach wedi gweithredu polisïau ar gyfer Salwch Tymor Hir, Salwch Tymor Byr, a chanllawiau estynedig ar gyfer rheolwyr. O ganlyniad i hynny, bydd hyfforddiant yn cael ei gyflwyno i reolwyr yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Gostyngodd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn i gyfartaledd o 6.6 diwrnod a gollwyd fesul person (yn 2023-2024 collwyd 8.6 diwrnod fesul person). Mae hyn yn is na meincnod y Gwasanaeth Sifil (8.1 diwrnod) a ddefnyddir gennym i fonitro absenoldeb salwch yn ei gyfanrwydd. Mae absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl bellach yn cyfrif am 1,517 o ddiwrnodau a gollwyd (45.9 y cant o gyfanswm yr absenoldeb), sy'n golygu bod y gyfradd wedi dychwelyd i lefelau'r pandemig yn 2020-21 lle roedd absenoldeb iechyd meddwl yn cyfrif am 40 y cant o gyfanswm yr absenoldeb. Mae rhwydwaith MINDFUL y Senedd wedi parhau i gynnal sesiynau rhithwir galw heibio, gan greu lle i bawb gael sgwrs gyffredinol a chyngor yn ôl yr angen, ynghyd â sesiynau ar y safle.

Mae'r Gwasanaethau Adnoddau Dynol, Ystadau a TGCh wedi parhau i gydweithio i sicrhau bod gan staff sy'n gweithio o bell offer sgrin arddangos (DSE) priodol, gan gynnwys unrhyw addasiadau rhesymol a gofynion ergonomig. Mae'r Senedd yn defnyddio porth DSE ar-lein i sicrhau bod gan bob aelod o staff asesiadau DSE cyfredol, p'un a yw'n gweithio o bell neu ar yr ystâd.

## Data trosiant staff

Mae trosiant wedi cynyddu rywfaint dros y 12 mis diwethaf i 6.5 y cant (6 y cant yn 2023-24). Mae hyn yn is na chyfartaledd y DU ar gyfer y gyfradd ymddiswyddo gwirfoddol (10.3 y cant yn 2024 yn ôl **Xpert HR**). Y trosiant eleni yw 6.5 y cant, sy'n gyfartal â chyfartaledd y cyfraddau trosiant ar gyfer y 4 blynedd ariannol diwethaf. Cyn y pandemig roedd y gyfradd trosiant yn 9.7 y cant yn 2018-19.

## Dangosyddion ymgysylltu â staff

Yn dilyn arolwg staff Comisiwn y Senedd ym mis Mawrth 2023, cytunwyd y byddai ein harolygon staff blynyddol yn symud i gylch 18 mis, wedi’i ategu gan arolygon pwls bob hanner blwyddyn. Mae'r addasiad hwn wedi darparu sawl mantais. Mae'n meithrin dull mwy ystwyth ac ymatebol ar gyfer adborth gweithwyr, gan ein galluogi i barhau i fod yn ymwybodol o anghenion a phryderon ein cydweithwyr. Mae'r cylch 18 mis yn rhoi digon o amser i gynlluniau gweithredu a newidiadau ymarferol gael eu gweithredu a'u hasesu, tra bod yr arolygon pwls bob chwe mis yn gweithredu fel pwyntiau gwirio hanfodol i fesur effaith ein mentrau ac i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn gyflym. Mae'r dull hwn nid yn unig yn hyrwyddo gwelliant parhaus, ond hefyd yn lleihau llesgedd o ran arolygon ymhlith ein staff, gan ei fod yn taro cydbwysedd rhwng casglu data cynhwysfawr a pharchu eu hamser. Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i feithrin amgylchedd gwaith deinamig a chysylltiedig, lle mae lleisiau gweithwyr yn cael eu clywed a'u gweithredu'n rheolaidd.

Mae’r arolwg yn rhoi cipolwg ar brofiad gweithwyr o weithio yn y Senedd ac yn helpu i nodi meysydd i’w gwella fel y gallwn roi newid ar waith yn seiliedig ar adborth gweithwyr.  Ym mis Medi 2024, gwnaethom weithio ar y cyd â WorkL eto i gynnal yr arolwg, gan gyfuno eu harbenigedd hwy â'n hanghenion penodol ni. Mae'r bartneriaeth hon wedi ein galluogi ni i barhau i feincnodi ein canlyniadau yn erbyn amrywiaeth ehangach o sefydliadau tebyg, gan gynnwys y gwasanaeth sifil.

Mae’r arolwg yn seiliedig ar fframwaith sy’n mesur chwe thema graidd: Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth; Rhannu Gwybodaeth; Galluogi; Llesiant; Ennyn Balchder a Boddhad Gwaith. Unwaith eto, mae’r canlyniadau’n dangos bod timau’n gweithio’n hyblyg, ac yn cefnogi ei gilydd drwy heriau a newidiadau, ac mae’r mwyafrif helaeth o gydweithwyr yn falch o weithio yn y Senedd. Mae'r Sgôr Ymgysylltu yn y Gweithle eleni yn parhau i fod yn gadarnhaol (74 y cant), ac yn cymharu'n ffafriol â sgôr cyffelyb y sector cyhoeddus (70 y cant).

Er mwyn rhoi’r trawsnewidiad hwn ar waith yn effeithiol, rydym wedi trosoli ein Rhwydwaith Ymgysylltu Staff (Engage) fel system gymorth ganolog. Mae'r rhwydwaith hwn yn gwasanaethu fel cyfrwng ar gyfer lledaenu gwybodaeth am y dull arolwg newydd, gan sicrhau bod gweithwyr yn deall ei bwrpas a'i fanteision. At hynny, mae'r rhwydwaith Engage yn chwarae rhan hanfodol wrth annog cyfranogiad gweithredol yn yr arolygon blynyddol a'r arolygon pwls. Mae eiriolwyr ac arweinwyr o fewn y rhwydwaith yn helpu i feithrin diwylliant o adborth parhaus, ateb cwestiynau, mynd i'r afael â phryderon, a thynnu sylw at bwysigrwydd mewnbwn staff wrth lunio ein sefydliad. Mae cyrhaeddiad a

dylanwad y Rhwydwaith Ymgysylltu â Staff yn ei wneud yn fodd amhrisiadwy o hyrwyddo system adborth fwy deinamig a chynhwysol, sy'n cyd-fynd yn berffaith â'r cylch arolwg arfaethedig ac yn gwella ein hymdrechion ymgysylltu â chyflogeion ymhellach.

## Anabledd

Mae EMBRACE, rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle'r Senedd ar gyfer anabledd, yn darparu cefnogaeth gan gymheiriaid, gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, yn creu polisïau ac yn cyfrannu at y broses o'u datblygu drwy gynnig syniadau a herio. Mae gennym hefyd Uwch Hyrwyddwr anabledd sy'n gweithio'n agos gyda'n rhwydwaith ac yn eirioli dros gydraddoldeb i bobl anabl ar lefel uwch o ran gwneud penderfyniadau.

Mae gennym gamau ar waith i gefnogi gweithwyr sy'n nodi bod ganddynt anabledd. Rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Mae ein Polisi Recriwtio yn cyfeirio at ein safbwynt o warantu cyfweliad i ymgeiswyr sy'n bodloni gofynion sylfaenol y rôl, ac mae hyn hefyd yn berthnasol yn fewnol i weithwyr sydd am gael dyrchafiad. Gwahoddir ymgeiswyr i drafod gyda'r Tîm Recriwtio unrhyw anghenion unigol i gefnogi hygyrchedd ym mhob agwedd ar y broses recriwtio a chânt eu bodloni lle bo angen.

Gwneir addasiadau i'r gweithle, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yn dilyn trafodaethau rhwng gweithwyr a rheolwyr ar gyfer dechreuwyr newydd, gweithwyr mewn swydd neu'r rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith yn dilyn anaf neu salwch a allai gael effaith ar eu gallu i wneud eu gwaith. Gallai hyn gynnwys addasiadau i batrymau gwaith a/neu offer wedi'i addasu a thechnoleg gynorthwyol sy'n ystyriol o drefniadau gweithio o bell neu weithio ar y safle. Bydd gweithwyr anabl yn cael Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEP) pan fyddant fel arfer wedi'u lleoli ar ein hystad. Mae gan ein hystad systemau dolen glyw mewn sawl lleoliad ac arwyddion hygyrch. Cynhelir archwiliadau hygyrchedd rheolaidd ar ein hystad.

## Perthynas â'r undebau llafur

Mae Fforwm Partneriaeth y Senedd yn gorff sy'n cynnwys Rheolwyr a chynrychiolwyr o Ochr yr Undebau Llafur ac yn seiliedig ar yr egwyddor sylfaenol y caiff nodau ac amcanion sefydliad eu cyflawni orau gan reolwyr a gweithwyr, wedi'u cynrychioli gan eu hundebau llafur cydnabyddedig, yn cydweithio â'i gilydd i gyflawni nodau a rennir, er enghraifft adolygu parhaus a diweddaru polisïau Adnoddau Dynol.

Cynhelir cyfarfodydd Partneriaeth ffurfiol unwaith bob hanner tymor, gyda chyfarfodydd llai ffurfiol yn rheolaidd bob tymor, i roi cyfle i drafod y gwahanol faterion ar draws y Comisiwn a sicrhau ymgynghori ac ymgysylltu priodol ag Ochr yr Undebau Llafur. Eleni, llwyddodd Ochr yr Undebau Llafur ac ochr y rheolwyr i gytuno ar gytundeb cyflog ar gyfer 2025-26, gan gynnwys cynnydd wedi'i dargedu mewn cyflog i rai staff wedi'i ôl-ddyddio i Ebrill 2024; codiad cyflog o 5% i'r holl staff ar gyfer 2025-26; gwelliannau i absenoldebau/tâl mamolaeth a thadolaeth; cytundeb i lofnodi'r siarter 'Marw i Weithio'; cytundeb ynghylch ffordd wedi'i addasu o gyfrifo cyfradd gwyliau di-dâl; a chynnydd i gyfraddau wrth aros i ffwrdd ar gyfer gwaith.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022-2026 y Comisiwn yn amlinellu pedwar amcan blaenoriaeth ar gyfer tymor y Senedd hwn: mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sail i'n gweithgareddau pob dydd a'n cynllunio strategol; lle cynrychioliadol, cynhwysol i weithio ynddo; arweinyddiaeth a diwylliant a arweinir gan werthoedd; a Senedd gynhwysol, hygyrch i bobl Cymru.

Un o'n blaenoriaethau hirsefydlog yw sicrhau bod ein gweithlu yn cynrychioli'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu ac rydym yn gweithio i fynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth pobl o leiafrifoedd ethnig yn ein gweithlu, yn enwedig ar y lefel lle gwneir penderfyniadau uwch. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys ehangu ein pibellau talent, gwella ein brand fel cyflogwr a gweithio gyda phartneriaid dibynadwy i ymgysylltu'n agosach fel sefydliad a allai fod yn gyflogwr o ddewis gyda chymunedau lleol.  Eleni rydym wedi croesawu ein trydedd garfan o interniaid YMLAEN, sef ein rhaglen i raddedigion, ar gyfer graddedigion o leiafrifoedd ethnig.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith i ymgorffori amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwaith i fod yn gyflogwr enghreifftiol, sy'n cefnogi senedd gynhwysol, yn ein hadroddiad blynyddol ar Amrywiaeth a Chynhwysiant.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 4 Gorffennaf 2025**

# Atebolrwydd ac archwilio

## Datganiad o gyflenwad y Senedd a nodiadau ategol

### a) Crynodeb o Alldro Adnoddau 2024-25

| | | Y gyllideb | Alldro | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant)** | **Alldro** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Adnoddau i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd | Nodyn SOS 01 | 51,446 | 50,739 | 707 | 46,360 |
| Costau sy'n gysylltiedig ag etholiad | Nodyn SOS 01 | - | - | - | - |
| Adnoddau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau | Nodyn SOS 01 | 18,684 | 18,387 | 297 | 17,364 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | Nodyn SOS 01 | 400 | 231 | 169 | 136 |
| | | **70,530** | **69,357** | **1,173** | **63,860** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a gymeradwywyd a'r alldro yn SOS 01 ac yn yr Adroddiad ar Berfformiad.

## b) Gofyniad arian parod net 2024-25

| | | Y gyllideb | Alldro | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant)** | **Alldro** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gofyniad arian parod net | Nodyn SOS 03 | 67,100 | 65,126 | 1,974 | 60,800 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae SOS 03 i'w weld yn yr Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra, tudalen 223.

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon Adnoddau

## (Datganiad o gyflenwad y Senedd)

***SOS 01. Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net 2024-25***

| Gwariant Refeniw | Alldro £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro 2023-24 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 30,356 | 29,663 | (693) | 31,122 | 766 | 28,585 |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff | 13,182 | 15,064 | 1,882 | 13,828 | 646 | 11,028 |
| Costau cyfalaf – heblaw arian parod | 5,481 | 5,360 | (121) | 5,360 | (121) | 5,297 |
| **Gwariant refeniw gros** | **49,019** | **50,087** | **1,068** | **50,310** | **1,291** | **44,910** |
| Incwm refeniw gros wedi'i gymhwyso | (75) | (100) | (25) | (100) | (25) | (102) |
| **Gwariant Refeniw net** | **48,944** | **49,987** | **1,043** | **50,210** | **1,266** | **44,808** |
| Gwariant cyfalaf* | 1,176 | 500 | (676) | 500 | (676) | 933 |
| **Alldro adnoddau net (gwariant y Comisiwn)** | **50,120** | **50,487** | **367** | **50,710** | **590** | **45,741** |
| Cyflogau a lwfansau'r Aelodau, a chostau cysylltiedig | 18,387 | 19,180 | 793 | 18,684 | 297 | 17,364 |
| Cymorth ar gyfer y Bwrdd Taliadau | 535 | 627 | 92 | 634 | 99 | 539 |

| | Alldro | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig | Alldro 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Swyddfa'r Comisiynwyr Safonau | 84 | 101 | 17 | 102 | 18 | 80 |
| **Alldro adnoddau** | **69,126** | **70,395** | **1,269** | **70,130** | **1,004** | **63,724** |
| Costau cyllid Pensiwn yr Aelodau | 231 | 1,800 | 1,569 | 400 | 169 | 136 |
| **Cyfanswm alldro adnoddau net** | **69,357** | **72,195** | **2,838** | **70,530** | **1,173** | **63,860** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad. * Cyfanswm y gwariant cyfalaf yw £1,176,000 ac roedd £336,000 ohono mewn perthynas â phrosiect Diwygio'r Senedd (2023-24 £933,000)

## Alldro adnoddau net - Sylwebaeth reoli

Yr alldro adnoddau ar wariant y Comisiwn, cyn Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau, costau cymorth i Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, costau cymorth Swyddfa'r Comisiynydd Safonau a chostau cyllid pensiwn, ar gyfer 2024-25 oedd £50.1 miliwn yn erbyn cyllideb o £50.7 miliwn, gan arwain at danwariant cyffredinol o £0.6 miliwn (1.2 y cant). Mae hyn o fewn ystod targed y Comisiwn o 0.0 y cant i 1.5 y cant o'r gyllideb. Mae'r sefyllfa hon yn cynnwys yr alldro ar gyfer pob un o'r cyllidebau wedi'u neilltuo sy'n ymwneud â Ffyrdd o Weithio a Diwygio'r Senedd. Roedd y cyllidebau hyn yn benodol ar gyfer y prosiectau perthnasol gyda'r tanwariant yn gyfyngedig ac nid oedd ar gael ar gyfer gwariant gweithredol.

Caiff yr alldro ar gyfer pob prosiect ei ddangos yn y tabl isod. Ac eithrio'r eitemau hyn, roedd yr alldro gweithredol yn danwariant o £0.28miliwn (0.56 y cant).

| Prosiect | Cyllideb £000 | Alldro £000 | Amrywiad £000 |
|---|---|---|---|
| **Ffyrdd o weithio** | £1,031 | £789 | £242 |
| **Diwygio'r Senedd** | £2,071 | £2,005 | £65 |

Ac eithrio eitemau nad ydynt yn arian parod a chyllidebau prosiectau wedi'u clustnodi, yr alldro oedd £41.8 miliwn yn erbyn cyllideb o £42.2 miliwn, gan arwain at danwariant o 0.96 y cant, sydd unwaith eto o fewn ystod darged y Comisiwn ac yn adlewyrchu'r dull rhagweithiol o reoli adnoddau'r Comisiwn.

Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i ail-ddylunio'r gofod yn ystâd Bae Caerdydd i ddarparu ar gyfer 36 o Aelodau ychwanegol o 2026 ymlaen. Yn dilyn y gwaith i leihau'r gofod sydd ar gael i staff y Comisiwn yn ystod 2023-24, dechreuodd y gwaith i greu swyddfeydd ychwanegol ar gyfer yr Aelodau, i'w gwblhau yn ystod 2025-26. Siambr Hywel, yn Nhŷ Hywel, oedd y Siambr wreiddiol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd rhwng 1999 a 2006. Mae'n cael ei defnyddio tra bod y Siambr yn cael ei hail-ffurfio. Mae'r prosiect i sicrhau llety i'r Comisiwn pan fydd y brydles ar Dŷ Hywel yn dod i ben yn 2032 wedi gwneud cynnydd da. Mae'r Comisiwn wedi defnyddio arbenigedd allanol lle nad yw'r sgiliau gofynnol yn bodoli'n fewnol i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith caffael ac i sicrhau'r ateb sy'n diwallu anghenion y Senedd yn y dyfodol orau yn ogystal â darparu gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus.

Yr elfen 'staff' o'r gyllideb weithredol yw'r elfen fwyaf ohoni ac mae'r defnydd o 'ddyddiadau cychwyn targed' ar gyfer recriwtio wedi hwyluso gwaith rheoli a

rhagfynegi ariannol ac adnoddau gwell. yn ogystal â chefnogi'r tîm recriwtio i gyfeirio adnoddau mewn ffordd strwythuredig a rheoledig.

Roedd y Grŵp Rheoli Portffolio yn gyfrifol am ddyrannu cronfa’r prosiect yn ystod y flwyddyn, gan dargedu'r cyllid sydd ar gael ar feysydd blaenoriaeth y Comisiwn a gwaith cynnal a chadw cylch bywyd hanfodol. Cwblhawyd prosiect allweddol i weithredu system adnoddau dynol/cyflogres newydd hefyd, gyda'r system newydd yn mynd yn fyw ym mis Chwefror 2025. Bydd gwaith pellach yn parhau ar y prosiect hwn yn ystod 2025-26 i ddarparu rhai o nodweddion y system sy’n weddill.

Y gyllideb a osodwyd ar gyfer Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau oedd £18.7 miliwn. Yr alldro oedd £18.4 miliwn, gan roi tanwariant o ychydig dros 1.6 y cant. Gostyngwyd y gyllideb hon £0.4miliwn yn ystod y flwyddyn drwy gyllideb atodol i adlewyrchu'r tanwariant disgwyliedig. Mae tanwariant o'r gyllideb hon wedi'i neilltuo ac nid yw ar gael i'r Comisiwn.

Mae cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol y Comisiwn ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd yn y dyfodol. Gosodwyd y gyllideb o £1.8 miliwn ar gyfer 2024-25 ym mis Tachwedd 2023, ar sail data a oedd ar gael ar y pryd, ac a ostyngwyd yn ddiweddarach i £0.400 miliwn drwy’r gyllideb atodol. Y costau gwirioneddol oedd £0.231 miliwn.

***SOS 02. Cysoni alldro â gwariant gweithredu net.***

| | Nodyn | 2024-25 £000 | 2023-24 £’000 |
|---|---|---|---|
| Alldro adnoddau net | SOS 01 | 69,357 | 63,857 |
| Gwariant cyfalaf | 4 | (1,176) | (933) |
| Taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru | | 795 | 800 |
| Incwm na ellir ei gadw sy’n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | 3 | 3 |
| **Gwariant gweithredu net** | | **68,979** | **63,727** |

Mae’r tabl hwn yn destun archwiliad

Mae’r taliadau uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, sef £794,683 (2023-24, £800,257) yn deillio o gostau cyflogau’r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; ac o gostau cyflogau a threuliau y Comisiynydd Safonau, y Comisiynydd Safonau Dros Dro a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Telir y cyflogau a'r treuliau hyn gan y

Comisiwn, a'u hadennill o'r Gronfa. Fel tâl uniongyrchol ar y Gronfa maent wedi'u heithrio o'r alldro adnoddau net.

Cafodd y Comisiwn £3,360.34 (2023-24 £3,314.41) mewn llog ar ei gyfrif banc masnachol yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25. Bydd hwn yn cael ei ildio i Gronfa Gyfunol Cymru yn 2025-26 yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, nad yw'n caniatáu i'r Comisiwn gadw'r llog banc a enillwyd.

# Y Dystysgrif ac adroddiad yr archwilydd annibynnol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Adroddiad ar yr archwiliad o’r datganiadau ariannol

### Barn am y datganiadau ariannol

Rwy’n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn y Senedd ar gyfer y flwyddyn 2024-25 o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol Datganiad o Gyflenwad, Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Datganiad o’r Newidiadau yn Ecwiti’r Trethdalwyr; a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu materol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfraith gymwys a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y’u dehonglwyd a’u mabwysiadwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob modd perthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Comisiwn y Senedd ar 31 Mawrth 2025, a’r gofyniad arian parod net, yr alldro adnoddau net, a’r costau gweithredu net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi’u paratoi’n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF codwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob modd perthnasol:

- mae'r Datganiad o Gyflenwad yn cyflwyno'r alldro yn briodol yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i

ben ar 31 Mawrth 2025 ac mae'n dangos nad aed dros y cyfansymiau hynny;

- mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith gymwys a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra o Gyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran ar gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth lunio'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi canfod ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Mabwysiedir sail busnes gweithredol o gyfrifyddu ar gyfer Comisiwn y Senedd i ystyried y gofynion a nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth lunio'r datganiadau ariannol pan ragwelodd y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau yn y dyfodol.

## Rhagor o wybodaeth

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a’r rhannau hynny yn yr adroddiad taliadau a staff sy’n destun archwiliad a'm hadroddiad archwilio arnynt. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy’n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i’r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi casgliad sicrwydd arnynt. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu’r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw’n ymddangos ei bod yn cyfateb i gamddatganiad o bwys.

Os byddaf yn dod o hyd i anghysondebau sylweddol o'r fath neu os ymddengys fod camddatganiadau o bwys, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon yn gamddatganiad o bwys, mae'n ofynnol i mi adrodd hynny.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae’r rhan o’r Adroddiad Taliadau a Staff sydd i’w harchwilio wedi cael ei llunio’n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae’r rhannau o’r Adroddiad Taliadau sydd i’w harchwilio wedi cael eu llunio’n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*; ac

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Trosolwg, Dadansoddi Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu llunio ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt fel eithriad

Yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Trosolwg, Dadansoddi Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf sylwadau ar y materion a ganlyn, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad.
- nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw neu na chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â hwy;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn gytûn â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a nodir yn benodol gan Drysorlys EF am daliadau a thrafodiadau eraill wedi cael ei datgelu;
- nad yw datgeliadau penodol o daliadau a bennwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Taliadau a Staff sydd i'w harchwilio yn gytûn â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfedd â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- llunio'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;

- sicrhau rheoleidd-dra trafodiadau ariannol;
- rheolaethau mewnol fel y mae’r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol i alluogi datganiadau ariannol i gael ei lunio heb gamddatganiad o bwys, boed oherwydd twyll neu wall;
- asesu gallu Comisiwn y Senedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio’r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni bai bod y Prif Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw *archwilio, ardystio ac adrodd ar y* datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd heb gamddatganiad o bwys, boed oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys mewn adroddiad. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac ystyrir eu bod o bwys os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, ar eu pennau eu hunain neu gyda’i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achos o anghydymffurfedd â deddfau a rheoliadau. Byddaf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Ymholi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Comisiwn y Senedd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Comisiwn y Senedd sy'n ymwneud â:

- nodi a gwerthuso deddfau a rheoliadau a chydymffurfio â hwy ac a oeddent yn ymwybodol o achosion o anghydymffurfedd;
- dod o hyd i risgiau'n ymwneud â thwyll ac ymateb iddynt, ac a oes ganddynt wybodaeth am dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
- rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu anghydymffurfedd â deddfau a rheoliadau.

- Ystyried, fel tîm archwilio, sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol, a dangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y perygl o dwyll mewn cysylltiad â diystyru rheolaethau gan reolwyr;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiwn y Senedd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Comisiwn y Senedd yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiwn y Senedd;
- Cael dealltwriaeth o berthynas partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu a oeddent yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- ymholi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd Comisiwn y Senedd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd Gweithredol;
- mynd i'r afael â'r risg o dwyll a all godi os yw rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth gyflwyno amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes trafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu deddfau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i arwyddion o dwyll neu anghydymffurfedd â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiwn y Senedd, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae disgrifiad ychwanegol o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau archwilio eraill

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd resymol bod y Datganiad o Gyflenwad yn cyflwyno'r alldro yn briodol yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 ac mae'n dangos nad aed dros y cyfansymiau hynny.

Mae yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, ymhlith materion eraill, gan gynnwys diffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
**Dyddiad: 8 Gorffennaf 2025**

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall,
Caerdydd
CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Senedd Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Senedd Cymru; nid yw'r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

**Dydd Gŵyl Dewi 2025**

Cafwyd diwrnod llawn hwyl i'r teulu, perfformiadau, a gweithgareddau yn y Senedd



# Datganiadau Ariannol



# Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025***

| Incwm o weithrediadau | Nodyn | 2024-25 £'000 | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | SOS 05 | 72 | 99 |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **72** | **99** |
| **Gwariant gweithredu** | | | |
| Costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 2a | 38,241 | 36,435 |
| Costau eraill yr Aelodau | 2b | 11,823 | 10,839 |
| Costau cyllid Pensiwn yr Aelodau | 2a a 5 | 231 | 136 |
| Taliadau dibrisiant ac amhariad | 3 | 4,873 | 4,673 |
| Cost cyllid | 3 | 608 | 624 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 13,275 | 11,119 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **69,051** | **63,826** |
| | | | |
| **Gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth** | SOS 02 | **68,979** | **63,727** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net: | | | |
| Enillion actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 2a a 5 | (5,515) | (1,424) |
| Enillion net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (100) | 192 |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **63,364** | **62,495** |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Nid oes unrhyw enillion na cholledion sylweddol heblaw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 192 i 228 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

***Ar 31 Mawrth 2025***

| **Asedau anghyfredol:** | **Nodyn** | **31 Mawrth 2025 £'000** | **31 Mawrth 2024 £'000** |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 69,697 | 71,296 |
| Asedau hawl i ddefnydd | 10 | 63,155 | 65,153 |
| Ased pensiwn | 5 | 4,211 | (1,073) |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | **137,063** | **135,376** |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Stocrestrau | | 15 | 14 |
| Symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | 6 | 2,267 | 2,249 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 7 | 350 | 276 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **2,632** | **2,539** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | **139,695** | **137,915** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | (5,437) | (4,485) |
| Rhwymedigaethau prydles | 10 | (1,7236) | (1,733) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(7,173)** | **(6,218)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **132,522** | **131,697** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | |
| Darpariaethau | 9 | (144) | (144) |
| Rhwymedigaethau prydles | 10 | (62,304) | (64,039) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(62,448)** | **(64,183)** |
| **Cyfanswm asedau namyn y cyfanswm rhwymedigaethau** | | **70,074** | **67,514** |
| **Ecwiti Trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | 30,643 | 33,467 |
| Y gronfa bensiwn wrth gefn | 5 | 4,211 | (1,073) |
| Y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn | | 35,220 | 35,120 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **70,074** | **67,514** |

Mae'r Comisiwn yn cadw'r cronfeydd wrth gefn a ganlyn:

- Cronfa Gyffredinol sy'n cynrychioli cyfanswm yr asedau heb gynnwys rhwymedigaethau'r Comisiwn, i'r graddau nad yw'r cyfanswm yn cael ei gynrychioli gan gronfeydd wrth gefn eraill ac eitemau ariannu.
- Mae'r Gronfa Bensiwn wrth Gefn yn dangos y newid mewn enillion actiwaraidd neu golledion ar rwymedigaethau cynllun pensiwn (a gydnabyddir yn y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr).
- Mae'r Gronfa Ailbrisio wrth Gefn yn gronfa nad yw'n arian parod a grëwyd i adlewyrchu gwir werth asedau'r Comisiwn pan fo gwerth marchnad categori penodol o ased yn fwy neu'n llai na gwerth ased o'r fath ar yr adeg y caiff ei gofnodi yn y llyfrau cyfrifon.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 4 Gorffennaf 2025**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 192 i 228 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad Llif Arian

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025***

| | Nodyn | 2024-25 £'000 | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant gweithredu net | SOS 02 | (68,979) | (63,724) |
| **Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:** | | | |
| Dibrisiad, amorteiddiad ac amhariad | 4 | 2,875 | 2,676 |
| Colled wrth waredu asedau | 4 | - | - |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn stoc | | (1) | 4 |
| (Cynnydd) mewn symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | 6 | (18) | (94) |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth | | - | - |
| Cynnydd mewn symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | 952 | 131 |
| Gostyngiad mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr | SOS 03 | (74) | (50) |
| Cynnydd mewn rhwymedigaethau prydles | 10 | - | 230 |
| Llog ar rwymedigaethau prydles | | 608 | 624 |
| Defnydd o ddarpariaethau | | - | (27) |
| Costau cyllid pensiynau | 9 | 231 | 136 |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(64,406)** | **(60,094)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (1,176) | (933) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(1,176)** | **(933)** |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Asedau hawl i ddefnydd – ychwanegiadau | | - | (230) |
| Dibrisiant asedau 'hawl i'w defnyddio' | 10 | 1,998 | 1,997 |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (cyflenwad) | | 65,476 | 61,076 |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (taliadau uniongyrchol) | SOS 02 | 795 | 800 |
| Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | SOS 03 | (276) | (226) |
| Llog banc (yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru) | | (3) | (3) |
| Talu rhwymedigaethau prydles | 10 | (2,340) | (2,337) |

| | Nodyn | 2024-25 £’000 | 2023-24 £’000 |
|---|---|---|---|
| **Mewnlif arian net o weithgareddau cyllido** | | **65,656** | **61,077** |
| Cynnydd net mewn arian parod ac eitemau sy’n cyfateb i arian parod | SOS 03 | 74 | 50 |
| Arian parod ac eitemau sy’n cyfateb i arian parod ar ddechrau’r flwyddyn | 7 | 276 | 226 |
| **Arian parod ac eitemau sy’n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **7** | **350** | **276** |

Mae’r nodiadau ar dudalennau 192 i  228 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025***

| | Nodyn | Y gronfa gyffredinol £'000 | Y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn £'000 | Y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn £'000 | Ecwiti Trethdalwyr £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **35,457** | **35,312** | **(2,361)** | **68,408** |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SOS 02 | (63,724) | (192) | 1,424 | (60,492) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 5 | 136 | | (136) | 0 |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad (awdurdodedig) | SOS 03 | 61,536 | | | 61,536 |
| Cyflenwad (heb ei dynnu) | SOS 03 | (460) | | | (460) |
| Taliadau uniongyrchol | SOS 02 | 800 | | | 800 |
| Llog banc (taladwy) | | (2) | | | (2) |
| Swm yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad | | (276) | | | (276) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **33,467** | **35,120** | **(1,073)** | **67,514** |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SOS 02 | (68,979) | 100 | 5,515 | (63,364) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 5 | 231 | - | (231) | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad (awdurdodedig) | SOS 03 | 67,100 | | | 67,100 |
| Cyflenwad (heb ei dynnu) | SOS 03 | (1,624) | | | (1,624) |
| Taliadau uniongyrchol | SOS 02 | 795 | | | 795 |
| Incwm na ellir ei gadw | SOS 02 | 3 | | | 3 |
| Swm yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |

| | Nodyn | Y gronfa gyffredinol £'000 | Y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn £'000 | Y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn £'000 | Ecwiti Trethdalwyr £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflenwad | | (350) | | | (350) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | | **30,643** | **35,220** | **4,211** | **70,074** |

Mae'r nodiadau ar dudalen 192 i  228 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon

## 01. Datganiad ar y polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar sail croniadol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2024-25 a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Senedd Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus.

Pan fo'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiwn er mwyn cyflwyno darlun cywir a theg. Cafodd polisïau cyfrifyddu'r Comisiwn eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Yn ogystal â'r datganiadau a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y Comisiwn yn paratoi dau ddatganiad cyflenwad ychwanegol.

### Adolygiad o safonau newydd

Cwblhawyd adolygiad o bob safon a dehongliad newydd a gyhoeddwyd ac a ddaeth i rym yn 2024-25 gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) yn ystod y flwyddyn.

Roedd y safonau a'r dehongliadau / diwygiadau a ganlyn, nad ydynt wedi'u cymhwyso yn y datganiadau ariannol hyn, dan sylw ond nid ydynt wedi dod i rym eto:

- Lack of Exchangeability – Amendments to IAS 21 The Effects of Changes in Foreign Exchange Rates
- Amendments to the Classification and Measurement of Financial Instruments – Amendments to IFRS 9 Financial Instruments and IFRS 7 Financial Instruments: Disclosures
- Contracts Referencing Nature-dependent Electricity – Amendments to IFRS 9 and IFRS 7
- IFRS 18 Presentation and Disclosure in Financial Statements

- IFRS 19 Subsidiaries without Public Accountability: Disclosures

Nid yw'r Comisiwn yn disgwyl y byddai mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol mewn cyfnodau yn y dyfodol.

**IFRS 16 – Prydlesau**

Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu lefel de-minimis o £20,000 ac wedi dewis peidio â chymhwyso IFRS 16 i asedau anniriaethol gan fod y rhain wedi'u dileu'n llawn.

## Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i ystyried ailbrisio asedau sefydlog yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Amcangyfrifon cyfrifyddu critigol a meysydd dyfarnu

Er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol mae angen gwneud amrywiaeth o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y gwerthoedd a adroddir ar ddiwedd y flwyddyn a'r gwariant a'r incwm o fewn y flwyddyn.

Mae tri amcangyfrif cyfrifyddu allweddol a maes dyfarnu o fewn y cyfrifon hyn:

1. **Aelodau o Gynllun Pensiwn y Senedd** - mae gwerth teg yr ased pensiwn yn seiliedig ar ragdybiaethau arwyddocaol a chyfrifiadau cymhleth a wnaed gan Actiwari. Mae manylion i'w gweld yn Nodyn 02.A, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y cynllun pensiwn a'r polisïau cyfrifyddu perthnasol.

2. **Darpariaethau** - gwneir darpariaethau pan, ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, ei bod yn fwy tebygol na pheidio bod rhwymedigaeth ariannol yn bodoli na ellir ei amcangyfrif yn gywir ar ddiwedd y flwyddyn. Mae manylion y darpariaethau a gedwir ar ddiwedd y flwyddyn wedi'u nodi yn Nodyn 09 gyda rhagor o wybodaeth yn y polisi cyfrifyddu perthnasol.

3. **Prisiadau asedau tir ac eiddo** - rhaid dal asedau eiddo a thir ar werth teg a gallant amrywio'n sylweddol. Mae'r Comisiwn yn cyflogi prisiwr cymwysedig i ymgymryd â'r gwaith hwn ar ei ran. Mae manylion i'w gweld yn Nodyn 04 a'r polisïau cyfrifyddu perthnasol.

### Eiddo, offer a chyfarpar

Caiff asedau eu cyfalafu pan ystyrir bod gwariant ar offer a/neu brosiectau yn bodloni’r profion cydnabyddiaeth a nodir yn Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 16 ar Eiddo, Peiriannau ac Offer. Nid yw'r Comisiwn yn defnyddio de-minimis i gyfalafu ond mae'n cynnal asesiad sylweddol o drafodion i gyfalafu gwariant pan fo'n briodol gwneud hynny.

Caiff tir ac adeiladau eu prisio gan gwmni proffesiynol bob tair blynedd o leiaf. Ni chaiff asedau diriaethol eraill eu hailbrisio, ond cedwir hwy ar werth teg, gan na fyddai’r symiau dan sylw yn arwyddocaol, ym marn y Comisiwn.

### Amhariad asedau

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau na phriodolir gwerth uwch i asedau na’r symiau y gellid eu hadennill. Os yw’r symiau hyn yn llai na gwerth llyfr net yr asedau, fe’i nodir yn golled amhariad yn gyntaf i’r gronfa ailbrisio wrth gefn heb unrhyw falans weddilliol yn cael ei ysgwyddo i’r Datganiad Gwariant Net.

### Asedau sy’n cael eu hadeiladu

Caiff gwerth asedau sy’n cael eu hadeiladu ei nodi yn seiliedig ar gost hanesyddol gan yr ystyrir bod hyn yn cyfateb mewn modd derbyniol â gwerth teg. Pan ddechreuir defnyddio’r ased, fe’i trosglwyddir i’r categori priodol a chaiff ei chynnwys mewn adolygiadau ailbrisio ac amhariad dilynol.

### Asedau a gafwyd yn rhodd

Caiff asedau a gafwyd yn rhodd eu cyfalafu yn ôl eu gwerth cyfredol wrth eu derbyn, ac fel rheol cânt eu hailbrisio yn yr un modd ag asedau a brynwyd. Mae gwerth asedau a gafwyd yn rhodd yn cael ei gredydu â gwerth y rhodd gwreiddiol ac ailbrisiadau dilynol. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gynnwys yn y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn unol â phenderfyniad Trysorlys Ei Fawrhydi o dan y Rhaglen Clear Line of Sight.

### Dibrisiant

Nid yw asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio. Cyfrifir dibrisiant ar gyfradd a fydd yn lleihau gwerth adeiladau ac asedau diriaethol eraill drwy randaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff asedau eu dadansoddi yn ôl eu helfennau perthnasol i adlewyrchu eu hoes

economaidd amrywiol. Ni chânt eu dibrisio yn ystod y flwyddyn y cawsant eu caffael.

Mae oes asedau fel arfer fel a ganlyn, ond cânt eu hadolygu fesul achos fel bod bywydau defnyddiol yn adlewyrchu'r amgylchiadau cyffredinol orau:

| Ased | Oes ased |
|---|---|
| Tir ac Adeiladau | 50 mlynedd neu gyfnod arall a bennir gan brisiwr cymwysedig (RICS) |
| Offer sefydlog: | 10 mlynedd, neu gyfnod arall a bennir gan y cyflenwr pan gaiff ei brynu neu ei brisio. |
| Gosodion a ffitiadau: | Pum i ddeng mlynedd |
| Offer TGCh, cyfarpar clyweledol a darlledu | Pedair i ddeng mlynedd |
| Seilwaith TGCh: | 10 blynedd |
| Asedau annirweddol (meddalwedd): | Pum mlynedd |
| Cerbydau modur: | Pedair blynedd |
| Asedau a gafwyd yn rhodd: | I'w hasesu ar ôl eu cael |

## Yr elfen ddibrisiant a wireddir o'r gronfa ailbrisio wrth gefn

Bydd gwerth asedau ar ôl eu hailbrisio yn destun dibrisiant. Gall elfen o'r dibrisiant ddod i law felly oherwydd cynnydd yn y prisiad, a byddai'n fwy na'r dibrisiant a fyddai'n cael ei gyfrifo o ddefnyddio cost hanesyddol yr asedau. Byddai'r swm sy'n ymwneud â gormodedd o'r fath yn elw a wireddir ar y prisiad, ac mae i'w drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gronfa Gyffredinol, pan gaiff yr ased ei werthu.

## Cydrannau Asedau

Caiff asedau eiddo eu hadolygu drwy'r prisiadau proffesiynol bob tair blynedd i gadarnhau a oes unrhyw ran o'r asedau sydd ag oes ddefnyddiol sylweddol wahanol. Lle bo hyn yn wir, bydd yr ased yn cael ei rhannu'n gydrannau a bydd y rhannau gwahanol yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol briodol. Caiff asedau a brynwyd yn y cyfnod interim eu hadolygu gan y tîm Cyllid a Rheolwyr Asedau.

Mae asedau TGCh wedi'u “grwpio” yn TGCh; offer clyweled a darlledu; Seilwaith TGCh, ac asedau anghyffyrddadwy. Bydd y gwahanol rannau yn cael eu dibrisio dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol briodol.

## Datganiad gwariant cynhwysfawr

Mae incwm a chostau gweithredu yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Comisiwn. Mae incwm yn cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol. Dangosir incwm a chostau heb gynnwys TAW os gellir ei adennill.

Mae'r Comisiwn yn ad-dalu Aelodau mewn cysylltiad â threuliau neu gostau a godir ym mhob blwyddyn ariannol yn unol â'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau amrywiol ar dreuliau neu gostau a nodir yn y Penderfyniad.

## Stocrestrau

Nodir y stoc, gan gynnwys nwyddau i'w hailwerthu yn siop y Comisiwn, yn ôl y gost neu’r pris gwerthadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

## Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion dan sylw.

## Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a balansau cyfredol gyda Gwasanaeth Bancio y Llywodraeth a chyda’r banciau masnachol y gellir ei drosi’n hawdd yn symiau penodol o arian parod ac nad oes risg sylweddol y bydd eu gwerth yn newid.

## Prydlesau

Asedau ar brydles: Mae prydles yn gontract neu'n rhan o gontract sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased am gyfnod o amser yn gyfnewid am gydnabyddiaeth.

Caiff yr asedau ar brydles eu mesur i ddechrau ar swm sy'n gyfartal â’r gwerth isaf eu gwerth teg a gwerth presennol y taliadau prydles isaf. Yn dilyn y gydnabyddiaeth gychwynnol, caiff yr asedau eu hailbrisio, yn unol â'r polisi cyfrifyddu ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar.

Ar ddyddiad cychwyn y brydles, mae’r Comisiwn yn cydnabod ased hawl i ddefnydd a rhwymedigaeth prydles ar y fantolen. Mae’r ased hawl i ddefnydd yn cael ei fesur ar bris cost, sy’n cynnwys mesuriad cychwynnol o’r rhwymedigaeth prydles, unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol a wynebir gan y Comisiwn, ac unrhyw daliadau prydles a wneir cyn dyddiad cychwyn y brydles (heb gynnwys unrhyw gymhellion a dderbyniwyd).

Mae’r Comisiwn yn dibrisio’r asedau hawl i ddefnydd ar sail llinell syth o ddyddiad cychwyn y brydles hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased hawl i ddefnydd neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sydd gynharach. Mae'r Comisiwn hefyd yn asesu'r ased hawl i ddefnydd ar gyfer amhariad pan fo dangosyddion o'r fath yn bodoli. Ar y dyddiad cychwyn, mae’r Comisiwn yn mesur y rhwymedigaeth prydles ar werth presennol y taliadau prydles sydd heb eu talu ar y dyddiad hwnnw, wedi’u disgowntio gan ddefnyddio’r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles os yw’r gyfradd honno ar gael yn rhwydd neu gyfradd fenthyca gynyddrannol y Comisiwn. Y gyfradd fenthyca gynyddrannol a ddefnyddiwyd (a bennwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi) yw 4.72 y cant ar gyfer prydlesi newydd sy’n dechrau, neu addasiadau neu ailfesuriadau perthnasol i brydlesi sy’n cael eu hailfesur ym mlwyddyn galendr 2024, neu 4.81 y cant ar gyfer blwyddyn galendr 2025.

Mae taliadau prydles sydd wedi’u cynnwys wrth fesur y rhwymedigaeth prydles yn cynnwys taliadau sefydlog (gan gynnwys rhai sefydlog mewn sylwedd), taliadau amrywiol yn seiliedig ar fynegai neu gyfradd, symiau y disgwylir iddynt fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol a thaliadau sy’n codi o opsiynau y ceir sicrwydd rhesymol y cânt eu harfer.

Yn dilyn y mesuriad cychwynnol, bydd yr atebolrwydd yn cael ei leihau ar gyfer taliadau a wneir a'i gynyddu ar gyfer llog. Bydd yn cael ei ail-fesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, neu os oes newidiadau mewn taliadau sefydlog mewn sylwedd. Pan fydd y rhwymedigaeth prydles yn cael ei hailfesur, mae'r addasiad cyfatebol yn cael ei adlewyrchu yn yr ased hawl i ddefnydd, neu elw a cholled os yw'r ased hawl i ddefnydd eisoes wedi'i ostwng i sero. Mae'r Comisiwn wedi dewis cyfrifo ar gyfer prydlesau tymor byr (llai nag un flwyddyn) a phrydlesau asedau â gwerth isel (llai na £20,000) gan ddefnyddio'r dulliau ymarferol. Yn lle cydnabod ased hawl i ddefnydd a rhwymedigaeth prydles, mae’r taliadau mewn perthynas â’r rhain yn cael eu cydnabod fel traul mewn elw neu golled ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Ar y datganiad o’r sefyllfa ariannol, mae asedau hawl i ddefnydd wedi’u cynnwys mewn eiddo, offer a chyfarpar ac mae rhwymedigaethau prydles wedi’u cynnwys mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill.

Caiff asedau a ddelir o dan brydlesau eraill eu dosbarthu fel prydlesau gweithredu ac nid ydynt yn cael eu cydnabod yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

Taliadau prydles: Caiff rhenti sy'n daladwy o dan les weithredol eu cynnwys yn y datganiad o wariant cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

### Cyflwyno adroddiadau fesul rhan

Mae'r rheolwyr yn fodlon nad oes gan y sefydliad, o dan ofynion IFRS 8, unrhyw ddatgeliad ychwanegol i'w wneud.

### Buddion i weithwyr

Mae cyflogau, taliadau a chost yr holl fuddion sy'n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â gwyliau blynyddol nad ydynt yn cael eu hawlio, yn cael eu cydnabod yn ystod cyfnod gwasanaeth staff. Mae'r rhwymedigaeth am wyliau blynyddol heb ei gymryd yn seiliedig ar nifer cyfartalog y diwrnodau a gronnwyd fesul aelod o staff wedi'i luosi â chyflog canolrifol y staff.

### Pensiynau

#### Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill

Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn a staff a secondiwyd i'r Comisiwn yn gymwys i fod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill, a elwir yn gynllun "Alpha". Cynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr yw hwn ac felly ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol.  Cwblhawyd prisiad y Cynllun ar 31 Mawrth 2020 gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Dangosodd canlyniadau'r prisiad yr angen i gyflwyno cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr penodol o 28.97%, gan symud oddi wrth haenau o gyfraddau. Bydd y gyfradd hon yn daladwy o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2027. At hynny, cadarnhaodd canlyniadau'r prisiad na thorrwyd y mecanwaith rheoli costau.  Codir symiau sy'n daladwy i'r Cynllun ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan fyddant yn ddyledus.

Ceir y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet:  Cyfrifon Blwydd-dal Sifil (**https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts/**).

#### Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd (MSPS)

Sefydlwyd cynllun pensiwn i Aelodau'r Senedd yn wreiddiol o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998* ac mae'n parhau i fod mewn grym o dan *Ddeddf*

*Llywodraeth Cymru 2006*. Cynllun buddion diffiniedig yw hwn, ac mae'n gymwys i gyflogau'r Aelodau a chyflog unrhyw ddeiliaid swyddi. Telir cost pensiynau Aelodau'r Senedd drwy gyfrwng taliadau a gyfrifir ar sail gronnus, a chaiff y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol ei rhoi ar gyfrifon y Cynllun. Byddai unrhyw ddyledion yn y gronfa sy'n codi oherwydd diffyg o ran asedau yn cael eu talu drwy gynyddu'r swm y mae'r Comisiwn yn ariannu. Wrth gyflwyno adroddiad ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun, mae'r Comisiwn wedi cadw at Safon Ryngwladol Cyfrifo 19. Yn unol ag IAS 19, mae gofyn i Ymddiriedolwyr y Cynllun gynnal dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer pob rhagdybiaeth actiwariaid sylweddol ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ddangos sut yr effeithir ar rwymedigaeth ddiffiniedig o ran buddiant gan newidiadau yn y rhagdybiaeth actiwariaid berthnasol ar y dyddiad hwnnw.

Mae'r MSPS yn paratoi ei Gyfrifon Blynyddol ei hun, sydd ar wahân i Gyfrifon y Comisiwn, ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Senedd[26].

## Treth ar Werth

Caiff y Comisiwn ei drin fel un o Gyrff y Goron at ddibenion *Deddf Treth ar Werth 1994* a, chan hynny, at ddibenion Adran 41 o'r Ddeddf honno (cymhwyso i'r Goron), caiff ei drin fel un o adrannau'r llywodraeth, a gall y TAW ar nwyddau a gwasanaethau a gyflenwir i'r Senedd fod yn adferadwy.
Codir TAW ar y Comisiwn yn ôl y gyfradd safonol yng nghyswllt ei weithgareddau masnachol, fel siop y Senedd.

## Darpariaethau

Mae'r Comisiwn yn cydnabod darpariaeth yn llawn yn y flwyddyn y bu'r digwyddiad.

## Dadfeilio

Mae'r Comisiwn o'r farn, yn gyffredinol, nad oes angen gwneud darpariaeth ar gyfer dadfeilio gan ystyried yr ychydig o waith cynnal a chadw wrth gefn, a'r adolygiad blynyddol, a chytuno ar y flaenraglen waith 10 mlynedd. Gofynnir am gyngor ynghylch materion penodol a gwneir darpariaeth lle bernir ei bod yn briodol.

[26] **https://senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio/ynghylch-aelodau-o-r-senedd/cynllun-pensiwn-aelodau-o-r-senedd-y-cynllun/aelodau-o-r-senedd-adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon/**

## 02. A - Costau sy'n gysylltiedig â'r Aelodau a staff

Mae gwybodaeth am nifer yr Aelodau a staff (a datgeliadau perthnasol eraill) i'w chael yn yr Adran Atebolrwydd - Adroddiad ar Daliadau a Staff.

### Costau sy'n gysylltiedig â'r Aelodau a staff

***Tabl 9: Mae costau staff yn cynnwys***

| Categori | Staff | Aelodau a deiliaid swyddi | Cyfanswm 2024-25 | Cyfanswm 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyflogau** | | | | |
| Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 21,754 | 5,637 | 27,391 | 26,406 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 464 | - | 464 | 536 |
| Staff ar secondiad | 52 | - | 52 | 30 |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | | | | |
| Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 2,445 | 708 | 3,153 | 3,031 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 48 | - | 48 | 62 |
| Staff ar secondiad | 5 | - | 5 | 3 |
| **Costau pensiwn eraill** | | | | |
| Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 6,143 | 1,014 | 7,157 | 6,609 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 118 | - | 118 | 133 |
| Staff ar secondiad | 11 | - | 11 | 6 |
| **Is-gyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff** | **31,040** | **7,359** | **38,399** | **36,816** |
| Namyn yr adenillion am y secondiadau allanol | (158) | - | (158) | (381) |
| **Cyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff** | **30,882** | **7,359** | **38,241** | **36,435** |

Gwnaed un taliad diswyddo i aelod staff y Comisiwn yn 2024-25 (2023-24, dim.)

Y Comisiwn sy'n talu cyflogau'r holl Aelodau o'r Senedd a deiliaid swyddi, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, fel yr esbonnir yn yr Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn.  Caiff y symiau a delir i Weinidogion Cymru eu datgelu yng nghyfrifon adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru. Ar 31 Mawrth 2025, roedd 60 Aelod o'r Senedd mewn swydd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 36 Aelod o'r Senedd mewn swyddi a gafodd gyflog ychwanegol, fel y pennwyd gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, ac roedd 14 ohonynt yn ffurfio'r Cabinet: un Prif Weinidog, wyth Ysgrifennydd y Cabinet (Gweinidogion Cymru), pedwar Gweinidog (dirprwy Weinidogion Cymru), ac un Cwnsler Cyffredinol.

## Trefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Ar gyfer 2024-25, roedd cyfraniadau cyflogwr o £6,326 miliwn (2023-24, £5,627 miliwn) yn daladwy ar 28.97 y cant o'r tâl pensiynadwy. Bydd actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu'r buddion wrth iddynt gronni, yn hytrach na phryd y telir y costau, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol.

Caiff cyflogeion newydd ers 1 Ebrill 2015 ymuno naill ai â chynllun alpha neu â'r cynllun partneriaeth. Cynllun pensiwn buddion diffiniedig cyfartaledd gyrfa yw alpha; cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig yw'r cynllun partneriaeth.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, roedd cyfraniadau o £2,870 (2023-24, £2,890) yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu bryd hynny.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**.

## Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd

Mae'r Senedd yn darparu cynllun buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*. Mae Adran 20(4) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ac Atodlen 11 i'r Ddeddf honno yn rhoi dilyniant i'r Cynllun. Nid yw *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (y Bwrdd) yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Senedd a'u staff. Mae

manylion y cyflogau a'r lwfansau wedi’u cynnwys yn nogfen Penderfyniad y Bwrdd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024.

Cyflwynodd y Bwrdd fel rhan o'i Benderfyniad ar gyfer y Bumed Senedd gynllun pensiwn cyfartalog gyrfa newydd (CARE) ar gyfer Aelodau.  Cymeradwywyd y Cynllun gan Drysorlys EM yn unol â *Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013* a'i gyflwyno i ddod i rym o 6 Mai 2016.

Mae’r Cynllun yn darparu buddion ar gyfer Aelodau’r Senedd a deiliaid swyddi. Mae pob Aelod o’r Senedd yn aelodau o’r Cynllun o’r dyddiad y maent yn ymuno â’r Senedd, oni bai eu bod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Ers dechrau'r Chweched Senedd, mae pob Aelod yn y Cynllun CARE. Mae gan y Cynllun gyfradd gronni o 1/50fed ac mae’r oedran pensiwn yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Cyfradd cyfraniad yr aelodau yw 10.5 y cant. Cafodd aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 'Ddiogelwch Pontio' ac maent wedi parhau i gael eu buddion wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd ychwanegol tan 6 Mai 2021. Cyfrannodd yr aelodau hyn naill ai 10 y cant neu 6 y cant ar gyfer 40fed neu 50fed croniad yn y drefn honno tan 6 Mai 2021.

Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'diogelwch trosiannol' a gynigiwyd i rai aelodau o gynlluniau'r barnwyr a'r diffoddwyr tân wedi arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019, gwnaeth Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn cadarnhau, gan fod 'diogelwch trosiannol' yn cael ei gynnig i aelodau o holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, fod angen dileu’r darpariaethau a oedd yn arwain at wahaniaeth o ran triniaeth o'r holl gynlluniau ar gyfer aelodau a oedd wedi cyflawni’r cyfnod perthnasol o wasanaeth.

Mae’r Bwrdd yn gyfrifol am reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Ar ôl ystyried barn y Bwrdd Pensiynau, cytunodd y Bwrdd y dylid mabwysiadu rhwymedi i gael gwared ar y gwahaniaethu yn rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau o ganlyniad i'r darpariaethau diogelwch trosiannol sydd ynddynt. Mae'r Bwrdd wedi ymgynghori â'r Aelodau yr effeithir arnynt a Chomisiwn y Senedd ar rwymedi arfaethedig. Mae’r Aelodau yr effeithir arnynt wedi cael cynnig dewis ar unwaith ym mlwyddyn dreth 2024/25 i aros yn y Cynllun CARE neu ddychwelyd i'r adran Cyflog Terfynol am y cyfnod Unioni (6 Mai 2016 – 6 Mai 2021).

O 7 Mai 2021, mae'r holl Aelodau bellach yn y cynllun CARE.

Caiff yr Oedran Ymddeol Arferol ei gysylltu ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed, pa un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar oedran ymddeol arferol o 65 oed.

Caiff asedau'r Cynllun eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Senedd, gan Mobius Life Limited, ac mae chwe Rheolwr Buddsoddi yn eu trin.  Mae buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cronfeydd cyfun a reolir gan Baillie Gifford, BNY Mellon, Partners Group, LGIM, M&G Investments UK ac Insight Investment. Mae'r Ymddiriedolwyr yn buddsoddi mewn cronfa Enillion Real Cynaliadwy, cronfa Twf Amddiffynnol, cronfa Marchnadoedd Preifat, cronfa Mynegai Ecwiti Byd-eang Moesegol (wedi'i rhagfantoli a heb ei rhagfantoli), cronfa eiddo a dwy gronfa credyd aml-sector. Mae'r Ymddiriedolwyr yn parhau i weithio tuag at eu hamcanion o ran ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant, a'u hamcanion buddsoddi, i leihau cyswllt uniongyrchol y Cynllun â'r sector olew a nwy.

Ar ôl cwblhau'r prisiad, gostyngodd cyfradd cyfraniad y cyflogwr sy'n daladwy gan y Senedd o 19.9% i 18% o gyflogau cyfanredol yr Aelodau. Roedd hyn yn adlewyrchu gwelliannau yn lefel ariannu'r cynllun a newidiadau yn rhagolygon y farchnad.  Cyfradd cyfraniad yr Aelodau yw 10.5 y cant o'u cyflog.

Mae gan y Bwrdd Pensiynau gyfres o amcanion cyllido ac yn cynnal prisiad cyllid tair blynedd sy'n anelu at fonitro lefelau cyllido a rheoli costau'r Cynllun. Bydd y prisiad actiwaraidd nesaf fel ar 1 Ebrill 2026.

Y prif amcan cyllido yw cynnal cronfa o asedau y disgwylir iddi fod yn ddigonol i ddarparu'r buddion a addawyd i aelodau a'u buddiolwyr. Mae'r amcan hwn yn unol â chyngor Ymddiriedolwyr y Cynllun, gan ystyried cyngor gan yr Actiwari. Y nod yw sicrhau y telir am fuddion cronni yn ystod cyfranogiad aelodau yn y Cynllun a bod y taliadau a delir gan y Senedd ar gyfer cronni buddion yn rhesymol sefydlog dros gyfnod. Ymdrinnir â'r amcanion hyn drwy bennu cyfradd cyfrannu a fynegir fel canran lefel o'r cyflog pensiynadwy o'r enw'r Gyfradd Cyfraniad Safonol. Mae'r gyfradd safonol hon yn golygu y byddai'n ddigonol i gyllido'r buddion o dan y Cynllun, cyhyd â bod y profiad hwnnw yn unol â'r tybiaethau actiwaraidd a wnaethpwyd. Gan ddibynnu ar faint y gronfa gronedig a phrofiad gwirioneddol y Cynllun fel y'i datgelir gan y prisiadau actiwaraidd bob tair blynedd, efallai y bydd yn rhaid talu cyfraniadau mwy neu daliadau llai am gyfnod i ganiatáu, yn benodol, ar gyfer amorteiddio'r symiau dros ben neu'r diffygion.

Sefydlwyd y Cynllun Pensiwn ym 1999 ac mae'n anaeddfed, gydag incwm cyfraniadau yn dal i fod yn fwy na gwariant rheolaidd ar fuddion. Mae hyd cyfnod cyfartalog rhwymedigaethau'r cynllun, wedi'i bwysoli, oddeutu 16 mlynedd.

***Tabl 10: Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel a ganlyn***

| | Nodyn | 31 Mawrth 2025 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000* |
|---|---|---|---|
| Gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun | | (44,205) | (48,158) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | | 48,416 | 47,085 |
| Gwarged net (atebolrwydd) | | **4,211** | **(1,073)** |
| Swm yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | | |
| Rhwymedigaethau | | - | (1,073) |
| Asedau | | 4,211 | - |
| **Gwarged net (atebolrwydd)** | **5** | **4,211** | **(1,073)** |

***Tabl 11 7: Dadansoddiad o'r swm a godwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr***

| | 2024-25 £'000 | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| Cost cyfredol y gwasanaeth | 937 | 909 |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 2,291 | 2,097 |
| Llog ar asedau'r cynllun | (2,236) | (1,987) |
| Treuliau gweinyddol | 163 | 188 |
| | **1,155** | **1,207** |
| **Dyrannwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn:** | | |
| Costau pensiwn eraill | 924 | 1,071 |
| Costau cyllid pensiynau | 231 | 136 |
| | **1,155** | **1,207** |

***Tabl 82: Dadansoddiad o'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr (SCITE)***

| | 2024-25 £'000 | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| Gwir (golled) / enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | (885) | 2,412 |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | (110) | (990) |
| Newidiadau mewn tybiaethau | 6,510 | (25) |

| | 2024-25 £'000 | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| **Enillion actiwaraidd net a gydnabyddir yn SCITE** | **5,515** | **1,397** |

***Tabl 93: Newidiadau yng ngwerth y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn***

| | 31 Mawrth 2025 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau ar 1 Ebrill | 48,158 | 45,135 |
| Cost presennol y gwasanaeth (heb gynnwys cyfraniadau'r Aelodau) | 937 | 909 |
| Cyfraniadau'r Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 534 | 518 |
| Buddion a dalwyd yn ystod y flwyddyn | (1,315) | (1,516) |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 2,291 | 2,097 |
| Colledion/(enillion) actiwaraidd | (6,400) | 1,015 |
| **Rhwymedigaethau ar 31 Mawrth** | **44,205** | **48,158** |

***Tabl 104: Newidiadau mewn asedau yn ystod y flwyddyn***

| | 31 Mawrth 2025 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ar 1 Ebrill | 47,085 | 42,801 |
| Llog ar asedau'r cynllun | 2,236 | 1,987 |
| Gwir (golled) / enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | (885) | 2,412 |
| Cyfraniadau cyflogwyr | 924 | 1,071 |
| Cyfraniadau gan yr Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 534 | 518 |
| Buddion a dalwyd a threuliau | (1,315) | (1,516) |
| Treuliau gweinyddol | (163) | (188) |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau'r cyfrifon ar 31 Mawrth** | **48,416** | **47,085** |

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyfrannu £956,442 at Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd yn 2025-26.

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

***Tabl 115: prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun***

| | **2024-25** | **2023-24** |
|---|---|---|
| Ecwitïau | 50% | 52% |
| Buddsoddiadau amgen | 11% | 14% |
| Eiddo | 7% | 7% |
| Llog sefydlog ac arian parod | 32% | 27% |
| | **100%** | **100%** |

Mae asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi mewn amrywiaeth o gronfeydd. Cynhaliwyd adolygiad ffurfiol o strategaeth fuddsoddi'r Cynllun yn ystod 2024. Yn dilyn yr adolygiad, cytunodd y Bwrdd Pensiynau i strategaeth fuddsoddi newydd.

Mae'r strategaeth newydd yn targedu enillion buddsoddi ychydig yn uwch na'r strategaeth flaenorol, sy'n cefnogi'r rhagdybiaethau prisio actiwaraidd (yn nodi bod y Cynllun yn parhau i fod dros ben ar sail y prisiad presennol). Fodd bynnag, mae gan y strategaeth newydd broffil risg ychydig yn is o'i gymharu â'r strategaeth flaenorol (fel y'i mesurir gan y Gwerth mewn Perygl).

Mae'r rheolwyr a'r cronfeydd a ddefnyddiwyd i weithredu'r strategaeth newydd yn cynnig ffocws cryfach ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a gostyngiad sylweddol arall yng nghysylltiad yr asedau â'r sector olew a nwy.

Ni ddisgwylir i'r newid gael effaith sylweddol ar lefel yr enillion disgwyliedig tymor hir sy'n gysylltiedig â strategaeth fuddsoddi'r Cynllun, nac effeithio ar allu'r Cynllun i dargedu'r lefel ofynnol o enillion buddsoddi yn y tymor hir fel sy'n ofynnol gan ragdybiaethau'r prisiad actiwaraidd.

Mae'r Bwrdd Pensiynau yn ymwybodol y gall enillion buddsoddi fod yn anwadal yn y tymor byr, yn enwedig lle y mae rhai sectorau wedi'u heithrio o'r portffolio. Felly, bydd yn parhau i adolygu'n rheolaidd enillion y strategaeth gyffredinol, a'r cronfeydd unigol ac yn trafod addasiadau gofynnol â'i gynghorwyr buddsoddi.

Roedd y cronfeydd a ddelir ar 31 Mawrth 2025 fel a ganlyn:

- BNY Mellon Real Return (Responsible)
- Baillie Gifford Defensive Growth
- Legal & General Managed Property
- Partners Group Generations

- Legal & General FTSE TPI Global Fossil Fuel Exclusions Equity Index (GBP hedged)
- M&G Global Sustainable Paris Aligned
- M&G Sustainable Total Return Credit Investment
- Insight Responsible Horizons Multi Sector Credit
- Legal and General Cash (sylwer nad yw hyn yn rhan o ddyraniad asedau strategol y Cynllun ac fe'i defnyddir ar sail ad hoc at ddibenion llif arian)

Cwblhawyd cyfran olaf y trawsnewidiad i'r strategaeth fuddsoddi newydd ar ôl diwedd blwyddyn y Cynllun.

Cyfanswm gwerth yr Arian a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2025 y farchnad oedd £48.43 miliwn (31 Mawrth 2024, £46.99 miliwn)

Dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 cynhyrchodd portffolio buddsoddi'r Cynllun elw o tua 3.0 y cant. Sbardunwyd hyn gan enillion yng ngwerth pob dosbarth o asedau mawr yn ystod y cyfnod, yn enwedig ecwiti. Yr elw gwirioneddol ar fuddsoddiadau'r Cynllun yn ystod 2024-25 oedd enillion o £1.4 miliwn (2023-24, enillion o £4.4 miliwn).

Tanberfformiodd strategaeth fuddsoddi'r Cynllun yn erbyn marchnadoedd ecwiti dros yr un cyfnod, a gynyddodd mewn gwerth gan tua 4.8 y cant (mewn termau lleol), ond perfformiodd yn well na bondiau hirdymor Llywodraeth y DU (a ddychwelodd tua -8.2 y cant). Tanberfformiodd y Cynllun yn erbyn ei gyfradd ddisgownt (Mynegai Prisiau Defnyddwyr plws 3.0 y cant), a wnaeth elw o tua 5.6 y cant yn ystod cyfnod o chwyddiant uwch.

### Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

***Tabl 126: Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol***

| Tybiaethau | 31 Mawrth 2025 | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| Cyfradd y gostyngiad | 5.65% | 4.75% |
| Y gyfradd ddisgownt yn fwy na'r cynnydd mewn enillion yn y dyfodol | 1.60% | 0.75% |
| Y gyfradd ddisgownt yn fwy na'r cynnydd mewn pensiwn yn y dyfodol (CPI) | 2.80% | 1.95% |
| Hyd oes ddisgwyliedig yn 65 oed (blynyddoedd): | | |
| Gwryw | 23.6 | 23.7 |
| Menyw | 25.5 | 25.3 |

| **Tybiaethau** | **31 Mawrth 2025** | **31 Mawrth 2024** |
|---|---|---|
| Gweddwon | 24.4 | 24.1 |

## Sensitifrwydd i'r prif ragdybiaethau

Amlinellir yn y tabl a ganlyn yr effaith ddangosol ar gyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd ar 31 Mawrth 2025 o ran y newidiadau yn y prif ragdybiaethau.

***Tabl 137: Effaith ddangosol ar gyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd***

| **Newidiadau yn y prif dybiaethau** | **Effaith fras** | |
|---|---|---|
| | **%** | **£ miliwn** |
| Cyfradd ddisgownt + 1 y cant y flwyddyn | -13% | -5.9 |
| Cyfradd ddisgownt - 1 y cant y flwyddyn | + 17% | +7.5 |
| Enillion + 1 y cant y flwyddyn | + 1% | +0.4 |
| Enillion - 1 y cant y flwyddyn | -1% | -0.3 |
| CPI + 1 y cant y flwyddyn | + 15% | +6.7 |
| CPI - 1 y cant y flwyddyn | -12% | -5.4 |
| Rhagdybir bod yr hirhoedledd ar ôl ymddeol yn fwy o ddwy flynedd | + 5% | +2.4 |

Mae’r symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a’r pedwar cyfnod blaenorol fel a ganlyn:

***Tabl 148: Y symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a’r pedwar cyfnod blaenorol***

| | **31 Mawrth 2025 £’000** | **31 Mawrth 2024 £’000** | **31 Mawrth 2023 £’000** | **31 Mawrth 2022 £’000** | **31 Mawrth 2021 £’000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig | 44,205 | 48,158 | 45,135 | 65,211 | 63,885 |
| Asedau’r cynllun | 48,416 | 47,085 | 42,801* | 46,166 | 43,644 |
| Gwarged net / (atebolrwydd) | 4,211 | (1,073) | (2,334)* | (19,045) | (20,241) |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | 110 | 990 | 3,536 | 229 | 355 |
| Gwir (golled) / enillion heb gynnwys llog ar asedau’r cynllun | (885) | 2,412 | (4,894)* | 2,233 | 7,144 |

**Mae ffigurau 2022-23 wedi’u hailddatgan i adlewyrchu’r gwerthoedd a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynllun Pensiwn yr Aelodau ar gyfer 2022-23*

Mae rhagor o wybodaeth am Gynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd[27] ar gael yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y cynllun am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

[27] **https://senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio/ynghylch-aelodau-o-r-senedd/cynllun-pensiwn-aelodau-o-r-senedd-y-cynllun/aelodau-o-r-senedd-adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon/**

## 02. B – Costau eraill yr Aelodau

Mae costau eraill yr aelodau, sef £11.823 miliwn (2023-24, £10.839 miliwn), yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys y canlynol:

| Categori | 2024-25<br>£'000 | 2023-24<br>£'000 |
|---|---|---|
| Costau swyddfa | 1,398 | 1,314 |
| Costau ychwanegol | 317 | 263 |
| Costau staff yr Aelodau | 9,914 | 9,056 |
| Costau teithio | 194 | 206 |
| **Cyfanswm costau eraill yr Aelodau** | **11,823** | **10,839** |

Mae costau staff aelodau yn cynnwys dau daliad diswyddo yn 2024-25 ar gost o £28,840 (2023-24, dim).

O 1 Ebrill 2023 ymlaen, newidiodd y cynllun pensiwn ar gyfer Staff Cymorth Aelodau o drefniant Rhanddeiliaid i Gynllun Pensiwn Personol Grŵp. Mae'r cynllun yn gynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig gydag AVIVA y mae'r Comisiwn yn gwneud cyfraniad misol o 10 y cant iddo o'r cyflog gros ar gyfer staff cymorth Aelodau o'r Senedd. At hynny, o ddechrau'r Chweched Senedd, pan fydd aelod o staff yn dewis gwneud cyfraniad personol i'w bensiwn, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sy'n cyfateb i'r cyfraniadau personol hynny hyd at uchafswm o dri y cant o'r cyflog gwirioneddol a delir. Mae'r Cynllun yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gofrestru awtomatig a dyddiad diwethaf ail-gyflwyno'r Cynllun oedd 1 Ionawr 2023. Y cyfraniadau pensiwn cyflogwr a dalwyd yn 2024-25 oedd £1,098,509 (2023-24, £974,083).

## 02. C – Y Comisiynydd Safonau

Yn unol â thelerau *Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009*, y Comisiwn sy'n talu cyflog y Comisiynydd, ac unrhyw gostau cysylltiedig y mae'r Comisiynydd Safonau ('y Comisiynydd') yn eu hysgwyddo. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyflogau a'r lwfansau y cytunwyd arnynt yn y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Comisiynydd, ac unrhyw rwymedigaethau rhesymol a ysgwyddir wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau, yn cael eu codi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

Y Comisiynydd yw Douglas Bain CBE TD, a benodwyd o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Mae'r penodiad am gyfnod o chwe blynedd. Mae rhagor o wybodaeth am Douglas Bain a'i waith fel y Comisiynydd ar gael yn **https://comisiynyddsafonaucymru.org/**

### Adnoddau cymorth

Caiff swydd y Comisiynydd ei chefnogi gan aelod o staff y Comisiwn sydd ar secondiad i gynorthwyo gyda'r gwaith achos a gaiff ei ystyried, i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid a sicrhau bod y swyddfa'n cael ei rhedeg yn effeithiol. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion yr amser a'r costau a oedd yn gysylltiedig â'r Comisiynydd a chostau cyflogau ei staff cymorth. Hefyd yn y tabl isod mae'r costau sy'n gysylltiedig â Chomisiynydd Dros Dro a gynghorodd ar un achos penodol. Ceisiodd y Comisiynydd a'r Comisiynydd Dros Dro gyngor cyfreithiol gan staff y Comisiwn lle'r oedd hynny'n briodol.

### Oriau a chostau staffio

| Natur y gost | 2024-25 | | 2023-24 | |
|---|---|---|---|---|
| | Oriau | Costau | Oriau | Costau |
| Oriau'r Comisiynydd | 517 | | 626 | |
| Costau cyflogaeth y Comisiynydd / Comisiynydd Dros Dro | | £42,101 | | £54,624 |
| **Costau a godir ar Gronfa Gyfunol Cymru[28]** | | **£42,101** | | **£54,624** |
| Costau cyflogaeth staff cymorth | | £76,368 | | £74,448 |
| Costau cymorth cyfreithiol a chymorth proffesiynol arall | | £8,555 | | £5,498 |

[28] Ysgwyddwyd taliadau teithio a chynhaliaeth o £24.30 yn ystod 2024-25 na chafodd eu hail-godi ar Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd hyn yn cael ei wirio yn 2025-26.

| Natur y gost | 2024-25 | | 2023-24 | |
|---|---|---|---|---|
| **Costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol ag adnoddau a ddarparwyd gan y Comisiwn** | | **£127,024** | | **£134,570** |

## 03. Costau gweinyddol eraill

Mae'r costau gweinyddol eraill gwerth £18.8 miliwn (2023-24, £16.4 miliwn) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

| | 2024-25<br>£'000 | 2023-24<br>£'000 |
|---|---|---|
| Prydlesau – adeiladau | 493 | 495 |
| Prydlesau – eraill | 48 | 42 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau | 6,812 | 5,901 |
| Costau TGCh | 3,429 | 2,855 |
| Treuliau gweinyddol | 1,963 | 1,364 |
| Costau sy'n gysylltiedig â staff | 530 | 462 |
| **Costau gweinyddol eraill** | **13,275** | **11,119** |
| Costau llog ar asedau hawl i ddefnydd | 608 | 624 |
| Dibrisiant, amorteiddiad a thaliadau amhariad | 4,873 | 4,673 |
| **Cyfanswm y costau gweinyddol eraill** | **18,756** | **16,416** |

Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol oedd £67,096 (2023-24, £63,945). Ni chynhaliwyd dim gwaith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2024-25 (2023-24, dim).

## 04. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Tir ac adeiladau £'000 | TGCh £'000 | Gosodion a ffitiadau[29] £'000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | **68,660** | **8,655** | **2,019** | **252** | **79,586** |
| Ychwanegiadau | - | 687 | 127 | 362 | 1,176 |
| Ailddosbarthwyd | - | - | 281 | (281) | - |
| Ailbrisiwyd | (2,039) | - | - | - | (2,039) |
| Gwerthwyd | - | (3,463) | - | - | (3,463) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **66,621** | **5,879** | **2,427** | **333** | **75,260** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | **0** | **(6,985)** | **(1,305)** | **-** | **(8,290)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (2,140) | (629) | (106) | - | (2,875) |
| Ailbrisiwyd | 2,139 | - | - | - | 2,139 |
| Gwerthwyd | - | 3,463 | - | - | 3,463 |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **(2)** | **(4,151)** | **(1,411)** | **-** | **(5,563)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2025** | **66,619** | **1,729** | **1,016** | **333** | **69,697** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2024** | **68,660** | **1,670** | **714** | **252** | **71,296** |

Gwerth llyfr y tir a'r adeiladau a ddelir o dan drefniadau prydles ar 31 Mawrth 2025 yw £5.3 miliwn (31 Mawrth 2024, £5.284 miliwn).

Cynhaliwyd ailbrisiad o dir ac adeiladau gan T Merrifield MRICS o Avison Young (UK) Limited ar 31 Mawrth 2025, yn unol â Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r Comisiwn yn cynnal ailbrisiad llawn bob tair blynedd, a chynhaliwyd yr un olaf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. Roedd y prisiad ar gyfer y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2025 yn adlewyrchu codiadau chwyddiant a diwygiadau BCIS.

[29] Mae gosodion a ffitiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y Byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

Mae ailbrisio wedi arwain at gynnydd yng ngwerth Tir ac Adeiladau yn y Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol o £0.097 miliwn o'i gymharu â'r swm cario a fyddai wedi cael ei gydnabod pe bai'r asedau wedi cael eu cario o dan y model cost.

Ni nododd yr adolygiadau amhariad unrhyw arwyddion o nam ar 31 Mawrth 2025 ac felly ni nodwyd unrhyw namau.

Cynhaliwyd adolygiad o'r Gofrestr Asedau Sefydlog a nodwyd gwerth £3.463 miliwn o warediadau. Mae hyn yn ymwneud ag asedau sydd â gwerth cario ymlaen o ddim ac nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach.

| | Tir ac adeiladau<br>£’000 | TGCh<br>£’000 | Gosodion a ffitiadau[30]<br>£’000 | Asedau sy’n cael eu hadeiladu<br>£’000 | Cyfanswm<br>£’000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | **70,924** | **8,678** | **2,013** | **149** | **81,764** |
| Ychwanegiadau | - | 677 | 6 | 250 | 933 |
| Ailddosbarthwyd | - | 147 | - | (147) | - |
| Ailbrisiwyd | (2,264) | - | - | | (2,264) |
| Gwerthwyd | - | (847) | - | | (847) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **68,660** | **8,655** | **2,019** | **252** | **79,586** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | **-** | **(7,364)** | **(1,170)** | **-** | **(8,534)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (2,073) | (468) | (135) | - | (2,676) |
| Ailbrisiwyd | 2,073 | - | - | - | 2,073 |
| Gwerthwyd | - | 847 | - | - | 847 |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **0** | **(6,985)** | **(1,305)** | **-** | **(8,290)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2024** | **68,660** | **1,670** | **714** | **252** | **71,296** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023** | 70,924 | 1,314 | 843 | 149 | 73,230 |

[30] Mae gosodion a ffitiadau yn cynnwys ‘asedau a gafwyd yn rhodd’, gan gynnwys y Byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

## 05. Ased pensiwn

| | 31 Mawrth 2025 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | (1,073) | (2,361) |
| Gostyngiad mewn darpariaeth | 5,515 | 1,424 |
| Costau cyllid pensiynau | (231) | (136) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **4,211** | **(1,073)** |

O dan IAS 19, cydnabyddir gwarged o £4.211 miliwn ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd. Mae'r gwarged yn codi oherwydd gwerth teg asedau'r cynllun sy'n fwy na gwerth presennol y rhwymedigaethau buddion diffiniedig. Mae'r Comisiwn yn rhagweld y gellid adennill y gwarged dros y 4 i 15 mlynedd nesaf trwy ostyngiad mewn cyfraniadau. Ceir rhagor o wybodaeth yn Nodyn 02.A.

## 06. Symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn

| | 31 Mawrth 2025<br>£'000 | 31 Mawrth 2024<br>£'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| Symiau masnachol i'w derbyn | 26 | 149 |
| Symiau eraill i'w derbyn | 58 | 34 |
| Rhagdaliadau | 1,878 | 1,786 |
| TAW y gellir ei hadennill | 305 | 280 |
| | **2,267** | **2,249** |

Nid oedd unrhyw symiau i'w derbyn yn ddyledus ar ôl rhagor na blwyddyn.

## 07. Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

| | 31 Mawrth 2025<br>£'000 | 31 Mawrth 2024<br>£'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 276 | 226 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 74 | 50 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **350** | **276** |
| Balansau ar 31 Mawrth a oedd yn cael eu cadw gan: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 350 | 272 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 0 | 4 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **350** | **276** |

## 08. Symiau masnachol taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2025<br>£'000 | 31 Mawrth 2024<br>£'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| TAW yn daladwy | 8 | 7 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 957 | 917 |
| Symiau masnachol taladwy | 1,213 | 853 |
| Croniadau | 2,909 | 2,432 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 350 | 276 |
| | **5,437** | **4,485** |

Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus gan ddyledwyr ar ôl rhagor na blwyddyn.

## 09. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| Dadfeilio | 31 Mawrth 2025<br>£'000 | 31 Mawrth 2024<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **144** | **171** |
| Cynnydd mewn darpariaeth | - | - |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | (27) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **144** | **144** |

Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol am y darpariaethau dadfeilio yn Nodyn 01 - Datganiad o bolisïau cyfrifyddu.

O'r cyfanswm o £144,000 o ddarpariaeth (2023-24, £144,000), ni ddisgwylir i unrhyw swm grisialu o fewn blwyddyn (2023-24, £0).

## 10. Ymrwymiadau o dan brydlesau

### (a) Prydlesau gweithredol

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl blwyddyn y cyfrifon hyn, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod yr achosir y taliadau.

| Categori | 31 Mawrth 2025 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Tir ac adeiladau: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | - | - |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | - | - |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| | **-** | **-** |
| Eraill – car, argraffwyr a chopiwyr: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 19 | 24* |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 11 | 36* |
| | **30** | **60*** |

*Mae ffigurau 31 Mawrth 2024 wedi'u hailddatgan

### (b) Prydlesau ariannol

Mae dadansoddiad yn y tablau canlynol o'r ymrwymiadau a ddosberthir fel prydlesau yn unol â chymhwyso IFRS 16. Nid oes gan y Comisiwn unrhyw brydlesi cyllid eraill. Ni ychwanegwyd unrhyw brydlesi yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25.

Mae'r risg hylifedd yn y dadansoddiad aeddfedrwydd o'r ased hawl i ddefnydd yn fach iawn o ystyried bod y Comisiwn yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru ar sail cyllideb sy'n darparu ar gyfer costau gwasanaethu'r brydles.

| Asedau Hawl i Ddefnydd | Adeiladau | Technoleg Gwybodaeth | Offer a Pheiriannau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2024 | 65,100 | 43 | 10 | 65,153 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 1. 0 | 2. 0 | 3. 0 | 4. 0 |
| Cost dibrisiant | (1,973) | (22) | (3) | (1,998) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **63,127** | **21** | **7** | **63,155** |

| Dadansoddiad aeddfedrwydd | 31 Mawrth 2025<br>£'000 | 31 Mawrth 2024<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Adeiladau** | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 2,311 | 2,311 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 11,553 | 11,553 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 60,087 | 62,397 |
| *Heb gynnwys* yr elfen llog | (9,928) | (10,536) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau | **64,023** | **65,725** |
| **Arall** | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 17 | 30 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | | 18 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 0 | - |
| *Heb gynnwys* yr elfen llog | 0 | - |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau | **17** | **47** |
| Cyfanswm gwerth presennol rhwymedigaethau | **64,040** | **65,772** |
| Rhan gyfredol | 1,736 | 1,733 |
| Rhan nad yw'n gyfredol | 62,304 | 64,039 |

| | 31 Mawrth 2025<br>£'000 | 31 Mawrth 2024<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr all-lif arian parod ar gyfer prydlesau | 2,340 | 2,338 |

Nid yw'r ffigurau'n cynnwys TAW

## 11. Ymrwymiadau cyfalaf ac eraill

Nid oedd dim ymrwymiadau cyfalaf o dan gontract ar 31 Mawrth 2025 nac ar 31 Mawrth 2024.

## 12. Ymrwymiadau ariannol eraill

Mae'r Comisiwn yn barti i nifer o gontractau eraill sy'n cyfeirio at derfynu'n gynnar ond nid oes taliadau wedi'u pennu ar gyfer hynny.  Byddai'r Comisiwn yn debygol o fynd yn groes i gontract pe bai'n ei derfynu'n gynnar, ac mae'n debygol y gallai'r contractwr hawlio iawndal am yr elw am y gwaith na gafodd ei gwblhau. Gan fod y ffigur hwn yn amrywio ar gyfer pob contract, nid yw'r contractau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

## 13. Atebolrwydd Dibynnol

Pe bai'r Comisiwn yn terfynu prydles Tŷ Hywel, byddai'r landlord yn nodi a oes angen unrhyw waith adfer ar ddiwedd y brydles. Nid yw unrhyw gostau'n hysbys ar hyn o bryd a byddent yn dibynnu ar drafodaethau gyda'r landlord.

## 14. Offerynnau Ariannol

Nid yw'r Comisiwn yn cyhoeddi nac yn masnachu mewn offerynnau ariannol fel rhoi benthyciadau ac nid yw wedi benthyca arian. Mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid o Gronfa Gyfunol Cymru am ei ofynion arian parod ac, felly, nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd, nid oes ganddo adneuon arwyddocaol, ac mae'r holl asedau a'r rhwymedigaethau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred.

## 15. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae gan y Comisiwn nifer o drafodion gyda Llywodraeth Cymru ac adrannau eraill y llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Yn ogystal, mae trafodion rheolaidd yn digwydd gyda Chynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd (gweler yr adroddiad Taliadau a staff, tudalen 146).

Gall y Senedd roi cyfarwyddyd arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn at ddibenion arfer swyddogaethau Comisiwn y Senedd, neu yng nghyswllt hynny.

Nid yw'r Comisiwn wedi cael unrhyw drafodion perthnasol uniongyrchol â Chomisiynwyr, uwch-reolwyr nac unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd nac ag unrhyw sefydliad lle mae gan Gomisiynwyr, uwch-reolwyr neu unrhyw aelodau

agos o’u teuluoedd swydd sy’n eu galluogi i reoli neu ddylanwadu ar benderfyniadau.

Sefydlwyd Bwrdd Taliadau annibynnol gan *Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010* (y Bwrdd). Y Bwrdd sy'n pennu cyflogau a lwfansau holl Aelodau a deiliaid swyddi'r Senedd. Yn flaenorol, roedd gan Aelodau hawl i hawlio lwfansau am gyflogi aelodau o'r teulu. Ni chaniateir iddynt hawlio lwfansau ar gyfer unrhyw staff newydd sy'n aelodau o'r teulu mwyach; bydd lwfansau i'r rhai mewn gwasanaeth yn dod i ben ar ddiwedd y Senedd bresennol.

Y Comisiwn sy'n penderfynu ar y polisïau ar gyflogau ac amodau staff y Comisiwn. Nid oes cyfyngiadau ar gyflogi aelodau o deuluoedd y Comisiynwyr neu’r uwch-reolwyr i weithio i’r Comisiwn.

Mae’r Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau. Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau ar gael yn **www.senedd.cymru** a **www.senedd.wales**.

# Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra

## Adrodd ar Reoleidd-dra

Caiff cyllideb Comisiwn y Senedd ei hawdurdodi gan y Senedd drwy gynigion cyllideb ffurfiol. Mae'r cynigion hyn yn awdurdodi gwariant cyfalaf a refeniw y Comisiwn, yn ogystal ag incwm y ceir ei gadw a'r swm y gellir ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.

Paratowyd y Datganiad a'r nodiadau ategol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2024-2025 y Llywodraeth (FReM) a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Senedd Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*.

**SOS 3 Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r cynnydd mewn arian parod**

| | 31 Mawrth 2025 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | (65,126) | (60,800) |
| O'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | 67,100 | 61,536 |
| Symiau sy'n ddyledus o Gronfa Gyfunol Cymru sydd heb eu defnyddio | (1,624) | (460) |
| Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | (276) | (226) |
| **Cynnydd mewn arian parod** | **74** | **50** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Derbyniwyd swm o £3,360 (2023-24 £3,314) o ran llog banc ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025. Yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, ni chaniateir i'r Comisiwn gadw'r swm hwn a bydd yn ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

## SOS 04 Cysoni Canlyniad Adnoddau Net â'r Gofyniad Arian Parod Net 2024-25

| | Nodyn | Y gyllideb | Alldro | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant/(gorwariant) | Alldro 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Alldro Adnoddau Net | SOS 01 | 70,530 | 69,357 | 1,173 | 63,857 |
| Arian parod sydd ei angen ar gyfer rhent | | 2,330 | 2,340 | (10) | 2,337 |
| Addasiadau croniadol | | - | - | | - |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod | Gweler isod | (5,760) | (5,712) | (48) | (5,433) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithio | | - | (859) | 859 | 39 |
| **Gofyniad arian parod net** | | **67,100** | **65,126** | **1,974** | **60,800** |

| ***Eitemau nad ydynt yn arian parod*** | Nodyn | Y gyllideb | Alldro | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb 2024-25 | Alldro 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Dibrisiant ac amorteiddiad a dadgydnabod | 4 a 10 | (4,750) | (4,873) | 123 | (4,673) |
| Costau llog a dibrisiant mewn perthynas ag IFRS16 | 3 | (610) | (608) | (2) | (624) |
| Cost cyllid pensiynau a newidiadau eraill mewn darpariaeth | 5 | (400) | (231) | (169) | (136) |
| | | **(5,760)** | **(5,712)** | **(48)** | **(5,433)** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

## SOS 05 Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

| | Y gyllideb 2024-25 £'000 | Alldro 2024-25 £'000 | Alldro 2023-24 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu y gellir ei gadw | 100 | 75 | 102 |
| Is-gyfanswm | 100 | 75 | 102 |
| Swm a gadwyd | 100 | 72 | 99 |
| **Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru** | **-** | **3** | **3** |

Ni chafwyd unrhyw incwm gweithredu arall yn 2024-25 (dim yn 2023-24).

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.


EVERYMAN
EVERYMAN



Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales